# Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol

Cyflwynwyd i'r Senedd gan
Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref
yn ôl Gorchymyn Ei Mawrhydi

Hydref 2013

Cm 8715

£21.25

**© Hawlfraint y Goron 2013**

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydedd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau parthed y cyhoeddiad hwn atom yn public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o'n gwefan yn https://www.gov.uk/government/publications

ISBN: 9780101871525

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2593608 10/13 33233 19585

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref | 5 |
| Crynodeb Gweithredol | 7 |
| Cyflwyniad | 13 |
| Ein Hymateb Strategol | 25 |
| ERLID: Erlyn ac ymyrryd ar droseddau difrifol a chyfundrefnol | 27 |
| ATAL: Atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol | 45 |
| DIOGELU: Cynyddu'r diogeliad yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol | 53 |
| PARATOI: Lleihau effaith troseddau difrifol a chyfundrefnol | 65 |
| Atodiad A: Atebolrwydd, llywodraethu a chyllid | 71 |
| Atodiad B: Rolau a chyfrifoldebau adrannol ar gyfer taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol | 73 |

# Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref



## Ymyrryd yn Ddi-baid ar Droseddwyr Cyfundrefnol

Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn fygythiad i'n diogelwch cenedlaethol ac yn costio mwy na £24 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig. Ond mae troseddwyr difrifol a chyfundrefnol wedi gallu bod gam ar y blaen ac allan o gyrraedd swyddogion gorfodi'r gyfraith yn llawer rhy hir.

Mae angen ymateb newydd. Mae ein strategaeth newydd yn seiliedig ar y fframwaith llwyddiannus a ddefnyddiwn i drechu terfysgaeth. Mae'n sefydlu sut fyddwn ni'n gweithredu ar bob cyfle i atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol; i gryfhau ein hamddiffyniad yn ei erbyn a'n hymatebion iddo; ac, yn bwysicach fyth, i fynd ar drywydd y troseddwyr, eu herlyn ac amharu ar eu gweithgareddau.

Mae partneriaethau cryf yn ganolog i hyn. Mae hon yn strategaeth trawslywodraethol, nid dim ond strategaeth i'r Swyddfa Gartref. Fel y gwnaethom ar gyfer gwrthderfysgaeth, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid mewn llywodraeth a gorfodi'r gyfraith i droi grym llawn y wladwriaeth yn erbyn y rhai sydd wrth wraidd y troseddau mwyaf difrifol.

Bydd ein strategaeth newydd, ynghyd â chreu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yn targedu troseddau difrifol a chyfundrefnol cenedlaethol a rhyngwladol. Ar yr un pryd, bydd ein diwygiadau i blismona – cael gwared ar dargedau a chynyddu atebolrwydd trwy gomisiynwyr yr heddlu a throseddu – yn cryfhau'r ymateb ar lefel leol.

Dylai unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn unrhyw fath o droseddu cyfundrefnol glywed neges glir iawn o'r strategaeth hon: byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amharu arnynt a'u herlyn.

**Theresa May**

# Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae hon yn strategaeth newydd i ddelio â'r heriau a wynebwn o droseddau difrifol a chyfundrefnol. Fe'i cyhoeddir i gyd-fynd â lansiad yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) newydd ac mae'n adlewyrchu newidiadau i'r bygythiadau a wynebir gennym a'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith blaenorol.

1.2 Mae troseddau cyfundrefnol yn cynnwys masnachu mewn cyffuriau, masnachu mewn pobl, a mewnfudo anghyfreithlon cyfundrefnol, twyll o werth uchel a throseddau ariannol eraill, ffugio, troseddau caffaelgar cyfundrefnol a throseddau seiber. Mae'r strategaeth hefyd yn delio â throseddau difrifol sy'n galw am ymateb cydlynol cenedlaethol, yn arbennig twyll arall a chamfanteisio rhywiol ar blant.

1.3 Mae troseddau cyfundrefnol yn fygythiad i'n diogelwch cenedlaethol. Mae'n costio £24 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig, yn arwain at golli bywydau a gall amddifadu pobl o'u diogelwch a ffyniant. Mae grwpiau troseddol yn dychrynu ac yn llygru ac yn cael effaith ddifäol ar rai cymunedau. Mae troseddau seiber yn tanseilio hyder yn ein technoleg gyfathrebu ac economi ar-lein. Mae troseddau mewnfudo cyfundrefnol yn bygwth diogelwch ein ffiniau. Rydym yn ystyried masnachu mewn pobl i fod yn ffurf ddinistriol o gaethwasiaeth fodern. Gall troseddau ariannol danseilio cywirdeb a sefydlogrwydd ein marchnadoedd a sefydliadau ariannol.

1.4 Dramor, mae troseddau cyfundrefnol yn tanseilio llywodraethu da a sefydlogrwydd gwledydd o bwysigrwydd strategol i'n diogelwch cenedlaethol. Gall grwpiau troseddau cyfundrefnol o dramor hwyluso neu gymryd rhan mewn terfysgaeth.

## Ein dull

1.5 Nod y strategaeth hon yw lleihau'r lefel o droseddau difrifol a chyfundrefnol sy'n effeithio ar y Deyrnas Unedig a'i buddiannau yn sylweddol. Mae'r strategaeth yn defnyddio'r fframwaith yr ydym wedi ei ddatblygu ar gyfer gwaith gwrthderfysgaeth ac mae pedair rhan iddi: erlyn ac ymyrryd ar bob sy'n cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol (Erlid); atal pobl rhag cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn (Atal); cynyddu diogeliad yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol (Diogelu); a lleihau effaith y troseddolrwydd hwn pan fydd yn digwydd (Paratoi).

1.6 Mae'r strategaeth hon yn rhestru amcanion strategol dan bob un o'r pedwar maes gwaith. Gosodir amcanion gweithredol tactegol (e.e. grwpiau troseddau blaenoriaethol) gan yr NCA gyda chymheiriaid asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

1.7 Ein prif flaenoriaeth yw'r gwaith a sefydlwyd dan Erlid i erlyn ac amharu'n ddi-baid ar droseddwyr cyfundrefnol a lleihau eu bygythiad.

1.8 Fel bygythiadau eraill i'n diogelwch cenedlaethol, mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn galw am ymateb ar draws y llywodraeth, a chydweithredu agos â'r cyhoedd, y sector preifat a gyda nifer o wledydd eraill.

# Strategaeth Troseddau Difr

## Erlid

- Creu sefydliadau cryf, effeithiol a chydweithredol
- Datblygu ein galluoedd
- Ymosod ar gyllid troseddol
- Sicrhau fod grymoedd cyfreithiol effeithiol ar gael
- Yn rhyngwladol, gwella’n galluoedd ein hunain a’n cydweithrediad gydag eraill

Erlyn ac amharu ar bobl sy'n ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol

## Atal

- Codi ymwybyddiaeth o’r realiti ac oblygiadau
- Ymyrryd i stopio pobl rhag cael eu denu i wahanol fathau o droseddau difrifol a chyfundrefnol
- Datblygu technegau i atal pobl rhag parhau mewn troseddolrwydd difrifol a chyfundrefnol
- Sefydlu fframwaith rheoli troseddwyr effeithiol i gefnogi gwaith ar Erlid ac Atal

Atal pobl rhag ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol

## Diogelu

- Diogelu ein ffiniau
- Diogelu llywodraeth genedlaethol a lleol
- Gwella diogelwch amddiffynnol yn y sector preifat
- Diogelu pobl sydd mewn perygl o fod yn ddioddefwyr
- Gwella ein systemau atal llygredigaeth
- Cryfhau systemau ar gyfer sefydlu hunaniaeth

Cynyddu'r diogeliad rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol

## Paratoi

- Sicrhau y daw digwyddiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol mawr i ddatrysiad buan ac effeithiol
- Sicrhau fod cymunedau, dioddefwyr a thystion sydd wedi eu heffeithio gan droseddau difrifol a chyfundrefnol yn derbyn y cymorth maent ei angen

Lleihau effaith troseddoldeb pan fydd yn digwydd

# frifol a Chyfundrefnol

Bydd yr NCA yn datblygu darlun gwybodaeth awdurdodol o droseddau cyfundrefnol ac yn gweithio gyda'r heddlu ac eraill i arwain, cydlynu a chefnogi'n hymateb. Bydd byrddau partneriaeth troseddau cyfundrefnol lleol newydd yn darparu cefnogaeth i blismona lleol ar bob agwedd o'r strategaeth hon. Datblygir galluoedd NCA a gorfodi'r gyfraith newydd i ddelio â datblygiadau mewn troseddau cyfundrefnol, yn arbennig y symud i droseddau ar-lein. Byddwn yn deddfu ar bob agwedd o droseddau cyfundrefnol. Byddwn yn cynyddu gwaith yn erbyn troseddwyr sy'n wladolion tramor ac yn ailffocysu rhwydwaith ryngwladol yr NCA i ddelio â phob math o droseddau.

Bydd gennym raglen ataliol newydd yn cynnwys cynyddu a gwella addysg a chyfathrebu ar droseddau cyfundrefnol, cydlynu lleol gyda gwaith presennol ar deuluoedd cythryblus a gangiau, a defnydd ehangach o ymyraethau (e.e. Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol). Rydym eisiau gweithio'n agosach gyda rheolyddion proffesiynau y gallai eu haelodau, yn fwriadol neu beidio, hwyluso gweithgaredd troseddau cyfundrefnol. Byddwn yn hyrwyddo rheolaeth troseddwyr gydol oes effeithiol fel fframwaith ar gyfer Erlid ac Atal yn cynnwys yr NCA, unedau heddlu rhanbarthol a heddluoedd.

Lleihau'r bygythiad

Rydym wedi newid rolau a chyfrifoldebau ar y ffin ac ar orfodi mewnfudo. Rydym yn meithrin galluoedd newydd ar y ffiniau. Byddwn yn cynyddu gwaith i leihau twyll yn erbyn y llywodraeth, ac yn benodol ar waith caffael llywodraethau lleol. Byddwn yn rhannu mwy o adrodd ar fygythiadau gyda rhannau mewn perygl o'r sector preifat, yn nodedig ar dwyll a throseddau seiber.

Byddwn yn darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd ar y materion hyn a hefyd ar gamfanteisio rhywiol ar blant. Byddwn yn gweithio i gyfyngu dosbarthu delweddau cam-drin plant. Rydym yn adolygu cyfrifoldebau ar gyfer ymchwilio ac adrodd ar lygredigaeth.

Byddwn yn parhau i ddatblygu gallu i ryngweithredu rhwng gwasanaethau brys i ddelio'n well â therfysgaeth a throseddau eraill. Byddwn yn sefydlu uned newydd i gydlynu ein hymateb cenedlaethol i ymosodiadau seiber mawr yn cynnwys troseddau seiber.

Thema yn y strategaeth hon yw darparu cefnogaeth i gymunedau sydd wedi eu heffeithio gan droseddau cyfundrefnol. Mae hyn yn rhan o bedwar prif faes ein gwaith. Bwriedir cynnal mentrau newydd penodol i gefnogi dioddefwyr a thystion hefyd.

Lleihau gwendid

## Nod

Lleihau'r lefel o droseddau difrifol a chyfundrefnol

## ERLID

1.9 Rydym yn adeiladu sefydliadau gyda rolau a chyfrifoldebau newydd i ddelio â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd ganddynt alluoedd newydd. Rydym eisiau gweld mwy o gydweithredu trawslywodraethol ar bob lefel. Rydym hefyd yn gwneud newidiadau i'n deddfwriaeth i wneud ein grymoedd yn fwy effeithiol. Rydym yn ail-lunio ein gwaith rhyngwladol i adlewyrchu'r newidiadau yn y bygythiadau sy'n ein hwynebu.

1.10 Bydd yr NCA yn dechrau gweithio'n ffurfiol yn Hydref 2013. Bydd yn datblygu a choladu gwybodaeth ar bob math o droseddau difrifol a chyfundrefnol, yn blaenoriaethu grwpiau troseddau yn unol â'r bygythiadau maent yn eu cyflwyno ac, ar y cyd â'r heddlu, yn arwain, cydlynu a chefnogi ein hymateb gweithredol.

1.11 Bydd heddluoedd yn parhau i gynnal y rhan fwyaf o waith gorfodi'r gyfraith ar droseddau difrifol a chyfundrefnol. Dylid cael byrddau partneriaeth troseddau cyfundrefnol lleol newydd i'w cefnogi, yn cynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau, i sicrhau y defnyddir yr holl wybodaeth a grymoedd sydd ar gael yn erbyn y bygythiad hwn. Credwn y dylai comisiynwyr yr heddlu a throseddu chwarae rhan flaenllaw o ran nodi a sefydlu'r corff priodol. Bydd y partneriaethau lleol hyn yn cael eu hysbysu gan broffiliau troseddau difrifol a chyfundrefnol lleol newydd a dylai hefyd chwarae rôl bwysig yn Atal, Diogelu a Pharatoi.

1.12 Byddwn yn parhau i adeiladu Unedau Troseddau Cyfundrefnol rhanbarthol (ROCUs) yng Nghymru a Lloegr. Bydd hefyd angen sicrhau rhannu data'n well rhwng adrannau llywodraeth ac asiantaethau i gefnogi'r unedau hyn. Byddwn yn ehangu ar y Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaethau'r Llywodraeth (GAIN) bresennol i'r perwyl hwn.

1.13 Golyga datblygiadau mewn troseddau cyfundrefnol, yn arbennig felly ymddangosiad troseddau seiber, ein bod angen parhau i wella galluoedd yr NCA a'r heddlu. Darparwyr cyllid i'r diben hwn, o fewn Cymru a Lloegr. Rydym eisiau gweld llawer mwy o allu i rannu rhwng rhwydweithiau unigol yr heddlu sy'n delio â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd hyn yn gwella'n gwaith yn y ddau faes.

1.14 Byddwn yn addasu deddfwriaeth bresennol i geisio creu grymoedd newydd i gipio asedau troseddol. Byddwn hefyd yn cymryd mesurau i wella'n gallu i daclo pobl sy'n cefnogi ac elwa o gymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol. Byddwn yn deddfu i ddelio â'r her o gaethwasiaeth modern.

1.15 Byddwn yn ailstrwythuro ein rhwydwaith brwydro troseddau tramor i ddelio â'r holl fathau o droseddau sydd nawr yn gyfrifoldeb i'r NCA, gan gynnwys camfanteisio rhywiol ar blant a seiber. Trwy ymestyn y rhaglen Nexus, byddwn yn cynyddu'r amhariad ar y swm sylweddol o droseddau cyfundrefnol a gyflawnir gan wladolion tramor yn y wlad hon. Byddwn yn parhau i adeiladu ar allu trydydd gwledydd ble mae troseddau cyfundrefnol yn effeithio'n uniongyrchol ar ein diogelwch ni.

## ATAL

1.16 Byddwn yn creu rhaglen i stopio pobl rhag cychwyn neu barhau i gymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol. Dyma yw Atal. Mae angen ei gydlynu gydag a dysgu o'n gwaith Atal ar wrthderfysgaeth.

1.17 Byddwn yn noddi a chreu rhaglenni addysg a chyfathrebu newydd i godi ymwybyddiaeth o realiti troseddau difrifol a chyfundrefnol, y difrod mae'n achosi a'r goblygiadau ar gyfer troseddwyr a'u teuluoedd. Byddwn yn cyhoeddi hunaniaeth y rhai a geir yn euog o droseddau difrifol a chyfundrefnol a'n llwyddiannau o ran cipio eu hasedau.

1.18 Byddwn yn defnyddio'n rhaglenni presennol (yn arbennig felly'r rhaglenni ar gyfer Teuluoedd Cythryblus a Therfynu Trais Gangiau ac Ieuenctid) i atal troseddau difrifol a chyfundrefnol.

1.19 Dymunwn weld defnydd ehangach gan yr NCA ac eraill o Orchmynion Atal Troseddau Difrifol (SCPOs) a Gorchmynion Cyfyngiadau Teithio a hysbysiadau 'ymatal' i roi mwy o ataliad i bobl sydd eisoes yn cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol.

1.20 Bydd ganddynt raglen rheoli troseddwyr effeithiol i olrhain troseddwyr difrifol a chyfundrefnol i mewn i a thu hwnt i'r carchar, gan sicrhau rheolaeth effeithiol o'r bygythiad maent yn cyflwyno. Credwn y gall hyn gael effaith sylweddol ar atgwympo.

## DIOGELU

1.21 Dengys tystiolaeth y gall gwella amddiffyniad corfforol yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol atal a lleihau ei effaith yn arwyddocaol.

1.22 Mae ffiniau diogel yn allweddol i waith ar droseddau cyfundrefnol. Rydym wedi aildrefnu cyfrifoldebau ar y ffin, gyda'r Llu'r Ffiniau newydd ac Awdurdod Plismona'r Ffiniau'r NCA. Mae rhaglenni galluedd mawr ar y ffordd.

1.23 Cafwyd llwyddiant o ran torri twyll yn erbyn y sector cyhoeddus, ond rydym angen gwneud mwy. Rydym eisiau gweld mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau gorfodi'r gyfraith a lleol i ymatal y risg y gallai troseddau difrifol a chyfundrefnol elwa o waith caffael mewn awdurdodau lleol.

1.24 Mae ymatal twyll ac ymosodiadau seiber yn erbyn y sector preifat yn galw am gydweithredu rhwng y sector cyhoeddus a phreifat. Bydd Gwasanaeth Gwirio Gwrth Dwyll newydd yn Swyddfa'r Cabinet yn dod â data twyll o'r sectorau cyhoeddus a phreifat ynghyd i wella amddiffyniad yn erbyn twyllwyr hysbys. Bydd yr NCA yn rhannu gwybodaeth gyda'r sector preifat ynglŷn â datblygu bygythiadau. Rydym yn gwneud newidiadau pellach i weithdrefnau ar gyfer adrodd ar dwyll i'r gwasanaeth Gweithredu ar Dwyll. Rydym eisoes wedi cyflwyno Partneriaeth Rhannu Gwybodaeth Diogelwch Seiber (CISP) i alluogi rhannu gwybodaeth gyhoeddus/preifat ynghylch bygythiadau seiber.

1.25 Bydd yr NCA yn parhau i gynnal rhaglen addysg sylweddol i ddiogelu dioddefwyr posibl rhag camfanteisio ar blant. Rydym nawr yn gweithio ar fentrau newydd i leihau argaeledd delweddau anghyfreithlon o gam-drin plant sy'n cael eu dosbarthu ar-lein.

1.26 Mae llwgrwobrwyaeth a llygredd yn offer i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Bwriadwn gyflwyno systemau newydd i adrodd ar lygredd a bydd yr NCA yn arwain a chydlynu gwaith i ymchwilio i lygredd yn y Deyrnas Unedig. Bydd y Swyddfa Gartref nawr yn cydlynu polisi domestig yn y maes hwn.

1.27 Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol hefyd yn ddibynnol ar ladrata hunaniaeth a defnyddio hunaniaethau ffug. Rydym angen gwneud mwy i ddiogelu hunaniaethau a rhannu data am hunaniaethau anhysbys yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

## PARATOI

1.28 Er y gallwn wneud cryn dipyn i leihau'r bygythiad a'n gwendidau, bydd troseddau difrifol a chyfundrefnol yn dal i ddigwydd. Rydym angen sicrhau y gallwn ddelio â hyn a chefnogi pobl sydd wedi eu heffeithio fwyaf.

1.29 Gwelwyd gwelliannau sylweddol o ran adeiladu galluoedd cyffredinol i ymateb i argyfyngau sifil ac mae gennym raglen barhaus dda i wella gallu'r gwasanaethau brys i ryngweithredu. Er mwyn gwella'r modd mae'r Deyrnas Unedig yn ymateb i ymosodiadau seiber mawr, fe sefydlir Tîm Ymateb i Argyfyngau Cyfrifiadurol (CERT-UK) cenedlaethol newydd yn 2014.

1.30 Mae troseddau yn creu dioddefwyr a thystion. Mae cymunedau hefyd wedi eu heffeithio. Mae cefnogi cymunedau yn thema yn y strategaeth hon a gobeithiwn y bydd niwed i gymunedau yn cael ei ystyried wrth ddedfrydu pobl sy'n cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol.

1.31 Cyhoeddir Cod y Dioddefwr newydd yn hwyr yn 2013 sy'n sefydlu pa gymorth y mae gan ddioddefwyr hawl i'w chael. Rydym hefyd yn datblygu trefniadau newydd i gefnogi tystion gyda Siarter Tystion newydd a Gwasanaeth Personau a Amddiffynnir newydd i'r Deyrnas Unedig a fydd yn trawsnewid trefniadau diogelu tystion presennol.

## Casgliadau

1.32 Bwriad y strategaeth hon yw delio â bygythiad i'n diogelwch cenedlaethol. Mae'n gymhleth a phellgyrhaeddol. Mae nifer o asiantaethau ac adrannau (sefydlir y rolau a chyfrifoldebau yn Atodiad B) ynghlwm ar y cyd ag ac mewn wrth gefnogi'r NCA a'r heddlu. Bwriadwn olrhain gweithrediad y strategaeth hon yn agos iawn: byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cynnydd.

# Cyflwyniad

2.1 Nododd Strategaeth Ddiogelwch Genedlaethol 2010[1] droseddau cyfundrefnol ac, yn benodol, droseddau seiber ar raddfa fawr, fel risgiau difrifol i'n diogelwch cenedlaethol. Datganodd yr Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol (a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Strategaeth Ddiogelwch Genedlaethol) fod delio â'r grwpiau troseddau cyfundrefnol mwyaf niweidiol sy'n effeithio ar y Deyrnas Unedig yn ofyniad diogelwch cenedlaethol[2]. Mae Gofyniad Plismona Strategaethol yr Ysgrifennydd Cartref[3] yn rhestru troseddau cyfundrefnol a throseddau seiber fel bygythiadau cenedlaethol y mae'n rhaid i brif gwnstabliaid a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu fynd i'r afael â nhw.

2.2 Cyhoeddir y strategaeth hon i ddelio â throseddau difrifol a chyfundrefnol i gyd-fynd â chreu'r NCA. Mae'n adlewyrchu newidiadau arwyddocaol mewn troseddau cyfundrefnol, yr hyn rydym wedi dysgu o waith hyd yn hyn (a'n profiad diweddar o wrthderfysgaeth) a galluoedd, rolau a chyfrifoldebau newydd sefydliadau sy'n gweithio ar y bygythiad hwn. Mae'r strategaeth hon hefyd yn cyflwyno'n hymateb i droseddau difrifol, nad ydynt yn 'gyfundrefnol' ar bob achlysur, ond sy'n galw am ymateb cenedlaethol, yn arbennig sawl agwedd o dwyll a chamfanteisio rhywiol ar blant. Ein nod yw lleihau'r lefel o droseddau difrifol a chyfundrefnol sy'n effeithio ar y Deyrnas Unedig a'i buddiannau yn sylweddol.

2.3 Er bod diogelwch cenedlaethol yn fater a gedwir, mae materion troseddau a phlismona wedi eu datganoli ac yn gyfrifoldeb i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Bwriadwn barhau i gydweithredu'n agos gyda'r holl weinyddiaethau datganoledig yn erbyn troseddau cyfundrefnol. Credwn fod gweithrediad y strategaeth hon yn cyd-fynd â'r ymagwedd i droseddau cyfundrefnol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon[4]. Parthed cymhwyster deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae troseddau cyfundrefnol y phlismona yn bynciau nad ydynt wedi eu datganoli. Fodd bynnag, mae iechyd, addysg a llywodraeth leol yn faterion sydd wedi eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau cydweithrediad agos gyda Llywodraeth Cymru wrth weithredu agweddau o'r strategaeth ble ceir cyd-ddibyniaeth rhwng elfennau datganoledig a heb eu datganoli.

2.4 Mae'r strategaeth hon yn gynnyrch ymgynghori helaeth gyda gorfodi'r gyfraith, yr asiantaethau gwybodaeth, awdurdodau lleol, y sector preifat ac academia.

1 Llywodraeth EM (2010) A Strong Britain in an Age of Uncertainty: The National Security Strategy https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/61936/national-security-strategy.pdf

2 Llywodraeth EM (2010) *Securing Britain in an Age of Uncertainty: The Strategic Defence and Security Review* https://www.gov.uk/government/publications/the-strategic-defence-and-security-review-securing-britain-in-an-age-of-uncertainty

3 Llywodraeth EM (2012) Strategic Policing Requirement https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/117445/strategic-policing-requirement.pdf. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn grymuso a galluogi comisiynwyr yr heddlu a throseddu i ddal eu prif gwnstabl yn atebol am gyfanrwydd eu plismona – yn lleol a chenedlaethol

4 Llywodraeth yr Alban (2009) – *Letting Our Communities Flourish* http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/274127/0081989.pdf; Gogledd Iwerddon – Tasglu Troseddu Cyfundrefnol (2011) *Northern Ireland Organised Crime Strategy Ionawr 2012* http://www.dojni.gov.uk/index/media-centre/northern-ireland-organised-crime-strategy-.pdf

## Nodweddion troseddau difrifol a chyfundrefnol

2.5 Nid oes diffiniad cyfreithlon o droseddau cyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr. I ddibenion y strategaeth hon, mae troseddau cyfundrefnol yn droseddau difrifol a gynlluniwyd, gydlynwyd ac a gyflawnwyd gan bobl yn gweithio gyda'i gilydd yn barhaus. Yn aml, ond nid bob tro, maent wedi eu hysgogi gan enillion ariannol.

2.6 Nodwedd o droseddau cyfundrefnol yw trais neu'r bygythiad o drais, a'r defnydd o lwgrwobrwyaeth a llygredd: yn aml iawn mae troseddwyr cyfundrefnol yn ddibynnol ar gymorth gweithwyr proffesiynol llwgr, cyfrannog neu esgeulus, yn arbennig felly gyfreithwyr, cyfrifwyr a bancwyr. Mae troseddau cyfundrefnol hefyd yn defnyddio technoleg soffistigedig i gyflawni gweithrediadau, cynnal diogelwch ac osgoi cyfiawnder.

2.7 Rydym yn gwahaniaethu rhwng grwpiau troseddau cyfundrefnol a gangiau stryd trefol (sy'n destun adroddiad perthynol gan y llywodraeth[5]). Mae'r gwahaniaethau yn bennaf yn ymwneud â'r lefel o droseddolrwydd, cyfundrefn, cynllunio a rheolaeth. Ond mae yna gysylltiadau rhwng gangiau a throseddau cyfundrefnol: Gall aelodau gangiau trefol gymryd rhan mewn delio cyffuriau ar y stryd ar ran troseddwyr cyfundrefnol ac mae rhai gan rhai gangiau yn gobeithio bod yn grwpiau troseddau cyfundrefnol eu hunain hefyd. Mae meysydd ble ceir cryn dipyn o weithgaredd gangiau yn y Deyrnas Unedig yn dueddol i fod yn feysydd ble mae troseddwyr cyfundrefnol fwyaf gweithredol.

2.8 Nid yw troseddau cyfundrefnol yn y wlad hon nac eraill yn parchu ffiniau cenedlaethol na buddiannau cenedlaethol. Mae nifer o grwpiau troseddau cyfundrefnol yn y wlad hon yn cynnal cysylltiadau gyda chyfoedion tramor i gynnal eu gweithrediadau. Mae cyfran sylweddol o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn ymwneud â symud pobl, nwyddau ac arian ar draws ffiniau'r Deyrnas Unedig. Ond mae grwpiau tramor (e.e. o America Ladin, y Balcanau, Twrci a Tsieina) hefyd yn preswylio ac yn gweithredu yn y wlad hon.

Trwy ddefnydd soffistigedig o'r rhyngrwyd, gall troseddwyr seiber gyflawni troseddau yn erbyn busnesau, dinasyddion a llywodraeth y Deyrnas Unedig o unrhyw ran o'r byd.

2.9 Bydd grwpiau troseddau cyfundrefnol yn parhau i fanteisio ar feysydd o ansefydlogrwydd a gwrthdaro byd eang. Byddant yn gallu gweithredu'n fyd eang mewn gofodau heb eu llywodraethu a heb eu rheoleiddio'n dda, yn aml yn manteisio ar wahaniaethau rhwng awdurdodaethau a'r llygredd ynddynt. Byddant yn tanseilio cyflyrau, cymdeithasau a llywodraethau bregus.

2.10 Mae pob un o'r agweddau hyn o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn hysbysu'n ymateb ac wedi eu hadlewyrchu yn y rhaglen a amlinellir yma.

## Graddfa ac effaith troseddau difrifol a chyfundrefnol

2.11 Amcangyfrifa asiantaethau gorfodi'r gyfraith fod yna oddeutu 5,500 o grwpiau troseddau cyfundrefnol yn gweithredu yn erbyn y Deyrnas Unedig, yn cwmpasu oddeutu 37,000 o bobl[6]. Mae eu gweithgaredd troseddol wedi ei ganolbwyntio yn, ond heb ei gyfyngu i, Lundain a'r De-ddwyrain, y Gogledd-orllewin a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

2.12 Mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn gyfrifol am: Fasnachu mewn cyffuriau, pobl a drylliau, mewnfudo anghyfreithlon cyfundrefnol, twyll ar raddfa a maint sylweddol a throseddau ariannol eraill, nwyddau ffug (gan gynnwys meddyginiaethau), troseddau caffaelgar cyfundrefnol a throseddau seiber.

2.13 Yn ôl astudiaeth gan y Swyddfa Gartref, a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r strategaeth hon, mae costau cymdeithasol ac economaidd troseddau cyfundrefnol yn y wlad hon yn £24 biliwn neu fwy[7]. Roedd yna ychydig dan 1,500


---

[5] Y Swyddfa Gartref (2011) *Ending Gang and Youth Violence* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97861/gang-violence-summary.pdf

[6] Yn tarddu o broses a arweinid gan orfodi'r gyfraith a elwir yn Mapio Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol

[7] Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the scale and the social and economic costs* *https://www.gov.uk/government/publications/understanding-organised-crime-estimating-the-scale-and-the-social-and-economic-costs*

## Cost Troseddau Cyfundrefnol




Mae'r darlun hwn yn dangos amcangyfrif o'r costau cymdeithasol ac economaidd o wahanol fathau o droseddau cyfundrefn
Er bod costau'n amrywio ar draws y gwahanol fathau o droseddau, golyga'r amrywiaethau yn sut y cyfrifwyd yr amrywiol amcangyfrifon na ellir eu cymharu'n uniongyrchol.

o farwolaethau yn ymwneud â chyffuriau yng Nghymru a Lloegr yn 2012[8].

2.14 Gall grwpiau troseddol ddychrynu a llygru ac amddifadu rhai pobl o'u diogelwch, ffyniant a hyd yn oed hunaniaeth. Gallant hefyd gael effaith niweidiol ar sylwedd a chyfanrwydd cymunedau Gall cam-drin a chamfanteisio ar blant gael effaith gydol oes a dinistriol ar ddioddefwyr.

2.15 Gall troseddau seiber danseilio hyder yng nghyfanrwydd ein technolegau cyfathrebu ac yn y systemau sensitif sy'n allweddol i lywodraethu a'n heconomi. Mae troseddau mewnfudo cyfundrefnol yn herio diogelwch ein ffiniau, ac mae masnachu mewn pobl yn cyfateb i ffurf o gaethwasiaeth modern. Gall troseddau ariannol danseilio cywirdeb ein marchnadoedd a sefydliadau ariannol. Amcangyfrifir fod ymosodiadau troseddau cyfundrefnol ar systemau treth a thollau'r Deyrnas Unedig yn costio £5 biliwn y flwyddyn i'r Trysorlys.

2.16 Amcangyfrifa Swyddfa'r Cenhedloedd unedig ar gyfer Cyffuriau a throseddau (UNODC) fod y trosiant blynyddol o grwpiau a rhwydweithiau troseddau cyfundrefnol yn $870 biliwn[9]. Mae'r mwyaf arwyddocaol a soffistigedig o'r rhwydweithiau hyn nawr yn gweithredu mewn dull a oedd yn faes unigryw i wladwriaethau neu gorfforaethau mawr. Mae ganddynt fynediad at gyfoeth anghyfreithlon enfawr, yn recriwtio personél arbenigol ac yn ceisio arfer grym masnachol a gwleidyddol gwladwriaethol.

2.17 Gall troseddau difrifol a chyfundrefnol effeithio ar sefydlogrwydd llywodraethu gwledydd sydd o bwys strategol i'n diogelwch cenedlaethol, gan gynnwys ein Tiriogaethau Tramor. Mae masnachu mewn cyffuriau ac arfau yn tanseilio rheolaeth cyfraith. Mae llwgrwobrwyaeth a llygredd yn niweidio gwneud penderfyniadau effeithiol. Gall troseddau seiber byd eang

8 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) *Deaths related to drug poisoning in England and Wales*, www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_320841.pdf

9 Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau (UNODC) (2011) *Estimating Illicit Financial Flows Resulting from Drug Trafficking and other Transnational Organised Crimes* www.unodc.org/documents/data-and-analysis/Studies/Illicit_financial_flows_2011_web.pdf

danseilio ac amharu ar systemau ar-lein sy'n allweddol i economi a ffyniant y Deyrnas Unedig.

2.18 Mewn rhai achosion, mae troseddau cyfundrefnol yn cymryd rhan mewn neu'n hwyluso gweithgaredd derfysgol yn anuniongyrchol: mae tua 50% o'r grwpiau masnachu cyffuriau rhyngwladol sydd o ddiddordeb i Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau yn gysylltiedig â sefydliadau terfysgol[10].

2.19 Fel y Deyrnas Unedig, mae gwledydd eraill (megis yr Unol Daleithiau ac Awstralia[11]) o'r farn fod troseddau cyfundrefnol yn cyflwyno risg i'w diogelwch cenedlaethol.

## Mathau o droseddau cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig

2.20 Mae'r adran hon o'n strategaeth yn darparu trosolwg rhagarweiniol byr o'r prif weithgareddau troseddau cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig ac yn nodi ei gostau a chanlyniadau: o'r ymgynghoriad a ragflaenodd y strategaeth hon, roedd yn amlwg nad oedd pawb wedi deall cwmpas troseddau cyfundrefnol.

2.21 Mae dros hanner y grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n gweithredu yn erbyn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â throseddau cyffuriau; mae cyfran arwyddocaol hefyd yn ymwneud â throseddau treisgar[12]. Er bod defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn gostwng[13] mae marchnad gyffuriau anghyfreithlon y Deyrnas Unedig, a reolir gan droseddwyr cyfundrefnol, yn dal i fod gwerth £3.7 biliwn y flwyddyn[14] ac fe arweiniodd at dros 2,000 o farwolaethau yn ymwneud â chyffuriau yn 2012[15]. Amcangyfrifir fod costau cymdeithasol ac economaidd cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig werth £10.7 biliwn y flwyddyn[16].

## Cyffuriau anghyfreithlon



2.22 Mae cyffuriau anghyfreithlon yn achosi niwed difrifol i gymunedau'r Deyrnas Unedig trwy drais yn gysylltiedig â chyffuriau, troseddau caffaelgar a throseddau cyllyll a drylliau. Mae rhwng traean a hanner yr holl droseddau caffaelgar yn gysylltiedig â chyffuriau.

2.23 Amcangyfrifwn fod rhwng 18 tunnell a 23 tunnell o heroin a 25 tunnell a 30 tunnell o gocên

10 Llywodraeth UDA (2011) *Strategy to Combat Transnational Organized Crime* http://www.whitehouse.gov/sites/default/files/Strategy_to_Combat_Transnational_Organized_Crime_Gorffennaf_2011.pdf

11 Llywodraeth Awstralia (2013) *National Security Strategy;* yn rhestru troseddu cyfundrefnol difrifol fel un o saith risg diogelwch cenedlaethol allweddol http://www.dpmc.gov.au/national_security/docs/national_security_strategy.pdf

12 Data Mapio Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol

13 Y Swyddfa Gartref (2013) *Drug Misuse: Findings from the 2012/13 Crime Survey for England and Wales* www.gov.uk/government/publications/drug-misuse-findings-from-the-2012-to-2013-csew

14 Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the scale and the social and economic costs* https://www.gov.uk/government/publications/understanding-organised-crime-estimating-the-scale-and-the-social-and-economic-costs

15 Dadansoddiad Manwl: Cymru a Lloegr – 1,469 o farwolaethau: Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) *Deaths related to drug poisoning in England and Wales, 2012* http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_320841.pdf, Yr Alban – 581 o farwolaethau: Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (2013) *Drug-related deaths in Scotland in 2012* http://www.gro-scotland.gov.uk/files2/stats/drug-related-deaths/2012/drugs-related-deaths-2012.pdf, Gogledd Iwerddon – 75 o farwolaethau: Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (2013) *Alcohol and Drug Deaths* http://www.nisra.gov.uk/demography/default.asp30.htm

16 Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the scale and the social and economic costs.* Mae hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â throseddu caffaelgar yn ymwneud â chyffuriau yn ogystal â gofal iechyd. https://www.gov.uk/government/publications/understanding-organised-crime-estimating-the-scale-and-the-social-and-economic-costs

yn cael eu mewnforio'n flynyddol i'r Deyrnas Unedig[17].

2.24 Mae 95% o'r heroin ar strydoedd y Deyrnas Unedig yn tarddu o Affganistan. Yn aml mae gan grwpiau troseddau cyfundrefnol sydd wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig ac sy'n ymwneud â masnachu, a dosbarthu, heroin yn y Deyrnas Unedig gysylltiau ethnig a theuluol agos gyda De Asia. Mae grwpiau Twrcaidd wedi bod yn bwysig erioed; bellach mae rhwydweithiau troseddau cyfundrefnol Balcanaidd yn llawer mwy amlwg.

2.25 Daw cocên a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig o Beriw, Colombia a Bolifia. Mae'r rhan fwyaf yn croesi'r Iwerydd mewn cludiant amlwythiant, er bod rhywfaint yn cael ei guddio mewn cargo cyffredinol, cychod hwylio a llongau. Mae Gorllewin Affrica wedi dod yn rhanbarth croesiad arwyddocaol ar gyfer cocên ar ei ffordd i farchnadoedd Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, ynghyd â'r Caribî, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a'r Penrhyn Iberaidd. Mae troseddwyr cyfundrefnol Prydeinig yn dominyddu ym maes cyflenwi a dosbarthu cocên yn y Deyrnas Unedig.

2.26 Canabis yw'r cyffur anghyfreithlon mwyaf cyffredin ei ddefnydd yn y Deyrnas Unedig o hyd, ac mae'n farchnad ffyniannus fawr i droseddwyr cyfundrefnol. Er bod y rhan fwyaf o'r canabis yn y Deyrnas Unedig wedi ei fewnforio, cynhyrchir dros 90 tunnell o ganabis 'sgỳnc' yn y Deyrnas Unedig pob blwyddyn. Defnyddia troseddwyr yr incwm a grëir o fasnachu canabis i ariannu amrywiaeth o weithgareddau troseddol eraill, gan gynnwys prynu heroin a chocên.

2.27 Mae marchnad gyffuriau'r Deyrnas Unedig yn arallgyfeirio gyda chynnydd yn y nifer o sylweddau seicoweithredol newydd (NPS) yn cael eu mewnforio'n bennaf o Tsieina ac India. Y mwyaf cyffredin yw meffedron.

2.28 Fel mathau eraill o droseddau, mae cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon yn symud i wefannau er mwyn osgoi camau i orfodi'r gyfraith. Ar hyn o bryd, fe ymddengys nad oes llawer o ddefnydd o'r rhyngrwyd i brynu cyffuriau, ond mae ymateb i'r her debygol yn y dyfodol o gyffuriau ar-lein yn nodwedd o'r strategaeth hon.

### Drylliau anghyfreithlon



2.29 Mae troseddau yn ymwneud â defnyddio dryll yn gyfrifol am gyfran fechan (tua 0.2%) o'r holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, a chafwyd dirywiad yn y nifer o droseddau a gofnodwyd yn ymwneud â drylliau am wyth mlynedd yn olynol[18]. Mae data o'r Alban yn debyg[19]. Mae llofruddiaethau yn ymwneud â drylliau yn gymharol isel o gymharu â gwledydd tebyg[20].

2.30 Cyflawnir y rhan fwyaf o ddigwyddiadau saethu sy'n gysylltiedig â throseddau yn y Deyrnas Unedig gan gangiau stryd trefol, yn aml mewn cysylltiad â lladradau arfog a dosbarthu cyffuriau. Ond mae gan grwpiau troseddau cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig fynediad parod i ddrylliau anghyfreithlon, pan fydd angen. Awgryma cudd-wybodaeth a gwybodaeth falistig fod masnachu mewn a llogi arfau anghyfreithlon yn gyffredin, a bod drylliau unigol wedi eu defnyddio gan wahanol grwpiau troseddol mewn gwahanol rannau o'r wlad.

2.31 Mae'r rhan fwyaf o ddrylliau anghyfreithlon a ddefnyddir gan droseddwyr yn y Deyrnas

17 SOCA – www.soca.gov.uk/threats/drugs

18 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) *Focus on Violent Crime and Sexual Offences 2011/12* http://www.ons.gov.uk/ons/rel/crime-stats/crime-statistics/focus-on-violent-crime/stb-focus-on--violent-crime-and-sexual-offences-2011-12.html

19 Troseddau cofnodedig yn ymwneud â drylliau, Yr Alban, 2011-12 – data Rhagfyr 2012

20 Yn seiliedig ar gymariaethau'r Swyddfa Gartref o gyfraddau llofruddiaeth, ble mae gan Gymru a Lloegr gyfradd o 1 fesul 100,000 ac UDA 6 fesul 100,000

Unedig yn ddrylliau llaw i ddibenion angheuol a fewnforir yn anghyfreithlon o'r Unol Daleithiau ac Ewrop. Bydd drylliau, eu rhannau a bwledi yn aml hefyd yn dod o amrywiaeth o ffynonellau cyfreithlon o fewn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y fyddin, ffeiriau drylliau/henebion a gwerthwyr drylliau cofrestredig.

2.32 Mae drylliau wedi eu hailgychwyn a throsi yn gyffredin. Mae rhai'n cael eu trosi dramor cyn cael eu masnachu i'r Deyrnas Unedig (megis drylliau llaw Baikal a drosir y Lithiwania). Mae eraill yn cael eu trosi yma.

2.33 Gellir nawr prynu drylliau, eu cydrannau a bwledi ar-lein, fel cyffuriau.

### Twyll a throseddau ariannol



2.34 Amcangyfrifir fod twyll yn costio £50 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig ac mae o leiaf £8.9 biliwn o hyn o ganlyniad i droseddau cyfundrefnol[21]. Cyflawnir twyll yn erbyn unigolion, y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r wladwriaeth. Hyd yn hyn, rydym wedi nodi bron i 1,400 o grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n cyflawni troseddau economaidd; mae nifer yn ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol eraill.

2.35 Mae troseddwyr cyfundrefnol yn cyflawni twyll yswiriant a morgais a thwyll yn erbyn y system fancio byd eang. Maent yn ymwneud â throseddau eiddo deallusol, yn cynnwys cyflenwi meddyginiaethau ffug a nwyddau trydanol. Credwn fod nifer fechan o grwpiau troseddau cyfundrefnol hefyd yn ymwneud â chamddefnyddio'r farchnad yn y wlad hon.

2.36 Mae troseddau cyfundrefnol hefyd yn ceisio twyllo'r cyhoedd yn uniongyrchol. Mae twyll tocynnau a marchnata torfol yn gyffredin; mae yna fygythiad cynyddol o dwyll rhyddhau pensiynau ble mae pobl yn cael eu twyllo i gyfnewid eu pensiynau yn gynnar, weithiau i gronfa fasnachu ffug.

2.37 Yn gynyddol bydd twyll yn digwydd ar-lein. O'r achosion o dwyll a adroddwyd i Action Fraud[22] yn 2012, cyflawnwyd 40% ar-lein, gyda throseddwyr yn manteisio ar wendid gwasanaethau ar-lein a'r bobl sy'n eu defnyddio. Mae troseddau seiber yn caniatáu troseddu ar raddfa arwyddocaol: gall un e-bost 'gwe-rwydo' (e-bost ble mae'r anfonwr yn honni i fod yn endid dibynadwy er mwyn casglu manylion ariannol neu eraill) dargedu nifer fawr o bobl, yn aml gan droseddwyr wedi eu lleoli naill ai dramor neu'n defnyddio seilwaith TG mewn gwlad dramor.

2.38 Mae twyll yn erbyn y sector cyhoeddus yn costio tua £20 biliwn y flwyddyn, gyda'r mwyafrif o hyn yn erbyn y system dreth. Yr amcangyfrifon diweddaraf yw bod tua £5 biliwn o 'fwlch treth' blynyddol y Deyrnas Unedig (y bwlch rhwng y dreth sy'n ddyledus a'r dreth a gesglir) o

---

21 Yr Awdurdod Atal Twyll Cenedlaethol(2013) *Annual Fraud Indicator* www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/206552/nfa-annual-fraud-indicator-2013.pdf

22 Action Fraud yw canolfan adrodd ar dwyll a throseddau rhyngrwyd genedlaethol y Deyrnas Unedig; mae'n darparu pwynt canolog ar gyfer gwybodaeth am dwyll a throseddau rhyngrwyd a ysgogir gan arian. www.actionfraud.police.uk/

ganlyniad i droseddau cyfundrefnol[23]. Mae twyll TAW sy'n gysylltiedig â thybaco ac alcohol wedi dod yn fwy soffistigedig ac amlwladol ac yn aml wedi ei weithredu ar y we. Mae twyll masnachwr coll rhyng-gymunedol (MTIC) yn ymwneud â masnachu cymhleth mewn amrywiaeth o nwyddau i osgoi TAW neu i wneud hawliadau ad-daliadau twyllodrus. Mae rhai twyllwyr MTIC yn dechrau delio mewn nwyddau bach ond gwerthfawr (megis offer electronig), ac yna'n symud i nwyddau 'anniriaethol', gan gynnwys credydau carbon.

### Gwyngalchu arian

2.39 Nod y rhan fwyaf o droseddau cyfundrefnol yw gwneud arian y mae'n rhaid ei symud ac yna'i wyngalchu i guddio ei darddiad. Gan ei fod yn gudd, ac yn aml yn gymhleth, mae'n anodd asesu graddfa'r arian a wyngalchir i'r wlad hon a thrwyddi. Ond fe amcangyfrifodd yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) fod dros £1 biliwn y flwyddyn yn cael ei wyngalchu trwy fusnesau gwasanaethau ariannol (MSBs) a systemau trosglwyddo gwerth anffurfiol[24] yn unig.

2.40 Yn aml bydd elw anghyfreithlon yn cael ei wyngalchu trwy fusnes llawn arian agored, sy'n aml yn gweithredu ar y stryd fawr ac yn aml yn cynnwys bariau trin ewinedd, eiddo bwyd a thrwyddedig, cwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau diogelwch, cwmnïau tacsis a golchi ceir. Mae'n bosibl fod yr allfeydd hyn yn cael eu rhedeg gan grwpiau troseddol o'r wlad hon neu dramor. Weithiau bydd arian yn cael ei drosglwyddo tu allan i'r Deyrnas Unedig yn defnyddio nid yn unig MSBs, ond hefyd gwmnïau ffug a gwasanaethau alltraeth.

2.41 Mae gweithwyr proffesiynol cyfrannog, esgeulus neu heb yn wybod yn y proffesiynau ariannol, cyfrifo a chyfreithiol yn y Deyrnas Unedig yn hwyluso gwyngalchu arian ar ran troseddwyr cyfundrefnol. Mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig hefyd yn defnyddio arbenigwyr gwyngalchu arian, sy'n rheoli gwyngalchu ar gyfer nifer o fentrau troseddol ar draws amrywiol weithgareddau anghyfreithlon.

### Camfanteisio rhywiol ar blant




2.42 Yn 2012/13 diogelwyd neu gwarchodwyd bron i 800 o blant o ganlyniad i weithgareddau'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein [25] (CEOP); nododd Swyddfa'r Comisiynydd Plant 2,409 o ddioddefwyr camfanteisio rhywiol ar blant gan gangiau a grwpiau[26]. Dynododd ymchwil gan yr NSPCC fod tua 5% o blant yn y Deyrnas Unedig yn dioddef camdriniaeth cyswllt rhywiol ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod[27]. Ond mae'r rhan fwyaf o feysydd camfanteisio rhywiol ar blant a cham-drin plant yn dioddef o ddiffyg adrodd gan ddioddefwyr ac adrodd anghyson yn aml yn y broses gyfiawnder troseddol: mae'n anodd nodi maint troseddu yn

23 Cyllid a Thollau EM (2012) Delivering our Vision: Business Plan 2012-15 www.hmrc.gov.uk/about/2012-business-plan.pdf

24 Mae systemau trosglwyddo gwerth anffurfiol yn seiliedig ar rwydwaith fyd eang o fancwyr anghofrestredig ac 'anffurfiol' yn aml, fel arfer yn gwasanaethu cymunedau a busnesau ethnig neu alltud. Enghraifft o hyn yw 'hawala'. Maent yn bodoli i ddibenion taliadau cyfreithlon a diwylliannol, ond gall troseddwyr cyfundrefnol fanteisio arnynt i hwyluso gwyngalchu arian.

25 Radford, L., Corral, S., Bradley, C., Fisher, H., Bassett, C., Howat, N. a Collishaw, S. (2011) Child abuse and neglect in the UK today. www.nspcc.org.uk/Inform/research/findings/child_abuse_neglect_research_PDF_wdf84181.pdf

26 CEOP Annual Review 2012-2013 & Centre Plan 2013-2014 http://www.ceop.police.uk/Documents/ceopdocs/AnnualReviewCentrePlan2013.pdf

27 Ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Plant i Gamfanteisio Rhywiol ar Blant mewn Gangiau a Grwpiau. Berlowitz, S., Firmin, C., Edwards, G., Gulyurtlu, S. (2012) *I thought I was the only one. The only one in the world*: Adroddiad Dros Dro www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_636

y Deyrnas Unedig yn gywir a'r poblogaethau o ddioddefwyr.


2.43 Mae cam-drin a chamfanteisio rhywiol o blant yn dal i fod yn drosedd unigol yn bennaf a, ble mae troseddu mewn grŵp yn digwydd, ychydig iawn o'r nodweddion sydd fel arfer yn gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol. Fodd bynnag, mae'r troseddu yn aml yn ddifrifol a chymhleth iawn. Mae'r rhan fwyaf o droseddwyr camfanteisio rhywiol a cham-drin plant wedi eu hysgogi gan foddhad rhywiol gyda nifer llawer llai wedi eu hysgogi gan enillion ariannol neu arall.

2.44 Yn aml mae cam-drin plant yn weithgaredd ar-lein ac amlwladol yn defnyddio technoleg a thechnegau soffistigedig i osgoi sylw awdurdodau gorfodi'r gyfraith. Mae'r rhyngrwyd (yn cynnwys yr hyn y elwir yn 'ryngrwyd cudd' sy'n hwyluso naws o gymuned 'ddiogel' o droseddwyr) yn hwyluso ymlediad delweddau anweddus o blant. Mae gwaith i daclo hyn rhwng llywodraeth, awdurdodau gorfodi'r gyfraith a'r diwydiant yn rhan bwysig o'r strategaeth hon.

### Troseddau mewnfudo cyfundrefnol a masnachu mewn pobl

2.45 Mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn ymwneud â smyglo pobl i'r wlad yma, mewn cam-drin y dulliau mynediad (e.e. priodas), ac mewn masnachu mewn pobl (symud pobl er elw, gan gynnwys camfanteisio rhywiol, llafur gorfodol, camfanteisio troseddol a chaethwasiaeth domestig). Bydd y rhan fwyaf o ymfudwyr anghyfreithlon yn ddibynnol ar wasanaethau grwpiau troseddu cyfundrefnol ar ryw adeg yn eu taith neu yn ystod eu cyfnod yn y Deyrnas Unedig.

2.46 Mae gwir raddfa masnachu mewn pobl yn anhysbys. Mae'n drosedd sydd yn bennaf wedi ei guddio o lygad y cyhoedd. Yn 2012, cyfeiriwyd 1,186 o ddioddefwyr posibl masnachu mewn pobl i'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol



(NRM)[28], cynnydd o 25% ar 2011. Y gwledydd tarddiad mwyaf cyffredin ar gyfer dioddefwyr posibl a gyfeiriwyd yn 2012 yn yr NRM oedd Nigeria, Fietnam, Albania, Rwmania a Tsieina. Awgryma adrodd presennol fod Nigeria ac Albania yn ardaloedd o fygythiad allweddol ar gyfer camfanteisio rhywiol; Gwlad Pwyl, Rwmania a gwledydd eraill canol/dwyrain Ewrop ar gyfer camfanteisio ar gyfer llafur a Fietnam ar gyfer masnachu mewn plant. Nodwyd nifer o achosion yn ymwneud â dioddefwyr sy'n blant o Fietnam yn gweithio mewn ffatrïoedd canabis.

2.47 Yn aml bydd pobl yn cael eu twyllo i sefyllfa masnachu trwy addewidion gwag o fywyd gwell neu gynnig o waith. Mae eraill yn cael eu gwerthu i'w masnachwyr, weithiau gan aelodau o'u teulu. Mae caethiwed dyled yn dacteg a ddefnyddir gan grwpiau troseddau cyfundrefnol i gadw rheolaeth o ddioddefwyr masnachu.

2.48 Amcangyfrifwn fod y costau cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â throseddau mewnfudo cyfundrefnol a masnachu mewn pobl *hysbys* ychydig dros £1 biliwn[29]. Mae'r gwir gostau yn debygol o fod yn llawer mwy.

2.49 Mae rhai troseddwyr yn ymwneud â throseddu mewnfudo yn unig, tra bod eraill yn rhan o rwydweithiau byd eang helaeth. Mae'r grwpiau troseddol mwyaf soffistigedig yn cynnig pecynnau hwyluso cyflawn yn cynnwys llety, cludiant a dogfennau ffug. Mae cydweithio rhwng grwpiau troseddau mewnfudo yn gyffredin.

## Troseddau caffaelgar cyfundrefnol

2.50 Grymoedd y farchnad sy'n llunio troseddau cyfundrefnol; mae grwpiau yn symud eu ffocws o un nwydd i'r llall mewn ymateb i gyflenwad a galw. Mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig wedi bod yn cymryd rhan mewn lladrad metel (wrth i bris metel codi) ac mewn lladrad, cludiant a dosbarthiad o nwyddau gwerth uchel a henebion megis jâd Tsieineaidd a chyrn rhinoseros. Mae troseddwyr cyfundrefnol yn targedu ffonau clyfar yn gynyddol.

2.51 Mae troseddau cerbydau yn y Deyrnas Unedig wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf ond amcangyfrifir bod gwerth y cerbydau sy'n cael eu dwyn gan droseddwyr cyfundrefnol yn dal i fod o leiaf £330 miliwn y flwyddyn. Credwn fod costau cymdeithasol ac economaidd y troseddolrwydd hwn i'r Deyrnas Unedig yn o leiaf £920 miliwn y flwyddyn[30].

2.52 Awgryma ymchwil diweddar gan y Swyddfa Gartref fod graddfa a chostau cymdeithasol ac economaidd lladrata offer adeiladu ac amaethyddol a byrgleriaeth drwy dynnu sylw (fel arfer yn targedu pobl fregus) nawr yn sylweddol uwch na dwyn arian a phethau gwerthfawr ar daith[31], mathau traddodiadol o droseddau cyfundrefnol.

## Troseddau seiber

2.53 Yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd ehangiad buan yn natblygiad a mabwysiadu technolegau cyfathrebu newydd sy'n dal i drawsnewid llywodraeth, busnes a'r modd yr ydym yn rhyngweithio â'n gilydd. Mae gan oddeutu 80% o gartrefi yn y Deyrnas Unedig bellach fynediad i'r rhyngrwyd; mae gan 40% o oedolion ffôn clyfar; ac mae cyfrifon gwariant masnachu ar-lein yn cyfateb i tua 10% o gyfanswm gwariant masnachol y mis ym Mhrydain Fawr[32]

[28] Mae'r NRM yn rhan o Ganolfan Fasnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig (UKHTC) ac yn nodi a hwyluso cymorth i ddioddefwyr masnachu mewn pobl

[29] Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the scale and the social and economic costs* https://www.gov.uk/government/publications/understanding-organised-crime-estimating-the-scale-and-the-social-and-economic-costs

[30] Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the scale and the social and economic costs* https://www.gov.uk/government/publications/understanding-organised-crime-estimating-the-scale-and-the-social-and-economic-costs

[31] Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the scale and the social and economic costs* https://www.gov.uk/government/publications/understanding-organised-crime-estimating-the-scale-and-the-social-and-economic-costs

[32] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Gorffennaf 2013), Gwerthiant Masnachol Ar-lein www.ons.gov.uk/ons/rel/rsi/retail-sales/july-2013/stb-rsi-july-2013.html#tab-Internet-Sales




2.54 Mae troseddau seiber yn disgrifio dau weithgaredd penodol, ond cysylltiedig iawn: troseddau sy'n ddibynnol ar y we, a throseddau sydd wedi eu galluogi gan y we. Yn y strategaeth hon, defnyddiwn 'troseddau seiber' wrth gyfeirio at y ddau fath: fel arall byddwn yn gwahaniaethu rhyngddynt.

- Dim ond trwy ddefnyddio cyfrifiaduron, rhwydweithiau cyfrifiadurol neu fathau eraill o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y gellir cyflawni troseddau sy'n ddibynnol ar y we. Maent yn cynnwys creu a lledaenu maleiswedd i greu elw ariannol, hacio i ddwyn data personol neu ddiwydiant pwysig ac ymosodiadau atal gwasanaeth i niweidio enw da.
- Gellir cyflawni troseddau sydd wedi eu galluogi gan y we (megis twyll, prynu cyffuriau anghyfreithlon a chamfanteisio rhywiol ar blant) ar-lein neu all-lein, ond gall ar-lein ddigwydd ar raddfa a chyflymder heb ei debyg.

2.55 Mae pobl sy'n cyflawni troseddau seiber yn erbyn busnesau a chyhoedd y Deyrnas Unedig yn aml yn gweithredu o dramor, gan fanteisio ar ddefnydd uchel y Deyrnas Unedig o'r rhyngrwyd a systemau talu ar-lein, yn ogystal â deddfwriaeth wan a gweithredu i orfodi'r gyfraith mewn rhai awdurdodaethau.

2.56 Nid yw nifer o droseddwyr seiber yn gweithredu fel rhan o grŵp troseddau cyfundrefnol traddodiadol, hierarchaeth, ond trwy farchnad fyd eang ble gallant brynu a gwerthu'r offer technegol a gwasanaethau a grëwyd ar gyfer, neu gynnyrch sy'n ganlyniad i, ymosodiadau troseddau seiber[33].

2.57 Gwyddom fod bron i draean (31%) defnyddwyr rhyngrwyd sy'n oedolion wedi adrodd iddynt gael profiad o firws cyfrifiadurol yn Arolwg Troseddau 2011/12 Cymru a Lloegr[34]. Mae hyn yn ddangosydd defnyddiol o ehangder maleiswedd ond nid yw'n ddangosydd o'r lefel o droseddau sy'n ddibynnol ar y we. Nid yw'n ystyried a gafodd y dioddefwr ei dargedu'n benodol neu a gafodd y firws effaith ar ei gyfrifiadur neu a gafodd ei flocio gan feddalwedd gwrth firws. Cynyddodd y gyfran

2.58 o ddefnyddwyr rhyngrwyd sy'n oedolion a adroddodd ddefnydd anawdurdodedig o'u data personol (hacio) o 2% yn 2006-7 i 7% yn 2011-12. Canfu'r Arolwg Erledigaeth Fasnachol fod yna 180,000 o achosion o droseddau ar-lein yn erbyn y pedwar prif sector busnes yn 2012; roedd 75% o'r rhain yn ymwneud â firysau[35]. Ar droseddau a alluogir gan y we, adroddodd 3% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n oedolion iddynt 'golli arian' ar-lein yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2011/12. Adroddodd y diwydiant bancio a thaliadau, sy'n coladu data ar golledion twyll, gost a amcangyfrifwyd o dwyll wedi ei alluogi gan y we ar gyfer taliadau ble nad oedd y cerdyn yn bresennol i'r banciau o £140.2 miliwn yn 2012; yn yr un flwyddyn, amcangyfrifwyd fod twyll bancio a alluogwyd gan y we yn £39.6 miliwn[36]. Mae ffynonellau eraill hefyd yn adrodd cynnydd yn y nifer o ymosodiadau gwe-rwydo, h.y. negeseuon e-bost sy'n ceisio cael defnyddwyr i ildio gwybodaeth bersonol i ddibenion twyllo. Canfu'r Oxford Internet Institute y cafwyd cynnydd sefydlog mewn ymosodiadau gwe-rwydo a adroddwyd ymysg defnyddwyr rhyngrwyd, o 12%

---

33 Holt, T. J. (2012) Exploring the Social Organization and Structure of Stolen Data Markets, *Proceedings of the 4th Annual Illicit Networks Workshop*

34 Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2011/12


35 ONS (2012) *Commercial Victimisation Survey*" https://www.gov.uk/government/publications/crime-against-businesses-headline-findings-from-the-2012-commercial-victimisation-survey--2

36 Gwefan Financial Fraud Action (2013) http://www.financialfraudaction.org.uk/

yn 2005 i 22% yn 2011[37]. Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2010) fod 3% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y Deyrnas Unedig sy'n oedolion wedi dioddef colled ariannol wedi datgelu data personol i wefannau ffug neu negeseuon twyllodrus.

2.59 Fel y nododd Strategaeth Diogelwch Seiber y Deyrnas Unedig[38], mae'n annhebygol y byddwn yn gallu sefydlu amcangyfrif cywir o raddfa a chost troseddau seiber, ond mae'n amlwg fod y costau a'r bygythiad yn sylweddol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, mae costau troseddau seiber yn y Deyrnas Unedig yn debygol o fod o leiaf nifer o filiynau o bunnoedd y flwyddyn. Mae gweithgor allanol newydd yn cael ei sefydlu gan y Swyddfa Gartref i wella ansawdd y data; mae'r data sydd gennym yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â'r strategaeth hwn[39].

## Dosbarthiad grwpiau troseddau cyfundrefnol ar draws y Deyrnas Unedig (Mehefin 2013)*




Mae'r map hwn yn arddangos, yn ôl ardal heddlu lleol, dosbarthiad bras grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n cael eu hymchwilio ac/neu amharu gan yr heddlu ac asiantaethau eraill o Fehefin 2013. Mae'n rhoi darlun defnyddiol o raddfa a lledaeniad daearyddol grwpiau troseddau cyfundrefnol, ond nid yw'n dangos y lefel o fygythiad mae grwpiau yn eu cyflwyno o fewn ardaloedd heddlu.

* Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau heddlu a gorfodi'r gyfraith y Deyrnas Unedig, wedi ei gasglu gan yr NCA. Mae plismona yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi ei ddatganoli. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Heddlu'r Alban yn dangos dosbarthiad uwch o grwpiau troseddau cyfundrefnol yng ngorllewin y wlad wedi ei adlewyrchu ar y map uchod.

37 Dutton, W.H. a Blank, G. (2011) Arolwg Rhyngrwyd Rhydychen

38 Llywodraeth EM (2011) *The UK Cyber Security Strategy* (Tachwedd 2011): www.gov.uk/government/publications/cyber-security-strategy


39 Y Swyddfa Gartref (2013) *Cyber Crime: A Review of the Evidence:* https://www.gov.uk/government/publications/cyber-crime-a-review-of-the-evidence

# Ein Hymateb Strategol

3.1 Nod y strategaeth yw lleihau'r lefel o droseddau cyfundrefnol yn y wlad hon yn sylweddol a'r lefel o droseddau difrifol sy'n galw am ymateb cenedlaethol (yn arbennig felly twyll a chamfanteisio rhywiol ar blant). Mae'r strategaeth yn datblygu themâu ei ragflaenydd, Local to Global (2011), ond yn ystyried newidiadau mewn troseddau cyfundrefnol a'r rolau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer sefydliadau sy'n gyfrifol am ddelio â hyn.

3.2 Mae troseddau cyfundrefnol yn galw am ymateb ar draws llywodraeth a thu hwnt. Nid mater i'r heddlu a'r NCA yn unig yw hyn. Mae angen cynnwys nifer o adrannau eraill, megis awdurdodau lleol, y sector preifat a chymunedau. Mae troseddau cyfundrefnol hefyd yn galw am ymateb rhyngwladol gyda chynghreiriaid agos a sefydliadau amlochrog.

3.3 Mae'r strategaeth hon yn defnyddio fframwaith a ddatblygwyd yn gyntaf ar gyfer ein strategaeth gwrthderfysgaeth, CONTEST. Mae pedwar prif faes gweithgaredd i'r strategaeth: erlyn ac ymyrryd ar bobl sy'n cymryd rhan mewn troseddolrwydd difrifol a chyfundrefnol (Erlid); atal pobl rhag cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn (Atal); cynyddu diogeliad yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol (Diogelu); a lleihau effaith troseddau difrifol a chyfundrefnol pan fydd yn digwydd (Paratoi).



3.4 Bwriedir i gamau a gymerwn dan Erlid ac Atal leihau'r bygythiadau gelyniaethus a wynebwn. Bwriedir i gamau a gymerwn dan Diogelu a Pharatoi leihau ein gwendidau. Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn lleihau troseddau difrifol a chyfundrefnol ac yn lleihau'r risgiau a wynebwn ohonynt.

3.5 Credwn y bydd y model CONTEST yn ein galluogi i ddatblygu ymagwedd fwy cynhwysol i droseddau difrifol a chyfundrefnol nag erioed o'r blaen. Bydd gwahanu atal (a fwriedir i ddelio â throseddwyr posibl neu wirioneddol) a diogelu (a fwriedir i leihau gwendidau'r wladwriaeth, sector preifat a phobl yn y Deyrnas Unedig) yn rhoi mwy o gydlyniad i'r ddau faes gwaith. Bydd cael maes gwaith sy'n ymroddedig i baratoi neu gynllunio at raid (cynllunio ar gyfer troseddau cyfundrefnol sy'n digwydd) yn ein galluogi i ddarparu gwell cefnogaeth i ddioddefwyr ac i gymunedau a effeithiwyd gan droseddolrwydd cyfundrefnol cyson. Bydd hefyd yn helpu sicrhau fod gennym fesurau ar waith i ddelio ag ymosodiadau seiber gan grwpiau troseddol.

3.6 Bydd gweithredu'r fframwaith cynhwysfawr hwn i droseddau difrifol a chyfundrefnol mewn rhai meysydd yn wahanol iawn i'w weithrediad ar gyfer terfysgaeth. Maent yn fygythiadau gwahanol. Er enghraifft, defnyddir gwahanol dechnegau ac adnoddau wrth atal terfysgaeth nag sydd ei hangen i atal troseddau cyfundrefnol. Mae diogelu yn erbyn ymosodiad terfysgol yn her wahanol i ddiogelu yn erbyn troseddau cyfundrefnol. Ond o'i weithredu mewn gwahanol ffyrdd, bydd y fframwaith cyffredin hefyd yn ein galluogi i nodi'r nodweddion cyffredin yn ein gwaith yn erbyn troseddau cyfundrefnol a gwrthderfysgaeth ac i ddatblygu cydlyniad agosach rhwng y ddau.

3.7 Mae'r strategaeth hon yn nodi amcanion strategol ar gyfer pob un o'r pedwar prif faes gwaith ac yn darparu manylion ar raglenni ategol. Fe bennir amcanion gweithredol tactegol (e.e. grwpiau troseddau blaenoriaeth) trwy'r NCA a'r heddlu ac nid ydynt wedi eu trafod yn y strategaeth hon.

3.8 Ein prif flaenoriaethau yw'r amcanion strategol a sefydlir dan Erlid. Rydym eisiau lleihau'r bygythiad o droseddau cyfundrefnol, trwy erlyn mwy o droseddwyr ac amharu'n ddi-baid ar eu gweithgaredd troseddol. Bydd hynny'n golygu fod sefydliadau'n delio â throseddau difrifol a sefydledig yn gweithio mewn ffordd wahanol gyda gwahanol alluoedd a grymoedd newydd.

3.9 Fel CONTEST, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y gwaith hwn.

3.10 Mae Atodiad A yn esbonio proses lywodraethu'r strategaeth ac mae Atodiad B yn esbonio rolau a chyfrifoldebau'r adrannau ac asiantaethau dan sylw.

# ERLID: Erlid ac amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol

Bydd llwyddiant yn ERLID yn golygu:

- Adref, bod amharu'n barhaus ar droseddau difrifol a chyfundrefnol ac erlyn y rhai sy'n gyfrifol yn lleihau'r bygythiadau a wynebwn
- Dramor, bod gwell cydweithredu rhyngwladol gan ddefnyddio adnoddau ehangach yn fwy effeithiol yn amharu ar droseddau cyfundrefnol byd eang

Ein hamcanion fydd i:

i. Sefydlu sefydliadau cryf a chydweithredu effeithiol i arwain gwaith yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol

ii. Datblygu ein galluoedd i ganfod, ymchwilio i, erlyn ac amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol

iii. Ymosod ar gyllid troseddol trwy ei gwneud yn anoddach i symud, cuddio a defnyddio elw o droseddau.

iv. Sicrhau fod grymoedd cyfreithiol effeithiol ar gael ac y'i defnyddir i ddelio â'r bygythiad o droseddu difrifol a chyfundrefnol

v. Yn rhyngwladol, gwella'n galluoedd ein hunain a'n cydweithrediad gydag eraill i allu taclo rhwydweithiau troseddu cyfundrefnol yn well

## i. Sefydlu sefydliadau cryf a chydweithredu effeithiol i arwain gwaith yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol

4.1 Mae sicrhau fod sefydliadau effeithiol wedi eu sefydli ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac yn ffin y Deyrnas Unedig, yn gam cyntaf tuag at drawsnewid ein hymateb cyffredinol i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r adran hon yn nodi'r sefydliadau newydd sydd wedi eu sefydlu, eu rolau a chyfrifoldebau, a sut fyddant yn cydweithredu gyda'r heddlu ac adrannau eraill.

### Cenedlaethol

4.2 Bydd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) newydd, a sefydlwyd gan y Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013[40], yn arwain ein gwaith yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd yn datblygu darlun cudd-wybodaeth awdurdodol unigol o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig, gan ymgymryd â'r rôl y mae'r Gyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth (JTAC) wedi ei chyflawni'n llwyddiannus wrth ddelio â'r bygythiad

[40] Llywodraeth EM (2013) *Deddf Troseddu a'r Llysoedd* http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/22/contents/enacted

o derfysgaeth. Yna bydd yn cydlynu'r ymateb gorfodi'r gyfraith, gan sicrhau fod camau yn erbyn troseddwyr a grwpiau troseddau cyfundrefnol yn flaenoriaeth yn unol â'r bygythiad a gyflwynir ganddynt. Bydd yr NCA yn arwain rhai ymgyrchoedd ac yn cefnogi eraill. Bydd yn cydlynu'r amhariad di-baid o grwpiau troseddau cyfundrefnol mawr a'u harestio ac erlyn.

4.3 Mae llwyddiant yr NCA yn ddibynnol ar gydweithredu agos gyda'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, yn arbennig felly'r heddluoedd metropolitan mawr yng Nghymru a Lloegr (Metropolitan Police Service, West Midlands Police, Greater Manchester Police, Merseyside Police a West Yorkshire Police), Police Scotland a Police Service of Northern Ireland (PSNI), a gyda'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth. Rhaid i'r perthnasau hyn fod yn seiliedig ar rannu cudd-wybodaeth a galluoedd gweithredol i fynd ar drywydd blaenoriaethau cyffredin ac a gytunwyd. Rydym yn ystyried fod gwaith cydlynu ar wrthderfysgaeth yn fodel yn hyn o beth.

4.4 Bydd yr NCA yn cynnwys pedwar awdurdod gweithredol ar gyfer troseddau cyfundrefnol, troseddau economaidd, gwaith ffiniau a rhyngwladol, a chamfanteisio ar blant a diogelwch ar-lein. Bydd yn cynnwys Uned Troseddau Seiber Genedlaethol newydd. Bydd gan yr NCA hefyd uned i gydlynu ymchwiliadau i'r achosion llygredd mwyaf difrifol yn y Deyrnas Unedig. Yn ganolog i'r NCA fydd canolbwynt cudd-wybodaeth amlasiantaethol newydd i ddod â chudd-wybodaeth ar yr holl faterion hyn ynghyd, ac i arwain didoli a dyrannu adnoddau gweithredol.

4.5 Bydd Awdurdod troseddau Economaidd (ECC) newydd yr NCA yn gweithio ar droseddau ariannol gyda Heddlu Dinas Llundain (a fydd yn dal i fod yr heddlu arweiniol ar gyfer twyll). Bydd Heddlu Dinas Llundain yn gyfrifol am greu system pen i ben gryfach rhwng system adrodd Action Fraud a'r Swyddfa Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol (gweler 6.20).

4.6 Bydd yr ECC hefyd yn gweithio gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), sydd bellach yn amddiffyn a rheoleiddio diwydiant gwasanaethau ariannol y Deyrnas Unedig ar y cyd â Chyllid a Thollau EM (HMRC), a fydd yn dal i arwain o ran taclo twyll cyllidol.

4.7 Bydd Uned Troseddau Seiber Genedlaethol (NCCU) yr NCA yn arwain ar ymchwiliadau gorfodi'r gyfraith troseddau seiber fel y'i diffiniwyd yn y cyflwyniad i'r strategaeth hon (gweler 2.54). Bydd yn ceisio nodi ac erlyn pobl sy'n cymryd rhan mewn ymosodiadau seiber yn y wlad hon. Bydd hefyd yn cefnogi ymchwiliadau i droseddau sydd wedi eu galluogi gan y we, gan ddarparu cefnogaeth dechnegol ble fo hynny'n angenrheidiol.

4.8 Mae gan yr NCA gylch gorchwyl ledled y Deyrnas Unedig i drechu troseddau difrifol a chyfundrefnol. Ond mae plismona wedi ei ddatganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yng Ngogledd Iwerddon, mae gweithgareddau'r NCA yn gyfyngedig i faterion a gedwir ac a eithriwyd[41].

4.9 Bydd Cyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA yn uniongyrchol atebol i'r Ysgrifennydd Cartref a fydd yn pennu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer yr Asiantaeth. Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol reolaeth lawn dros weithgareddau gweithredol yr NCA. Bydd yr Asiantaeth yn cyhoeddi cynllun blynyddol ac adroddiad ar ei berfformiad.

41 Ni wnaeth Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ddatblygu'r cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer yr NCA yng Ngogledd Iwerddon. O ganlyniad, mae Rhan 1 y Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013, sy'n sefydlu'r NCA, yn amodol i Atodlen 24 y Ddeddf, sy'n cyflwyno'r adrannau hynny nad ydynt yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Ibid.

## Rhanbarthol

4.10 Rydym yn gwneud newidiadau pellach i'r ymateb rhanbarthol i droseddau difrifol a chyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr.

4.11 Ar hyn o bryd mae yna naw o Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs) yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu gallu i ymchwilio i droseddau difrifol a chyfundrefnol ar draws ffiniau heddluoedd. Mae prif gwnstabliaid, gyda chefnogaeth comisiynwyr yr heddlu a throseddu, yn arwain rhaglen i gynyddu galluoedd ROCU, yn arbennig felly ym meysydd casglu a dadansoddi cudd-wybodaeth, adfer asedau, twyll, troseddau seiber, cudd-wybodaeth carchardai a darparu diogelwch i dystion. Mae'r Swyddfa Gartref yn buddsoddi cyllid atodol yn y galluoedd hyn a disgwyliwn weld newid arwyddocaol erbyn diwedd 2014. Bydd ROCUs yn gweithio ar y cyd â 18 o swyddfeydd NCA rhanbarthol. Ble bynnag fo'n bosibl, disgwyliwn iddynt gael eu lleoli gyda'i gilydd.

4.12 Bydd gan ROCUs hefyd rôl arweinyddiaeth bwysig o ran hwyluso rhannu gwybodaeth ar droseddau difrifol a chyfundrefnol ar draws asiantaethau ac adrannau. Bydd gan bob ROCU gydlynydd Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaethau'r Llywodraeth (GAIN) ar lefel strategol a thactegol. Mae aelodaeth graidd GAIN yn cynnwys yr heddlu, asiantaethau gorfodi'r gyfraith cenedlaethol ac asiantaethau eraill megis Safonau Masnach ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd adrannau llywodraeth ganolog yn sicrhau fod cynrychiolwyr o asiantaethau maent yn gyfrifol amdanynt ac sydd â chylch gorchwyl ymchwilio yn cymryd rhan weithredol yn y rhwydwaith.

## Lleol

4.13 Bydd heddluoedd yn dal i gyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith yn erbyn troseddwyr difrifol a chyfundrefnol yn y wlad hon. Bydd timau'r heddlu sy'n gyfrifol am droseddau cyfundrefnol, asedau cudd-wybodaeth yr heddlu ac unedau heddlu arbenigol eraill yn parhau i fod yn allweddol ac, o ran niferoedd, bydd adnoddau'r heddlu yn dal i fod yn sylweddol uwch na rhai'r NCA a ROCUs. Bydd yr NCA yn hysbysu, cydlynu, arwain a chefnogi ond rhaid i'r berthynas â heddluoedd fod yn agos a chydweithredol ar bob adeg.

4.14 Bydd angen i brif gwnstabliaid a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu sicrhau eu hunain fod ganddynt ddigon o allu ar lefel rhanbarthol a heddlu i ymateb i'r bygythiad, risg a niwed y mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn cyflwyno i ardaloedd eu heddluoedd, yn unol ag amodau'r Gofyniad Plismona Strategol[42].



4.15 Mae trefniadau i ddelio â throseddau difrifol a chyfundrefnol yn amrywio ar draws heddluoedd. Ond ceir sawl enghraifft dda o unedau heddluoedd lleol, gyda chefnogaeth asedau lluoedd arbenigol ac, cyn cyflwyno'r NCA, SOCA, yn gyfrifol am arwain yr ymateb i grwpiau troseddau cyfundrefnol lleol penodol. Mae rhai heddluoedd yn sicrhau fod gan yr holl grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n preswylio yn, neu'n cael effaith ar, eu hardal blismona swyddog cyfrifol lleol a enwir. Ble bynnag fo'n bosibl, credwn y dylai hyn fod yn arfer cyffredin.

42 Y Swyddfa Gartref (2012) *Strategic Policing Requirement* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/117445/strategic-policing-requirement.pdf

**Ymgyrch Cobweb (Glannau Mersi):** mae’r ymgyrch hon yn dangos sut y gall uned heddlu leol dargedu grŵp troseddu cyfundrefnol y mae’n gyfrifol amdani. Danfonodd Arolygydd Cymdogaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) i gyfeiriadau oedd yn gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol lleol yn rheolaidd i gasglu cudd-wybodaeth am unigolion a cherbydau. Wrth ymweld ag un cyfeiriad, cyflwynodd PCSO gudd-wybodaeth ynglŷn â cherbyd a gafodd ei stopio’n hwyrach a gafwyd i gynnwys cyffuriau ac arian anghyfreithlon. Arweiniodd arestiad dilynol o brif aelod o’r grŵp troseddu at ymchwiliad i wyngalchu miliynau o bunnoedd o arian yn rhyngwladol ac at amharu ar grŵp troseddu cyfundrefnol treisgar a sefydledig oedd heb ei gyffwrdd am flynyddoedd.

4.16 Rhaid i weithredu lleol yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol ddefnyddio gwybodaeth a grymoedd nifer o asiantaethau ac adrannau. Mae’r rhain eisoes yn bartneriaethau lleol arloesol a chynhyrchiol yn darparu cefnogaeth i heddluoedd ddelio â throseddau cyfundrefnol (e.e. Ymgyrch Challenger ym Manceinion a sefydlwyd yn dilyn llofruddiaeth dau o swyddogion yr heddlu yn 2012). Bydd y partneriaethau hyn yn allweddol i lwyddiant y strategaeth hon a dylai fod yn arfer safonol. Byddant wedi eu cefnogi gan a chydlynu gyda’r NCA. Dylai partneriaethau lleol hefyd chwarae rôl bwysig bellach yn Atal, Diogelu a Pharatoi.

4.17 Bydd yr union strwythur i bartneriaethau amlasiantaethol lleol ddelio â throseddau difrifol a chyfundrefnol yn amrywio ar draws y wlad. Mewn rhai ardaloedd, efallai y byddai’n syniad addasu grŵp presennol i’r perwyl hwn (e.e. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol neu Unedau Rheoli Gangiau). Credwn y dylai comisiynwyr yr heddlu a throseddu chwarae rhan arweiniol o ran nodi a sefydlu'r corff priodol; dylai gael cynrychiolwyr o’r heddlu, awdurdodau lleol, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, a gorfodaeth mewnfudo. Rhaid i’r effaith fod i weithredu’r detholiad llawn o rymoedd yn lleol yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol.

4.18 Bydd partneriaethau angen dealltwriaeth gyffredin o’r bygythiad. Gan adlewyrchu dysgu o wrthderfysgaeth (yn arbennig felly ddatblygiad yr hyn a elwir yn Broffiliau Lleol Gwrthderfysgaeth), rydym eisiau i heddluoedd a’r NCA ddatblygu a rhannu proffiliau lleol troseddau difrifol a chyfundrefnol. Dylent ddisgrifio gweithgaredd troseddau difrifol a chyfundrefnol lleol a marchnadoedd troseddol, cwmnïau ffrynt cysylltiedig a materion cymunedol perthnasol.





## Ffiniau'r Deyrnas Unedig

4.19 Mae cyfran sylweddol o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn ymwneud â symud pobl, nwyddau ac arian ar draws ffiniau'r Deyrnas Unedig. Mae troseddwyr yn chwilio o hyd am gyfle i fanteisio ar wendidau posibl yn ein trefniadau diogelwch ar y ffin. Mae'r ffin hefyd yn gyfle i awdurdodau gorfodi'r gyfraith i ymyrryd yn erbyn ac amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol.

4.20 Bydd Awdurdod Plismona'r Ffiniau (BPC) yr NCA yn arwain gwaith yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol ar y ffin, gan gynnwys troseddau mewnfudo cyfundrefnol a masnachu mewn pobl. Bydd yr NCA yn gyfrifol am gysodi Asesiad Risg Ffiniau newydd cyfrinachol (yn cwmpasu pob bygythiad) a strategaeth reoli a fydd yn hysbysu a chydlynu'r holl weithgareddau ymgyrchoedd gorfodi'r gyfraith ar y cyd.

4.21 Bydd yr NCA yn gweithio'n agos gyda Llu'r Ffiniau sy'n gyfrifol am ganfod bygythiadau ac atafaelu nwyddau anghyfreithlon, gwirio statws mewnfudo, chwilio bagiau, cerbydau a chargo am nwyddau anghyfreithlon neu fewnfudwyr anghyfreithlon, patrolio arfordir y Deyrnas Unedig a chwilio llongau. Mae gan Lu'r Ffiniau swyddogaeth casglu cudd-wybodaeth bwysig. Bydd BPC hefyd yn gallu arwain asedau gwrthderfysgaeth yr heddlu ar y ffin ar waith troseddol pan fydd adnoddau a blaenoriaethau yn caniatáu ar gyfer hyn.



4.22 Mae Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn cyflawni'r ymateb ymchwilio cenedlaethol i'r rhai sy'n torri cyfreithiau mewnfudo. Mae'n erlyn troseddau mewnfudo cyfundrefnol ac yn defnyddio grymoedd mewnfudo yn erbyn gwladolion tramor sy'n cyflawni trosedd. Mae hyn yn allu allweddol yr hoffem ei ddatblygu ymhellach (gweler 4.67-4.71).

4.23 Rydym yn symleiddio dyrannu gwaith ar y ffin yn ogystal â gwella sut y cesglir ac y rhennir cudd-wybodaeth ar draws yr asiantaethau. Byddwn yn creu Unedau Cudd-wybodaeth y Ffiniau ar y Cyd (yn cynnwys NCA, Llu'r Ffiniau a'r Gangen Arbennig) i'r perwyl hwn.

## ii. Datblygu ein galluoedd i ganfod, ymchwilio i, erlyn ac amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol

4.24 Mae meithrin galluoedd yn allweddol os ydym i gael effaith ar droseddau difrifol a chyfundrefnol: ond ni fydd newid sefydliadol a rolau a chyfrifoldebau newydd yn ddigon ynddynt eu hunain. Bydd angen i'r rhan fwyaf o'r galluoedd fod yn yr NCA a phlismona. Mewn rhai meysydd, megis troseddau seiber, troseddau economaidd a chamfanteisio rhywiol ar blant, mae angen galluoedd penodol os ydym i symud ar yr un cyflymder â'r bygythiadau sy'n datblygu.

4.25 Mae gan yr NCA dros 40 o alluoedd gweithredol ar draws detholiad o feysydd. Mae blaenoriaethau strategol yr Ysgrifennydd Cartref ar gyfer yr NCA yn cynnwys datblygu galluoedd technegol a dynol yn benodol, er mwyn galluogi newid sylweddol yn ein heffaith ar droseddau difrifol a chyfundrefnol.

4.26 Mae'r Gofyniad Plismona Strategol, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, yn cyflwyno manylion beth mae'r heddlu angen gallu ei wneud i daclo bygythiadau cenedlaethol – sy'n cynnwys troseddu cyfundrefnol a delio â digwyddiad seiber ar raddfa fawr. Rhaid i gomisiynwyr yr heddlu a throseddu ddal prif gwnstabliaid yn atebol am gael, neu gael mynediad at, amrywiaeth o alluoedd a nodwyd

i fod yn allweddol er mwyn taclo'r bygythiadau cenedlaethol hyn.

4.27 Ni ellir ystyried yr holl alluoedd fydd yn angenrheidiol yma. Delir ag ymchwilio i droseddau ariannol a gweithredu'n rhyngwladol mewn manylder mewn rhannau eraill (gweler 4.45 a 4.61 yn y drefn honno).

4.28 Bydd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr a'r holl asiantaethau gorfodi'r gyfraith cenedlaethol yn pennu beth fyddai'r dull gorau i weithredu eu galluoedd yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol, wedi eu harwain gan gudd-wybodaeth a'u blaenoriaethu i leihau'r bygythiad. Am y tro cyntaf, bydd hyn yn cynnwys gweithrediad cyson o'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol[43] i hysbysu blaenoriaethau a lleoli.

### Cudd-wybodaeth ac ymchwilio

4.29 Mae nifer o'r galluoedd newydd sy'n ofynnol gan yr NCA a phlismona (ac yn wir gan asiantaethau eraill) yn ymwneud â'r gallu i gasglu cudd-wybodaeth ynglŷn ag ac i ymchwilio troseddau a gynlluniwyd neu a ymchwiliwyd ar-lein ac, yn benodol, troseddau seiber.

4.30 Bydd angen i'r NCA ddatblygu galluoedd er mwyn gallu casglu, dadansoddi a manteisio ar gyfathrebu seiliedig ar y rhyngrwyd yn well. Bydd hyn yn galw am dechnoleg newydd, seilwaith, sgiliau newydd arwyddocaol a newid busnes.

4.31 Mae rhai agweddau o droseddau seiber, yn arbennig felly cam-drin plant yn rhywiol, yn galw am alluoedd newydd penodol. Bydd cronfa ddata genedlaethol newydd o ddelweddau cam-drin plant yn galluogi adnabod delweddau ar-lein o gam-drin rhywiol yn gyflym, i gefnogi casglu tystiolaeth a gwella'r gallu i nodi a diogelu dioddefwyr.

4.32 Mae ymchwiliadau troseddau seiber yn cynnwys archwilio offer ar-lein troseddol newydd (e.e. maleiswedd) ac yn galw am wella technegau dadansoddiad fforensig digidol yn barhaus, er enghraifft, i ddelio â'r defnydd cynyddol o amgryptio a chuddio hunaniaeth yn y byd go iawn. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo £860 miliwn dros bum mlynedd trwy'r Rhaglen Diogelwch Seiber Genedlaethol, sy'n cynnwys adeiladu ar y galluoedd hyn i orfodi'r gyfraith. Fe ddefnyddir cyllid pellach yn 2013/14 i ddatblygu cudd-wybodaeth a galluoedd gweithredol newydd ar gyfer yr Uned Troseddau Seiber Genedlaethol, sefydlu canolfannau troseddau seiber ym mhob ROCU a chyflawni hyfforddiant ar droseddau seiber i 5,000 o swyddogion yr heddlu erbyn 2015.

### Dadansoddiad data

4.33 Mae casglu a dadansoddi data swmp yn allweddol i ymchwilio i ac amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol. Daw llawer o'r data hwn o adrannau'r llywodraeth, ond daw rhywfaint gan y sector preifat. Bydd yr NCA yn sefydlu galluoedd prosesu data swmp all asio data a gasglwyd yn gyfreithlon o nifer o ffynonellau ar themâu lluosog, gan gynnwys troseddau economaidd, troseddau seiber a chamfanteisio rhywiol ar blant.

### Drylliau

4.34 Mae drylliau yn nodwedd o droseddau cyfundrefnol. Mae gennym rai galluoedd presennol i olrhain a nodi eu defnydd[44]. Rydym eisiau datblygu gallu pellach i amharu ar fewnforio a chaffael ar-lein anghyfreithlon ac i nodi ffynonellau cyflenwi eraill. Rydym angen datblygu gwrth fesurau ar gyfer y risg benodol y bydd argraffu 3D yn hwyluso cynhyrchu arfau neu rannau o arfau. Gallwn weld rôl bellach i'r UE o ran gosod safonau i ddadactifadu arfau fel na allant achosi unrhyw niwed.

43 Mae'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol (NIM) yn broses seiliedig ar gudd-wybodaeth i dywys penderfyniadau lleoli ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

44 http://www.nabis.police.uk/home.asp

## Amhariad




4.35 Mae amharu'n barhaus ar droseddau cyfundrefnol a throseddwyr cyfundrefnol gan ddefnyddio pob dull posibl – nid dim ond erlyn – yn thema allweddol i'r strategaeth hon. Mae amhariad llwyddiannus yn ddibynnol ar berchnogaeth heddluoedd lleol o grwpiau troseddu a gwella cydlynu lleol.

4.36 Ond nid yw galluoedd amharu yn amlwg bob tro. Bydd yr NCA yn datblygu llawlyfr amhariadau cenedlaethol newydd yn darparu arweiniad, yn seiliedig ar yr wybodaeth gyfunol orau gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid eraill, ar offer a thactegau i amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol.

4.37 Mae mathau penodol o droseddau yn galw am fathau penodol o ymatebion. Er enghraifft, byddwn yn datblygu ein systemau rhybuddion cynnar ymhellach i nodi sylweddau seicoweithredol newydd a, ble fo angen, i'w gwahardd yn gyflym.

## Cydlynu a chyfathrebu

4.38 Bydd yr NCA yn sefydlu system newydd i reoli pob ymchwiliad, ymgyrch a phrosiect trwy gydol eu cylch oes. Bydd yn cwmpasu pob ymgyrch a arweinir ac a gefnogir gan yr NCA ac yn golygu fod gweithgareddau wedi eu cynllunio, awdurdodi, blaenoriaethu ac olrhain yn well. Bydd yr NCA yn datblygu offeryn i ddarparu gwybodaeth rheoli fyw ar statws argaeledd swyddogion, llwyth gwaith, sgiliau a dyletswyddau.

4.39 Bydd y gwaith hwn wedi ei gefnogi gan seilwaith cyfathrebu diogel cenedlaethol newydd a fydd yn cysylltu'r heddlu ROCUs, yr NCA ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith cenedlaethol eraill ac yn galluogi i gudd-wybodaeth, gwybodaeth a briffio gweithredol lifo mewn amser go iawn. Mae'r NCA a'r ROCUs yn adeiladu gallu atodol i dderbyn a rhannu cudd-wybodaeth gan ffynonellau sensitif trwy rwydwaith o unedau cyfrinachol achrededig.

## Sgiliau pobl

4.40 Bydd gan swyddogion yr NCA y gallu i gynnal ymchwiliadau ar draws ei holl gyfrifoldebau. O gymharu ag asiantaethau blaenorol, bydd cyfran fwy o swyddogion NCA gyda 'gwarant triphlyg', gyda grymoedd cwnstabl yr heddlu, swyddog mewnfudo a swyddog y tollau i arestio, chwilio, cipio, gofyn am wybodaeth ac adfer asedau troseddol. Bydd yr NCA yn datblygu llwybrau gyrfaoedd boddhaus i swyddogion mewn meysydd arbenigol newydd megis fforensig seiber a dadansoddiad digidol. Bydd yn secondio ei swyddogion i asiantaethau partner i sicrhau fod ganddynt yr ystod ehangaf posibl o sgiliau a phrofiad a bydd swyddogion asiantaethau partner yn cael eu secondio i'r NCA.

4.41 Bydd yr Asiantaeth yn recriwtio swyddogion gwirfoddol a elwir yn 'Swyddogion Arbennig yr NCA'. Byddant yn cynnig detholiad o sgiliau arbenigol nad ydynt i'w cael fel arfer mewn asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Bydd y rhain yn arbenigwyr ariannol a thechnoleg. Yn amodol i brofion addasrwydd, gall Swyddogion Arbennig yr NCA dderbyn grymoedd cwnstabl yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

4.42 Bydd sefydliadau ar y ffin yn datblygu rhaglen hyfforddiant achrededig a datblygiad proffesiynol parhaus cyfrannol ar gyfer swyddogion cudd-wybodaeth.

### Cydgyfeiriant: gwrthderfysgaeth a throseddu cyfundrefnol

4.43 Yn ystod y blynyddoedd i ddod bydd angen i ni ddatblygu cydweithredu agosach a rhannu galluoedd rhwng rhwydweithiau'r heddlu ac asiantaethau sy'n gweithio ar wrthderfysgaeth a throseddu cyfundrefnol[45]. Bydd cael fframwaith strategol cyffredin yn gymorth yn hyn o beth. Mae nifer o ofynion galluoedd yn debyg. Mewn rhai ardaloedd, mae targedau yn gorgyffwrdd (h.y. mae pobl sy'n gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol yn hwyluso terfysgaeth). Mae yna feysydd penodol ble mae angen mwy o gydweithredu, yn cynnwys ar y ffin (ble rydym wedi cyflawni cryn dipyn), mewn carchardai, ac ar faterion technegol, diogelwch amddiffynnol, troseddau ariannol a gwyngalchu arian.


4.44 Rydym hefyd eisiau lleoli unedau heddlu rhanbarthol sy'n delio â throseddu cyfundrefnol a gwrthderfysgaeth ar y cyd ble bynnag fo'n bosibl, a'u lleoli gyda swyddfeydd rhanbarthol yr NCA.

[45] Llywodraeth EM (2010) *Securing Britain in an Age of Uncertainty: The Strategic Defence and Security Review* https://www.gov.uk/government/publications/the-strategic-defence-and-security-review-securing-britain-in-an-age-of-uncertainty

## iii. Ymosod ar gyllid troseddol trwy ei gwneud yn anoddach i symud, cuddio a defnyddio elw o droseddau

### Adfer elw o droseddau

4.45 Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio grymoedd dan y Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (POCA)[46] i adfer £150 o elw troseddol pob blwyddyn ac i wadu mynediad i symiau mwy fyth i droseddwyr (£500 miliwn yn 2012/13). Ond mae'r symiau hyn yn dal i fod yn bitw o gymharu â graddfa a chost troseddu difrifol a chyfundrefnol i economi'r Deyrnas Unedig.



4.46 Mae POCA yn cael ei herio'n gyfreithiol yn gyson gan droseddwyr sy'n chwilio ar bob cyfle am ddull newydd o osgoi ei gyrhaeddiad ac i lesteirio adfer asedau. Rhaid i ni ddal i wella'r system adfer asedau trwy:

- addasu ein grymoedd;
- sicrhau y gweithredir gorchmynion llys;
- gwella adfer asedau sydd wedi eu cuddio dramor; a
- gweithredu rheoliadau gwyngalchu arian newydd.

[46] Llywodraeth EM (2002), *Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA)* Mae POCA yn galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gipio arian, i atafaelu elw trwy'r llysoedd troseddol yn dilyn euogfarn, i ddefnyddio'r llysoedd sifil i adfer asedau o'r fath hyd yn oed ble na chafwyd euogfarn, ac i ddefnyddio grymoedd trethu i fynd ar drywydd elw troseddol http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/29/contents

## Grymoedd effeithiol

4.47 Mae troseddwyr yn manteisio ar achosion POCA i oedi'r broses o adfer asedau, er enghraifft, trwy beidio mynychu'r llys ar gyfer y gwrandawiad atafaelu wedi euogfarn; defnyddir hawliadau trydydd parti hefyd i leihau faint o arian sydd ar gael i'w adfer. Mae POCA yn caniatáu ar gyfer dedfryd o garchar pan fydd troseddwyr yn gwrthod talu gorchymyn atafaelu, ond gall troseddwyr fwrw ei dymor yn y carchar a dal i wrthod talu, gan wybod mai dim ond unwaith y gellir defnyddio'r opsiwn o garchar.

4.48 Bydd y Swyddfa Gartref yn deddfu i gau'r bylchau hyn ac eraill unwaith y bydd amser Seneddol yn caniatáu ar gyfer hyn trwy sicrhau fod gan lysoedd y grymoedd maent eu hangen i orfodi presenoldeb mewn gwrandawiadau atafaelu; gan sicrhau na ellir cuddio asedau troseddol gyda chymar, cymdeithion neu drydydd partïon eraill; a thrwy gryfhau'r dedfrydau o garchar am fethu â thalu gorchmynion atafaelu yn sylweddol i atal troseddwyr rhag dewis mynd i'r carchar yn hytrach na thalu gorchmynion atafaelu.

4.49 Byddwn yn ceisio cryfhau meysydd eraill o POCA trwy:

- alluogi i asedau gael eu rhewi'n gynt ac yn gynharach mewn ymchwiliadau;
- symleiddio'r broses ar gyfer gorchmynion atafaelu gwerth isel er mwyn cael gwrandawiad i'r achosion hyn yn gynt a rhad yn Llysoedd yr Ynadon yn hytrach na Llys y Goron;
- lleihau'n sylweddol yr amser mae'r llysoedd yn ei roi i droseddwyr dalu gorchmynion atafaelu, gan gynnwys atafaelu cyflym o arian mewn cyfrifon banc;
- ymestyn grymoedd ymchwilio POCA fel eu bod ar gael i olrhain asedau unwaith y gwneir y gorchymyn atafaelu (ar hyn o bryd mae'r grymoedd hynny'n diflannu wedi gwneud y gorchymyn);
- cael gwared ar y gofyniad i droseddwyr lofnodi ffurflen gydsynio cyn y gellir sylweddoli asedau er mwyn lleihau oedi yn yr achosion; a
- lleihau cyfleoedd i droseddwyr osgoi gorchmynion atafaelu trwy gyflwyno cyfyngiadau ar deithio a dwysau cyfyngiadau mechnïaeth.

4.50 Mae HMRC wedi defnyddio ymyraethau treth (a grymoedd eraill) i ymosod ar gyllid ac erlyn troseddwyr sy'n ymwneud â chyffuriau, masnachu mewn pobl ac amrywiaeth o fathau eraill o droseddau. Bydd HMRC yn dyblu maint ei Uned Trethi Troseddol erbyn 2015.

## Gweithredu gorchmynion llys

4.51 Dim ond o'u gweithredu fydd grymoedd cadarn yn effeithiol. Dan y llywodraeth hon, cafwyd ffocws o'r newydd ar orfodi ac mae lefelau heb eu hail o gosbau ariannol yn cael eu casglu, ond rydym yn dal i weld bwlch arwyddocaol rhwng y gorchmynion atafaelu a wneir a'r rhai sy'n cael eu casglu, sy'n amrywio o rhwng £80 miliwn a £170 miliwn y flwyddyn. Mae sawl rheswm am hyn, yn cynnwys os yw'r unigolyn wedi marw, yn cael ei alltudio neu ble mae'r troseddwyr wedi mynd i gryn drafferth i guddio'r elw o'u troseddu trwy drosglwyddo arian dramor neu eu cuddio gyda ffrindiau a theulu. Mae gweithredu yn erbyn y rhai nad ydynt yn talu yn flaenoriaeth.

4.52 I gau'r bwlch hwn:

- bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys EM, y CPS a'r NCA yn defnyddio eu grymoedd mewn gweithgaredd gorfodi dwys yn erbyn gorchmynion atafaelu sy'n daladwy; bydd yr asiantaethau hyn yn cydweithio i uchafu'r asedau a gymerir gan droseddwyr difrifol a chyfundrefnol. Gall y rhai nad ydynt yn talu fynd i'r carchar;
- bydd y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn archwilio sut y gellir dod â sgiliau cyfrifyddiaeth fforensig y sector preifat i'r broses adfer asedau pen i ben er mwyn nodi, dilyn ac adfer cymaint o elw â phosibl; a
- bydd y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn manteisio ar lwyddiant y Tasglu Twyll, Gwallau a Dyledion i

ddefnyddio'r technegau llwyddiannus a ddefnyddiwyd i leihau twyll budd-daliadau a threth wrth weithredu gorchmynion atafaelu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau mewnwelediad ymddygiadol ar gyfathrebu targedig i dalwyr hwyr[47] a chloddio data blaengar i wirio gwybodaeth o wahanol adrannau'r llywodraeth.

### Adfer asedau sydd wedi eu cuddio dramor

4.53 Gall asedau troseddol a symudir dramor fod yn anodd eu cyrraedd. Rydym yn ddibynnol ar gymorth cyfreithiol rhwng y naill a'r llall gan wledydd eraill i weithredu gorchmynion ar ein rhan, ac mae'n bosibl na fydd y gorchmynion hyn yn cael blaenoriaeth. Mae rhai gwledydd yn llochesau bwriadol neu anfwriadol i asedau troseddol.

4.54 Cafwyd cytundeb â Sbaen i hwyluso adferiad asedau a gwneud Sbaen yn lle mwy gelyniaethus i droseddwyr o'r Deyrnas Unedig. Mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu cytundebau rhannu asedau gyda gwledydd eraill, yn cynnwys Tsieina a'r Emiraethau Arabaidd Unedig, i'w hannog i weithredu ein gorchmynion. Mae'r lefelau o asedau a gesglir o dramor yn erbyn gorchmynion atafaelu yn isel ond yn gwella. Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i lofnodi cytundebau rhannu asedau pellach gyda gwledydd allweddol eraill yn cynnwys Rwmania, De'r Affrig a Ghana.

### Rheoliadau i atal gwyngalchu arian (AML)

4.55 Bwriedir i safonau rhyngwladol, a gytunwyd gan 36 o aelod wladwriaethau'r Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF), i sicrhau fod rheoliadau a gweithdrefnau ar waith i weithio yn erbyn y risg o wyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth ar draws nifer o sectorau. Mae deddfwriaeth yr UE a'r Deyrnas Unedig yn adlewyrchu'r safonau hyn trwy osod rhwymedigaethau i atal gwyngalchu arian (AML) ar fusnesau i atal camddefnydd o'r system ariannol.

4.56 Yn Hydref 2012, yn dilyn adolygiad gan y llywodraeth, daeth addasiadau i reoliadau AML i rym i leihau'r faich reoleiddiol ac i wneud y gyfundrefn oruchwyliol gyffredinol yn fwy cadarn, effeithiol a chymesur. Er enghraifft, rhoddwyd grymoedd i HMRC parthed rheoleiddio busnesau gwasanaethau ariannol (MSBs) sydd eisoes wedi eu defnyddio'n llwyddiannus. Roedd yr addasiadau yn ychwanegu porth rhannu gwybodaeth i'r holl oruchwylwyr AML, gan ganiatáu iddynt rannu gwybodaeth ymysg ei gilydd yng nghyd-destun eu dyletswyddau AML, sy'n golygu y gellir rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth ar fygythiadau penodol a manylion y rhai sy'n gysylltiedig yn neu'n cefnogi gwyngalchu arian ar draws sectorau.

4.57 Mae rheoliadau AML wedi eu profi gan ddatblygiad cynnyrch a dulliau talu newydd megis cardiau rhagdalu a rhith arian (megis Bitcoin) y gellir ei ddefnyddio i wyngalchu elw o droseddu, ariannu gweithgareddau anghyfreithlon a ble nad oes gofyniad i adrodd ar drafodion i reolyddion. Bydd y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EM yn adolygu sut y gellir atgyfnerthu trefniadau presennol i ddelio â chynnyrch a dulliau talu newydd. Byddwn hefyd yn ystyried os dylid dod â datblygiadau newydd o ran trosglwyddo arian o fewn cylch gorchwyl rheolyddion, sut i nodi pan fydd trafodion o'r fath yn cyrraedd a gadael y sector reoledig, a sut i hwyluso dod â chynnyrch a newydd a rhith arian o fewn cyrraedd POCA. Yn cefnogi hyn fydd gwaith Trysorlys EM a'r Swyddfa Gartref gydag awdurdodau gorfodi'r gyfraith a'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gynhyrchu Asesiad Risg Cenedlaethol (NRA) ar wyngalchu arian a fydd yn nodi bygythiadau a gwendidau ac yn rhannu gwybodaeth i helpu taclo risgiau.

---

47 Cynhyrchodd un peilot gan HMRC yn defnyddio negeseuon testun targedig i dalwyr treth hwyr welliant o 5% mewn taliadau treth.

## iv. Sicrhau fod grymoedd cyfreithiol effeithiol ar gael ac y'i defnyddir i ddelio â'r bygythiad o droseddu difrifol a chyfundrefnol

4.58 Mae'r gyfraith yn darparu cyfres eang o rymoedd i erlyn a chosbi unigolion am gyflawni unrhyw un o'r troseddau y gellid eu hystyried i fod yn drosedd ddifrifol neu gyfundrefnol. O ganlyniad i brofiad a natur newidiol y bygythiad, credwn fod yna fylchau deddfwriaethol pellach tu hwnt i'r newidiadau i POCA (gweler 4.47-4.49) y mae'n rhaid eu llenwi.

4.59 Rydym eisoes wedi cymryd camau i:

- greu grymoedd newydd[48] i drechu rhwystrau i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith;
- gefnogi Bil Aelod Preifat, bellach wedi ei ddeddfu, i daclo twyll tai cymdeithasol trwy greu trosedd newydd o is-osod anghyfreithlon a grymoedd newydd i adfer elw[49]; ac i
- gynyddu'r ddedfryd uchaf i garchariad am oes ar gyfer mewnfudo arfau anghyfreithlon a chyflwyno trosedd newydd o feddiant o arfau anghyfreithlon i'w gwerthu neu drosglwyddo (hefyd yn amodol ar y gosb uchaf o garchar am oes)[50].



4.60 Byddwn yn cyflwyno cynigion i:

- daclo pobl sy'n cefnogi'n weithredol, ac yn elwa o, gymryd rhan mewn troseddu cyfundrefnol, dysgu o ddeddfwriaeth sydd eisoes yn cael ei defnyddio mewn rhannau eraill o'r byd[51];
- wella ein hymateb i fasnachu mewn pobl. Byddwn yn cyhoeddi Bil Caethwasiaeth Modern drafft yn hwyrach eleni ar gyfer craffu cyn ddeddfwriaethol ac yn ystyried mesurau i: gryfhau'r ymateb gorfodi'r gyfraith i gynyddu ymchwiliadau, erlyniadau ac euogfarnau; cynyddu'r cosbau ar gyfer y rhai a geir yn euog o drosedd masnachu; a chyfyngu gweithgareddau'r rhai a geir yn euog o drosedd masnachu mewn pobl i'w hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd pellach sy'n gysylltiedig â masnachu;
- sicrhau fod yr heddlu a'r Awdurdod CEOP yn yr NCA yn cael y grymoedd angenrheidiol i daclo delweddau anweddus o blant ar y rhyngrwyd;

48 Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/22/contents/enacted

49 Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/3/contents/enacted

50 Llywodraeth EM (2013) *Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona* http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2013-2014/0093/cbill_2013-20140093_en_1.htm

51 UNODC (2004) *Legislative Guide for the United Nations Convention against Transnational Organized Crime and the Protocols thereto* http://www.unodc.org/unodc/en/treaties/CTOC/legislative-guide.html , para 48

- greu grymoedd newydd atafaelu a chadw sylweddau cemegol a amheuir o gael eu defnyddio fel cyfryngau torri ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon, i gynyddu'r gost a risg i droseddwyr cyfundrefnol;
- addasu'r Ddeddf Camddefnydd o Gyfrifiaduron 1990 i ddiweddaru troseddau presennol i gwmpasu mewngludo offer ar gyfer troseddau seiber (megis data neu raglenni a gynlluniwyd ar gyfer cael mynediad anghyfreithlon at system gyfrifiadurol); a
- chyflawni ymroddiad G8 y Deyrnas Unedig i wella tryloywder perchnogaeth a rheolaeth o gwmnïau, gan ei gwneud yn anoddach i guddio gweithgaredd troseddol, yn cynnwys troseddu cyfundrefnol, tu ôl i strwythur cwmni[52]. Mae'r Deyrnas Unedig wedi ymroi i ofyn i gwmnïau gadw a chynnal gwybodaeth gywir a chyfredol ar eu perchnogaeth lesol ac i gadw cofrestr ganolog o wybodaeth ar berchnogaeth leol cwmnïau, a gedwir yn Nhŷ'r Cwmnïau[53].

## v. Yn rhyngwladol, gwella'n galluoedd ein hunain a'n cydweithrediad gydag eraill i allu taclo rhwydweithiau troseddu cyfundrefnol yn well

4.61 Mae troseddu cyfundrefnol yn rhyngwladol. Mae grwpiau troseddol yn y wlad hon yn sefydlu cysylltiadau dramor i hwyluso gweithgaredd troseddol. Yn aml iawn bydd grwpiau sydd wedi eu lleoli dramor yn gweithredu yma. Gall troseddwyr seiber dargedu dioddefwyr yn y wlad hon o unrhyw ran o'r byd.

4.62 Ond mae'r cysylltiadau rhwng troseddu cyfundrefnol yma ac mewn gwledydd tramor yn newid. Mae hyn yn rhannol oherwydd datblygiad y mathau o droseddau. Mae gan droseddwyr seiber, rhwydweithiau masnachu cyffuriau, pobl sy'n gysylltiedig â chamfanteisio rhywiol ar blant a grwpiau troseddol yn gyfrifol am weithrediadau masnachu mewn pobl oll broffil rhyngwladol gwahanol. Mae gwaith rhyngwladol ar droseddu cyfundrefnol yn dod yn fwy cymhleth: rydym angen delio â mwy o fathau o droseddau mewn mwy o wledydd, rhai ohonynt â galluoedd gorfodi'r gyfraith a deddfwriaeth anaeddfed. Mae magu gallu, ar draws llywodraeth ac mewn cydweithrediad â gwladwriaethau eraill, yn allweddol.

4.63 Gyda throseddu cyfundrefnol, fel gyda gwrthderfysgaeth, pan fyddwn yn rhannu cudd-wybodaeth, cynnal ymgyrchoedd ar y cyd a magu gallu mewn gwladwriaethau eraill, rhaid i ni gynnal hawliau dynol ar bob adeg. Fel SOCA, bydd yr NCA yn dilyn y canllaw Cymorth Diogelwch a Chyfiawnder Tramor (Hawliau Dynol) a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn 2011. Mae hyn yn darparu swyddogion gorfodi'r gyfraith â chanllaw clir i helpu nodi a lliniaru risgiau hawliau dynol posibl.

### Cynrychiolaeth ryngwladol effeithiol

4.64 Hyd yn hyn, mae ein mae ein hymateb troseddu cyfundrefnol rhyngwladol wedi ei arwain gan y rhwydwaith swyddog cyswllt SOCA. Mae'r rhwydwaith wedi cael llwyddiant arwyddocaol ac yn 2012/13 fe hwylusodd gipio dros 60 tunnell o gocên a bron i 5 tunnell o heroin ac arestio 1,500 o bobl. Bydd y rhwydwaith SOCA yn dod yn rhan o Awdurdod Plismona'r Ffiniau'r NCA (gweler 4.20).


4.65 Bydd rhwydwaith swyddogion cyswllt yr NCA yn delio â'r holl fathau o droseddau y mae'r NCA yn gyfrifol amdanynt. Byddwn yn datblygu rhestr wedi ei diwygio o wledydd blaenoriaeth. Mae angen i ddewisiadau fod ar sail tystiolaeth a chael eu profi yn erbyn asesiadau o'r bygythiadau a wynebwn nid yn unig yn yr NCA ond hefyd yn y Cydbwyllgor Cudd-wybodaeth. Bydd rhannu'r baich gyda chymheiriaid agos yn allweddol i osgoi dyblygiad.

---

52 G8 (2013); G8 Action Plan Principles to Prevent the Misuse of Companies and Legal Arrangements www.gov.uk/government/publications/common-principles-on-misuse-of-companies-and-legal-arrangements

53 G8 (2013); G8 Action Plan Principles to Prevent the Misuse of Companies and Legal Arrangements www.gov.uk/government/publications/common-principles-on-misuse-of-companies-and-legal-arrangements

# Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol



4.66 Rydym hefyd allu gwella cydlyniad o adnoddau'r Deyrnas Unedig a leolir dramor i daclo materion troseddu. Byddwn yn profi ymagwedd llwyfan unigol ble bydd swyddogion gorfodi'r gyfraith o amrywiaeth o asiantaethau yn gweithio fel un rhith dîm, gan wella cydlyniad a lleihau dyblygu.

### Gwladolion tramor a throseddu cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig

4.67 Awgryma ein hymchwil a mapio grwpiau troseddu cyfundrefnol fod rhwng 13% a 22% o droseddwyr cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig yn wladolion tramor. Yn Llundain, mae'r Heddlu Metropolitan yn asesu fod gwladolion tramor yn cyfateb i o leiaf 25% o droseddau niwed uchel (gan gynnwys aelodau o grwpiau troseddu cyfundrefnol a throseddwyr rhyw rheibus).

4.68 Rydym angen gallu nodi gwladolion tramor sy'n cyflawni troseddau difrifol a chyfundrefnol tra'u bod yn y Deyrnas Unedig yn gywir a chyflym, sicrhau y sefydlir eu hanes troseddu yn gyflym a naill ai erlyn neu eu symud o'r wlad hon ar unwaith. Ond rydym hefyd angen sicrhau y defnyddir yr holl wybodaeth a grymoedd cyfreithiol sydd ar gael i atal mynediad i'r wlad hon ar gyfer pobl gyda hanes o droseddu difrifol neu y credwn allai gymryd rhan mewn troseddu difrifol neu gyfundrefnol wedi iddynt gyrraedd yma.

4.69 Ers Hydref 2012, mae'r Heddlu Metropolitan a Gwasanaeth Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref wedi rhedeg ymgyrch ar y cyd a elwir yn Nexus, yn rhannu cudd-wybodaeth i adnabod troseddwyr sy'n wladolion tramor wrth eu harestio. Mae'r heddlu ac awdurdodau Gorfodi Mewnfudo wedi gweithio'n agos ar Nexus gydag Awdurdod Canolog y Deyrnas Unedig ar gyfer Cyfnewid Cofnodion Troseddol (UKCA-ECR) ac asiantaethau plismona rhyngwladol eraill (Europol ac Interpol) i gael mynediad at gofnodion troseddol rhyngwladol. Mae nodi gwladolion tramor sydd wedi datgan cenedligrwydd anghywir neu hunaniaeth ffug eu hunain yn dal i fod yn her. Ond mae llawer mwy o wladolion tramor wedi eu nodi yn ystafelloedd dalfa'r heddlu a, ble cafwyd eu bod wedi torri cyfreithiau mewnfudo ac nad ydynt yn cael eu herlyn, maent yn cael eu symud o'r Deyrnas Unedig a'u hatal rhag dychwelyd am o leiaf 10 mlynedd.

4.70 Rydym angen cyflymu Nexus trwy awtomeiddio a gwella mynediad ar gyfer Gorfodi Mewnfudo a'r heddlu i gronfeydd data biometrig ei gilydd. Rydym angen gwneud mwy o ddefnydd o rymoedd mewnfudo presennol, yn cynnwys cwtogiad neu wrthod caniatâd i aros neu fynediad i'r Deyrnas Unedig, alltudio, eithrio a gwrthod brodori. Mae Nexus eisoes wedi ei ymestyn i Orllewin Canolbarth Lloegr. Mae gwaith cynllunio wedi dechrau i'w ymestyn ymhellach i heddluoedd eraill. Mae hyn yn flaenoriaeth uchel.

4.71 Mae cyflwyniad Nexus yn allweddol i ddelio â throseddwyr gwladolion tramor sydd eisoes yn y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd, ble bynnag fo'n bosibl, i atal troseddwyr sy'n wladolion tramor rhag dod yma o gwbl. Mae rhannu data rhyngwladol ar droseddwyr difrifol a chyfundrefnol yn allweddol i'r diben hwn. Bydd y System Gwybodaeth Schengen ail genhedlaeth (SISII) yn ddefnyddiol, ond byddwn eisiau sefydlu trefniadau rhannu data pellach ble fod angen[54].

### Troseddwyr o'r Deyrnas Unedig dramor

4.72 Mae nifer o droseddwyr difrifol a chyfundrefnol gyda chenedligrwydd Prydeinig yn gweithredu yn erbyn y wlad hon o dramor. Mae rhai ar ffo. Yn Sbaen, yr Iseldiroedd a Cyprus, helpodd gwaith cydweithredol gan SOCA (yn cynnwys swyddogion cyswllt wedi eu lleoli yn y gwledydd hynny) a'r FCO, gyda chefnogaeth cyhoeddusrwydd gan Crimestoppers, i leoli'r troseddwyr mwyaf a gredwyd i fod yn byw dramor. Bydd hyn yn parhau yn yr NCA. Rydym eisiau ymestyn yr ymagwedd gydweithredol hon i wledydd eraill. Unwaith eto, bydd SISII yn hwyluso'r gwaith hwn.

---

54 Mae SIS II yn system Gorfodi'r gyfraith ledled yr UE sy'n cynnwys data ar bobl yn cynnwys ffowyr rhyngwladol a phobl ar goll ac eitemau/eiddo coll neu wedi eu dwyn. Mae'r data yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelod wladwriaethau ar ffurf "hysbysiadau". Bydd yr hysbysiadau hyn ar gael i swyddogion gorfodi'r gyfraith y Deyrnas Unedig trwy Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC).

## Gallu ac adeiladu gallu mewn trydydd gwledydd

4.73 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae SOCA wedi helpu adeiladu gallu a medr asiantaethau gorfodi'r gyfraith dramor, mewn gwledydd o bwys penodol i'n gwaith ar droseddu cyfundrefnol yma. Bydd y gwaith adeiladu gallu hwn yn parhau, wedi ei gydlynu gan rwydwaith dramor yr NCA ar y cyd â'r FCO, yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) a'r CPS. Mae gan y CPS rwydwaith o Gynghorwyr Cyfiawnder Troseddol sy'n gyfrifol am ddatblygu gallu cyfiawnder troseddol dramor. Gall asedau milwrol y Deyrnas Unedig hefyd helpu i fagu gallu mewn gwledydd blaenoriaeth. Mae gwaith y DFID i ddatblygu llywodraethu da a rheolaeth cyfraith yn allweddol i'r gwaith yn erbyn troseddu difrifol a chyfundrefnol. Gall ddelio ag achosion sylfaenol troseddolrwydd a mynd i'r afael â'r rhag-amodau sy'n sicrhau ymateb llwyddiannus.

4.74 Bydd angen i ni barhau i adeiladu cymhwyster yn y dyfodol. Mewn gwledydd allweddol (megis Affganistan) bydd angen cydlynu hyn gyda chyfoedion rhyngwladol i sicrhau y rhennir y baich yn effeithiol ac i osgoi dyblygiad.

4.75 Disgwyliwn y bydd cwmpas adeiladu cymhwyster yn cynyddu. Mae'r rhan fwyaf o wledydd nawr yn ceisio gwella eu hymateb deddfwriaethol a gorfodi i fygythiadau seiber a throseddau ar-lein ar frys. Bydd Cronfa Adeiladu Cymhwyster yr FCO yn cefnogi datblygiad sgiliau seiber mewn gwledydd blaenoriaeth. Yn gyffredin â gwrthderfysgaeth, bwriadwn gydlynu adeiladu cymhwyser yn llawer agosach â diwydiant diogelwch y Deyrnas Unedig sydd wedi datblygu nifer o'r galluoedd sydd nawr yn ofynnol mewn trydydd gwledydd. Bydd cydlyniad gyda'r diwydiant diogelwch ar gyfleoedd tramor yn gysylltiedig â gwaith yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Swyddfa Gartref, yr FCO a Masnach a Buddsoddi y DU.

## Gwaith troseddu cyfundrefnol, yr UE a chydweithredu ehangach

4.76 Mae nifer o'n cymheiriaid pwysicaf yn erbyn troseddu cyfundrefnol yn Ewrop. Mae sefydliadau Ewropeaidd, yn arbennig felly Europol, hefyd yn allweddol ar gyfer ein gwaith troseddau cyfundrefnol.

4.77 Mae gan yr UE fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cydweithredu rhwng ei aelod wladwriaethau ar droseddau difrifol a chyfundrefnol. Dan amodau Cytuniad Lisbon, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth benderfynu erbyn 2014 a ydym am optio allan o, neu barhau i fod wedi ein rhwymo gan, holl fesurau'r heddlu a chyfiawnder troseddol yr UE a fabwysiadwyd cyn mynediad i'r Cytuniad. Yng Ngorffennaf, hysbysodd y Prif Weinidog Gyngor Gweinidogion yr UE fod y Llywodraeth wedi penderfynu eithrio allan o'r holl fesurau heddlu a chyfiawnder troseddol cyn Lisbon (dros 130 i gyd). Bydd yr eithrio allan yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2014. Nid yw hyn yn effeithio ar y mesurau hynny rydym wedi ymuno â nhw ers cytuno i'r Cytuniad Lisbon ar 1 Rhagfyr 2009. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi y bydd y Deyrnas Unedig yn ceisio ailymuno â chyfres o 35 o fesurau cyn Lisbon y credwn i fod yn bwysig ar gyfer ein cydweithrediad ar blismona a chyfiawnder troseddol.

4.78 Bwriadwn barhau i ddefnyddio'r Gwarant Arestio Ewropeaidd (EAW) sy'n caniatáu i'r Deyrnas Unedig estraddodi pobl sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol a dod â nhw i gyfiawnder yn y Deyrnas Unedig. Ond rydym eisiau gwella'r modd mae'r EAW yn gweithio yn ymarferol, trwy gyflwyno bar cymesuredd mewn deddfwriaeth. Hoffem ddefnyddio SISII (yr ydym yn gobeithio cysylltu iddo erbyn diwedd 2014) a'r Gorchymyn ymchwilio Ewropeaidd (EIO) a fydd yn symleiddio'r fframwaith Cymorth Cyfreithiol Cilyddol presennol ar gyfer casglu a throsglwyddo tystiolaeth droseddol rhwng aelod wladwriaethau cyfrannog yr UE.

4.79 Rydym hefyd eisiau parhau i gefnogi a gweithio gydag Europol (yn y 12 mis diwethaf, mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith y Deyrnas Unedig wedi bod yn gweithio ar dros 300 o ymgyrchoedd Europol arwyddocaol yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol). Yn benodol, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Troseddau Seiber Ewropeaidd a gydag Interpol i annog datblygiad protocolau effeithiol i reoli ymchwiliadau byd eang i daclo troseddau seiber, gan gynnwys trwy Rwydwaith genedlaethol 24/7 o bwyntiau cyswllt. Byddwn yn dal i hyrwyddo defnydd o'r Timau Ymchwiliadau ar y Cyd dan nawdd Eurojust, y credwn i fod yn fodd effeithiol o gydlynu a chymorthdalu ymgyrchoedd rhyngwladol yn Ewrop ac a ddylai ddod yn offeryn llawer mwy cyffredin o orfodi'r gyfraith ar draws Cymru a Lloegr.

4.80 Byddwn yn dal i gadw troseddau difrifol a chyfundrefnol ar agenda gwleidyddol yr UE. Hoffem ddylanwadu ar adnoddau a gwariant yr UE, gwella tryloywder a ble bynnag fo'n bosibl i wneud defnydd o'r Gwasanaeth Gweithredu Allanol Ewropeaidd (EEAS) i gefnogi blaenoriaethau troseddau cyfundrefnol (a gwrthderfysgaeth) y Deyrnas Unedig.

4.81 Rydym hefyd yn ddibynnol ar ansawdd ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol gyda'n cymheiriaid agos, yn cynnwys yr Unol Daleithiau, partneriaid '5-Llygad' eraill[55], Gwladwriaethau Ewropeaidd a sefydliadau amlochrog. Byddwn yn annog cyrff amlochrog, yn cynnwys y G8 ac UNODC i hyrwyddo cydlyniad rhoddwyr effeithiol a magu gallu a medrusrwydd.

55 Mae'r "5 Llygad" yn bartneriaid cynghreiriol sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, UDA, Canada, Awstralia a Seland Newydd.

## Taclo Masnachu mewn Pobl

Ers 2010, rydym wedi sicrhau cynnydd ar daclo masnachu mewn pobl. Fodd bynnag, mae trefniadau gweithredol yn dal i fod yn ddiffygiol: mae'r darlun cudd-wybodaeth yn dal yn anghyflawn; mae ymwybyddiaeth o'r broblem a sut i ddelio â hyn yn isel; ac mae'r modd i arwain a chydlynu ymateb gorfodi'r gyfraith cynhwysfawr yn ddiffygiol.

Byddwn yn delio â hyn trwy wella'n dealltwriaeth o fasnachwyr, y llwybrau a mesurau a ddefnyddiant a'r grwpiau troseddau cyfundrefnol dan sylw. Byddwn yn erlyn mwy o'r rhai sy'n gyfrifol ac yn cefnogi'r rhai sy'n darparu tystiolaeth (gweler 7.16). Byddwn yn gweithio i atal pobl rhag bod yn ddioddefwyr.

Bydd asesiad o fasnachu mewn pobl yn gyfrifoldeb i ganolbwynt cudd-wybodaeth yr NCA. Bydd y canolbwynt yn gwella dealltwriaeth o'r bygythiad trwy ei fynediad at ffrydiau cudd-wybodaeth newydd. Bydd Llu'r Ffiniau hefyd yn defnyddio ei rwydwaith ryngwladol o swyddogion risg a chyswllt i ddarparu cyngor ar broffil risg dioddefwyr posibl cyn iddynt ddod i'r Deyrnas Unedig.

Bydd Canolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig (UKHTC) yn dod yn rhan o'r NCA ac yn darparu cyngor arbenigol i blismona ar amhariad ac erlyn troseddwyr. Bydd yn datblygu a rhannu ymagweddau newydd i daclo masnachu mewn pobl ac yn cynnal gweithrediadau targedig. Bydd yr NCA yn cydweithio gyda ROCUs i daclo masnachu (gweler 4.11-4.12).

I sicrhau y gall swyddogion yr heddlu adnabod troseddwyr a dioddefwyr, bydd y Coleg Plismona yn darparu hyfforddiant diogelu'r cyhoedd i bob swyddog rheng flaen. Bydd Llu'r Ffiniau hefyd yn sicrhau fod staff wedi eu hyfforddi i adnabod arwyddion masnachu a sut i ymateb.

Trwy waith tramor yr NCA. Byddwn yn taclo masnachu mewn pobl mewn gwledydd tarddiad, yn arbennig Fietnam, Tsieina, Albania, Nigeria, Rwmania a Gwlad Pwyl. Bydd rhaglenni DFID yn taclo'r ffactorau sy'n creu risg y bydd pobl yn cael eu masnachu (gan adeiladu ar brosiectau atal masnachu presennol yn India, Bangladesh a Gorllewin Affrica). Bydd yr FCO yn gweithio gyda Llywodraethau i godi proffil masnachu mewn pobl ac i lobïo am newidiadau yng nghyfreithiau ac arferion gwledydd.

Rydym hefyd eisiau i'r sector preifat chwarae rhan. Rhaid i gwmnïau fod yn hyderus nad ydynt yn gwneud busnes gyda chyflenwyr sy'n ymwneud â masnachu. Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda busnesau i sicrhau eu bod yn cymryd camau i ddiogelu eu gweithlu, yn arbennig trwy eu cadwyni cyflenwi. Mae gan weithredwyr teithio hefyd rôl i'w chwarae o ran nodi ac adrodd ar weithgareddau teithio amheus allai fod yn gysylltiedig i symud pobl ar gyfer masnachu. Byddwn yn ehangu cynllun hyfforddiant y Swyddfa Gartref i helpu staff awyrennau, gan gynnwys criw cofrestru ac awyren, i adnabod arwyddion posibl o fasnachu mewn pobl ymysg teithwyr awyrennau. Mae rhif adrodd cyfrinachol yn golygu y gall cwmnïau hedfan roi gwybod i Lu'r Ffiniau cyn i'r awyren lanio yn y Deyrnas Unedig.

Byddwn yn darparu arweinyddiaeth newydd i daclo masnachu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Byddwn yn cyflwyno rôl uwch ymroddedig i wneud hyn.

# ATAL: Atal pobl rhag ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol

Bydd llwyddiant yn y cynllun ATAL yn golygu:

- Bydd llai o bobl yn ymwneud â gweithgareddau troseddol difrifol a chyfundrefnol
- Rydym yn lleihau ail-droseddu gan bobl sydd wedi eu collfarnu am droseddau difrifol a chyfundrefnol

Ein hamcanion fydd:

i. Atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol trwy godi ymwybyddiaeth o'r realiti a'r canlyniadau

ii. Defnyddio ymyraethau i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i wahanol fathau o droseddau difrifol a chyfundrefnol

iii. Datblygu technegau i atal pobl rhag parhau i ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol

iv. Sefydlu fframwaith rheoli troseddwyr effeithiol i gefnogi gwaith ar Erlid ac Atal

5.1 Ni fyddwn yn medru ymdrin â bygythiadau o droseddau difrifol a chyfundrefnol trwy ymyrryd ac erlyn yn unig. Yn yr un modd ag y mae angen i ni atal pobl rhag cael eu denu tuag at eithafiaeth a therfysgaeth mae angen i ni atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno rhaglenni Atal am y tro cyntaf ar gyfer troseddau difrifol a chyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr.

## Llwybrau i Droseddau Cyfundrefnol

5.2 Mae ymchwil diweddar gan Brifysgol Caerhirfryn i'r Swyddfa Gartref[53], a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r strategaeth hon, yn rhoi golwg ar gefndir troseddol pobl sydd wedi ymwneud â throseddau cyfundrefnol yn y wlad hon. Gyda'r wybodaeth a ddelir gan luoedd gorfodi'r gyfraith a gwaith ymchwil academaidd arall mae'n sail i'r dull yr ydym wedi ei ddefnyddio yma.

5.3 Ymhlith ei ganfyddiadau, cadarnhaodd yr ymchwil bod 90% o droseddwyr troseddau cyfundrefnol wedi cael cosb droseddol[54] cyn eu trosedd troseddau cyfundrefnol gyntaf, ac ar gyfartaledd eu bod wedi eu cosbi ar naw achlysur. Roedd cyfran uchel o'r troseddwyr troseddau cyfundrefnol (57%) wedi cael eu cosb droseddol gyntaf dan 18 oed. Oedran y bobl a gosbwyd am droseddau cyfundrefnol ar gyfartaledd oedd 32 oed, ac roedd mwyafrif y troseddau cyfundrefnol yn ymwneud â chyffuriau.

53 Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Criminal Careers in Organised Crime* https://www.gov.uk/government/publications/understanding-criminal-careers-in-organised-crime

54 Cosb yw collfarn neu rybudd/cerydd a gofnodir ar gronfa ddata'r PNC

5.4 Ychydig o dystiolaeth a ddangosodd troseddwyr difrifol a chyfundrefnol o fod wedi 'arbenigo' mewn mathau penodol o droseddau; roedd eu hanes troseddol yn cynnwys amrywiaeth o fathau o droseddau.

5.5 Fe wyddom o fapio grwpiau troseddau cyfundrefnol, mewn rhai ardaloedd lleol, bod cudd-wybodaeth cyrff gorfodi'r gyfraith yn nodi bod gorgyffwrdd rhwng gangiau stryd a grwpiau troseddau cyfundrefnol. Gall troseddwyr cyfundrefnol ddefnyddio aelodau o gangiau stryd fel rhan o'u cadwyn gyflenwi, gan gynnwys delio cyffuriau ar y stryd neu gludo cyffuriau o gwmpas y wlad. Gall gangiau stryd geisio ymwneud â gweithgareddau troseddau cyfundrefnol.

5.6 Datgelodd ymchwil[55] ffactorau eraill sy'n rhoi pobl mewn mwy o risg o gael eu tynnu i mewn i droseddau cyfundrefnol. Mae cael teulu neu gysylltiadau cymdeithasol â chysylltiad â throseddau cyfundrefnol a chael dedfryd o garchar (ac agosatrwydd at droseddwyr cyfundrefnol) yn ddwy elfen bwysig.

5.7 Mae'r ymchwil yn tanlinellu heriau a chyfleoedd ar gyfer atal troseddau cyfundrefnol. Nid oes un llwybr amlwg i mewn i droseddau cyfundrefnol fel nad oes un llwybr pendant at droseddau eraill neu derfysgaeth. Ond mae gan nifer sylweddol o'r rhai fu'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol hanes o ymddygiad troseddol cyn i'w 'gyrfa' mewn troseddau cyfundrefnol ddechrau. Mae'r cysylltiad gydag ymwneud â gangiau yn bwysig. Fel y mae teuluoedd a charchardai – fel y maent yn ein gwaith ar Atal a gwrthderfysgaeth.

5.8 Mae'r strategaeth hon hefyd yn ymdrin ag agweddau ar droseddau difrifol nad ydynt yn rhai cyfundrefnol ond sydd angen ymateb cenedlaethol. Yng nghyd-destun Atal un mater allweddol yw camfanteisio rhywiol ar blant ac yn arbennig troseddau seiber. Mae gan y mathau hyn o droseddau eu llwybrau eu hunain yr ydym yn ymdrin â nhw hefyd isod.

55 e.e. Kleemans a de Poot (2008) *Criminal Careers in Organized Crime and Social Opportunity Structure*

### Cyflawni Atal

5.9 Yn yr un modd â gwaith gwrthderfysgaeth Atal, credwn y dylai'r rhan fwyaf o waith Atal ar droseddau difrifol a chyfundrefnol gael ei gyflawni yn lleol. Rydym wedi awgrymu (gweler 4.16) y dylai gwaith cysylltiedig ag Erlid gael ei gydlynu yn rhannol trwy bartneriaeth troseddau cyfundrefnol lleol (naill ai corff newydd neu agenda newydd i gorff sy'n bodoli yn barod). Credwn fod raid i atal troseddau difrifol a chyfundrefnol hefyd fod yn rhan o'u hagenda.

5.10 Dylai gwaith Atal troseddau cyfundrefnol hefyd gael ei gydlynu â gwaith ar atal terfysgaeth. Gall fod yn bosibl i'r un tîm lleol gymryd cyfrifoldeb am y ddau fater mewn rhai ardaloedd. Mewn llawer o ranbarthau bydd y rhaglenni hyn yn gweithredu yn yr un ardal ddaearyddol: mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng y mannau sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer y ddau agenda hyn.

5.11 Bydd cyflawni lleol yn cael cefnogaeth gan Uned Atal Troseddau Cyfundrefnol y Swyddfa Gartref, a fydd yn trefnu cefnogaeth genedlaethol i Atal mewn ardaloedd lleol, a gan yr NCA. Bydd y Swyddfa Gartref yn sefydlu cronfa Atal y gall partneriaethau lleol dynnu arni i gefnogi gwaith a phrosiectau Atal.

## i. Atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol trwy godi ymwybyddiaeth o'r realiti a'r canlyniadau

5.12 Gall rhaglenni addysg a chyfathrebu atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol; herio agweddau at droseddau cyfundrefnol a'r nwyddau anghyfreithlon a ffug y mae'n eu darparu; ac annog cymunedau i roi adroddiadau am droseddau cyfundrefnol a chefnogi gwaith gorfodi'r gyfraith yn eu herbyn.

## Addysg

5.13 Dynododd adolygiad blaenorol o dystiolaeth gan y Swyddfa Gartref[56] ystod eang o ffactorau a all annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn troseddau. Gall rhaglenni cyfathrebu ac addysg gael dylanwad ar bump o'r ffactorau hyn: diffyg gwybodaeth - nid yw pobl ifanc yn adnabod troseddoldeb na'i ganlyniadau; disgwyliadau - gall pobl fod yn gyfarwydd â throseddu a thyfu i'w ddisgwyl; dylanwad negyddol gan gymheiriaid ac absenoldeb modelau rôl positif; ymddygiad digymell peryglus ynghyd â'r angen am wobr faterol ar unwaith a diffyg ffyrdd eraill o'i gael; diffyg amgyffrediad o ddewisiadau eraill.

5.14 Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio ochr yn ochr â'r heddlu a'r NCA gyda grwpiau lleol, fel awdurdodau lleol, ysgolion, gweithwyr ieuenctid a thimau troseddwyr ifanc, i ddatblygu adnoddau addysgol fydd yn esbonio beth yw troseddau cyfundrefnol a helpu pobl ifanc i ddeall canlyniadau ymwneud â hwy. Gall rhai o'r prosiectau a ddatblygwyd i godi ymwybyddiaeth o radicaleiddio gynnig patrwm, yn fwyaf nodedig y prosiect DVD WRAP (Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o Atal) a gyrhaeddodd rhyw 44,000 o bobl.

5.15 Rydym hefyd am weithio gyda sefydliadau elusennol a chymdeithasau sifil, fel Taclo'r Tacle, Cymorth i Ddioddefwyr a NACRO, i ddynodi modelau rôl credadwy, gan gynnwys pobl sydd wedi gadael troseddau cyfundrefnol. Darganfu gwaith a wnaed mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog (fel rhan o ymgyrch troseddau cyllyll y Swyddfa Gartref *'It Doesn't Have to Happen'*) bod defnyddio modelau rôl cadarnhaol yn gallu bod yn offeryn grymus i ddangos dewisiadau eraill i bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.

56 Ed Comms (2009) *Drivers of Crime and Anti-Social Behaviour Among Young People.* Adolygiad tystiolaeth (heb ei gyhoeddi)

## Lleihau galw a gwella'r adroddiadau

5.16 Mae'r Swyddfa Gartref eisoes yn ymroddedig i gefnogi prosiectau cyfathrebu sy'n lleihau'r galw am y nwyddau a ddarperir trwy droseddau cyfundrefnol. Mae'r gwasanaeth cyngor cyffuriau, *'Talk to FRANK'*, yn adlewyrchu ymrwymiad yn Strategaeth Gyffuriau'r llywodraeth[57] ac mae wedi dod yn ffynhonnell yr ymddiriedir ynddi i gael cyngor cytbwys a chredadwy i bobl ifanc. Tynnodd yr ymgyrch Taclo'r Tacle *'Fakes Fund Crime'*[58], sylw yn effeithiol at droseddau cyfundrefnol a nwyddau ffug.

5.17 Dangosodd ymchwil[59] hefyd, pan fydd pobl yn cael help i adnabod troseddau cyfundrefnol a'r niwed difrifol y maent yn ei achosi, eu bod yn fwy tebygol o roi adroddiad amdanynt. Arweiniodd ymgyrch ddiweddar gan Taclo'r Tacle a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref i godi ymwybyddiaeth o rôl troseddau cyfundrefnol â thyfu canabis at gynnydd o 25% mewn adroddiadau gan y cyhoedd ac yn uniongyrchol at arestio ac atafaelu cyffuriau a phlanhigion.

5.18 Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gydag adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector gwirfoddol a chyhoeddus i gydlynu cyfathrebu am droseddau cyfundrefnol.

## Cyhoeddusrwydd am droseddwyr a'u troseddau

5.19 Gall effaith troseddau difrifol a chyfundrefnol a'r canlyniadau i'r rhai sy'n ymwneud â nhw beidio â chael eu mynegi yn llawn. Rhaid i ni gywiro hyn. Byddwn yn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r bobl a gollfarnwyd am droseddau yn ymwneud â throseddau cyfundrefnol a ffotograffau ohonynt, ac o'r asedau sydd wedi cael eu

57 Y Swyddfa Gartref (2010) *Reducing Demand, Restricting Supply, Building Recovery Supporting people to live a drug free Life* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/98026/drug-strategy-2010.pdf

58 Taclo'r Tacle (2013) *Anti-Counterfeiting Campaign Evaluation*

59 Taclo'r Tacle (2013) *Commercial Cannabis Cultivation Campaign Evaluation*




tynnu oddi arnynt. Credwn fod “Operation Challenger”[60] ym Manceinion yn cynnig arfer gorau yn y maes hwn ac rydym yn gwybod bod lluoedd heddlu eraill yn gwneud gwaith tebyg.

## Rhoi gwybod a rhybuddio gweithwyr proffesiynol

5.20 Ni all troseddau cyfundrefnol weithredu heb yr economi gyfreithlon. Bydd troseddwyr yn ceisio gwyngalchu arian trwy’r sector ariannol, neu ddefnyddio gwasanaethau cyfreithwyr neu gyfrifyddion i fuddsoddi mewn eiddo neu i sefydlu busnesau i guddio tu ôl iddyn nhw. Gall nifer fechan o alluogwyr proffesiynol sy’n cydgynllwynio neu yn esgeulus, fel bancwyr, cyfreithwyr a chyfrifyddion weithredu fel porthorion rhwng troseddwyr cyfundrefnol a’r economi gyfreithlon.

60 www.youtube.com/watch?v=3JVAip8eUPE a twitter.com/search?q=%23GMPpayback&src=typd

5.21 Nid ydym yn fodlon eto bod gan waith atal gyda rheoleiddwyr nifer o’r proffesiynau dan sylw ddigon o wybodaeth am droseddau cyfundrefnol cyfoes ac nad ydynt mor gadarn ag y byddem yn ei ddymuno. Byddwn yn gweithio gyda’r llu o sefydliadau sy’n ymwneud â hyn, yn arbennig y Fforwm Goruchwylwyr Gwrth-wyngalchu Arian (sy’n dwyn at ei gilydd oruchwylwyr y sector a reoleiddir[61]) a’r Pwyllgor Ymgynghorol Gwyngalchu Arian, dan gadeiryddiaeth y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EM.

61 Mae’r goruchwylwyr ar y sector a reoleiddir yn cynnwys: Cymdeithasau’r Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, HMRC, Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, Cyngor Cyffredinol y Bar (Cymru a Lloegr), Cyngor Cyffredinol y Bar (Gogledd Iwerddon), Faculty of Advocates (cymdeithas y bar yn yr Alban), Cymdeithas y Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig, Sefydliad y Cyfrifyddion Siartredig, Sefydliad Siartredig y Cyfrifyddion Rheoli, Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddu Cyhoeddus, Sefydliad Siartredig Trethu, y Comisiwn Gamblo, y Gwasanaeth Meth-dalu a Sefydliad y Syrfewyr Siartredig.

5.22 Mae'r Llywodraeth hefyd yn cyflwyno trwyddedu gorfodol ar ymchwilwyr preifat. Bydd trwyddedau yn cael eu cyhoeddi gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch a fydd yn sicrhau na fydd pobl â hanes troseddol sy'n dynodi nad ydynt yn addas ar gyfer y gwaith hwn yn mynd i mewn i'r proffesiwn. Bydd Awdurdod y Diwydiant Diogelwch hefyd yn sicrhau bod ymchwilwyr preifat yn cael hyfforddiant addas ac yn deall y fframwaith cyfreithiol perthnasol er enghraifft, eu cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth diogelu data. Bydd yn drosedd gweithredu heb drwydded. Bydd y drefn newydd yn cael ei chyflwyno o Hydref 2014.


5.23 Mae gweithwyr sector cyhoeddus hefyd mewn perygl o ymwneud â thwyll a llygredd. Yn 2012 datblygodd yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol becyn hyfforddi effeithiol ar sut i weithio yn erbyn twyll a llygredd ar draws llywodraeth genedlaethol, a dosbarthwyd cyfarwyddyd sy'n cynghori llywodraeth leol ar sut i atal twyll i awdurdodau lleol. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant sector cyhoeddus i bennu sut y gall hyfforddiant gwrth-dwyll a gwrthlygredd gael ei ddarparu i bob rhan o'r sector cyhoeddus.

## ii. Defnyddio ymyraethau i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i wahanol fathau o droseddau difrifol a chyfundrefnol

5.24 Rhaid i waith atal troseddau difrifol a chyfundrefnol wneud defnydd gwell o'r ymyraethau sydd gan y llywodraeth ar hyn o bryd a datblygu prosiectau eraill i ymdrin â grwpiau penodol sydd mewn risg arbennig. Mae'r Rhaglen Teuluoedd Cythryblus a'r Rhaglen Dod â Thrais Gangiau ac Ieuenctid i Ben yn bwysig.

### Y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus

5.25 Mae'r rhaglen hon, a lansiwyd yn 2011, yn canolbwyntio ar deuluoedd sydd â nifer o broblemau, sy'n amharu ar y gymuned o'u



cwmpas ac yn golygu costau uchel i'r sector cyhoeddus. Mae'r rhaglen, sy'n bennaf yn cael ei chyflawni gan 152 o awdurdodau lleol haen uchaf a'u partneriaid, yn ymroddedig i helpu 120,000 o deuluoedd cythryblus yn Lloegr i gael trefn ar eu bywydau erbyn 2015.

5.26 Mae dros 80% o'r 30 ardal awdurdod lleol sydd â'r nifer fwyaf o deuluoedd cythryblus hefyd yn ardaloedd y lluoedd heddlu gyda'r lefelau uchaf o droseddau cyfundrefnol. Credwn y gall y rhaglen ymdrin â rhai o'r bobl sydd mewn perygl o droi at droseddau cyfundrefnol a gall teuluoedd perthnasol gael eu cyfeirio pan fydd hynny'n addas.

5.27 Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r Tîm Teuluoedd Cythryblus i ddatblygu tystiolaeth o natur a graddfa'r cyswllt rhwng teuluoedd cythryblus a throseddau cyfundrefnol; monitro'r peirianwaith cyfeirio; cydweithredu ar ymyraethau addas; a

monitro canlyniadau. Ond yn hyn o beth, yn yr un modd â mewn meysydd eraill o Atal, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol gydag arbenigedd lleol arwain a chredwn y gall rheoli'r cyfeiriadau at y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus ac allan ohoni fod yn rôl i bartneriaethau troseddau difrifol a chyfundrefnol (gweler 4.16).

### Y Rhaglen Dod â Thrais Gangiau ac Ieuenctid i Ben

5.28 Bydd atal pobl ifanc rhag ymwneud â gangiau stryd yn lleihau'r risg y byddant yn cymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol.

5.29 Ers 2012 mae'r Rhaglen Dod â Thrais Gangiau ac Ieuenctid i Ben wedi gweithio mewn 33 o ardaloedd lleol sy'n cael blaenoriaeth, gyda chefnogaeth rhwydwaith o tua 70 o gynghorwyr gyda phrofiad o ymdrin â gangiau a throseddau ieuenctid. Mae'r rhaglen yn cynnwys athrawon lleol, staff Canolfan Byd Gwaith, gweithwyr iechyd a diogelu proffesiynol, yn ogystal â'r heddlu, timau troseddwyr ifanc a grwpiau cymunedol. Mae'r rhaglen hefyd yn ymdrin â chamfanteisio rhywiol ar ferched a menywod ifanc gan gangiau stryd. Cyhoeddir asesiad o'r rhaglen yn ddiweddarach eleni.

5.30 Bydd y Swyddfa Gartref yn ychwanegu pobl sydd â phrofiad o ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol at y rhwydwaith o gynghorwyr ar y rhaglen hon, i gynnig gair o brofiad ar sut i ganfod a gweithio gyda phobl ifanc unigol sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Dylai'r rhaglen gang hon hefyd fod ar yr agenda ar gyfer partneriaethau troseddau cyfundrefnol lleol (gweler 4.16).

### Atal Camfanteisio Rhywiol ar Blant

5.31 Gall cam-drin rhywiol a chamfanteisio rhywiol ar blant fod ar nifer o wahanol ffurfiau ac nid yw'n gyfyngedig i unrhyw ddiwylliant neu gymuned unigol. Mae'r heddlu yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddynodi, nid yn unig y rhai sydd mewn perygl oherwydd cam-fanteisio a cham-drin ond hefyd y bobl hynny, wedi eu collfarnu neu beidio, a all fod yn risg i blant a phobl ifanc fregus.

5.32 Byddwn yn parhau i weithio gydag arweinwyr cymunedol i gefnogi negeseuon i droseddwyr a darpar droseddwyr nad yw cam-drin a cham-fanteisio ar blant yn cael eu goddef yn unrhyw ddiwylliant, ffydd na chred. Bydd y Grŵp Cenedlaethol Trais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl Fregus (SVACV)[62] yn sicrhau bod astudiaethau achos a gwersi a ddysgwyd o weithrediadau'r heddlu ac achosion llys ar gael i asiantaethau gorfodi'r gyfraith fel bod ganddynt y ddealltwriaeth fwyaf cyfredol o batrymau troseddu.



5.33 Galwodd araith y Prif Weinidog ar 22 Gorffennaf 2013 am gam-drin plant ar-lein ar y prif beiriannau chwilio rhyngrwyd (Google a Microsoft) i wneud mwy i ymdrin â hygyrchedd delweddau o gam-drin plant trwy'r rhyngrwyd, gan adeiladu ar y gwaith pwysig y maent eisoes yn ei wneud wrth ddynodi a chael gwared ar ddelweddau anweddus o blant. Bwriadwyd llawer o hyn i'w gwneud yn anos i bedoffiliaid gael

62 Panel o arbenigwyr a llunwyr polisi a ddygwyd at ei gilydd gan y Swyddfa Gartref i roi cefnogaeth fwy effeithiol i ddioddefwyr camfanteisio rhywiol a sefydlwyd yn Ebrill 2013 https://www.gov.uk/government/speeches/national-group-on-sexual-violence-against-children-and-vulnerable-people

mynediad at ddelweddau o'r fath gan roi negeseuon ataliol iddyn nhw pan fyddant yn ceisio eu gweld (gweler 5.38-5.39). Ond mae hefyd yn cynnwys camau i ymdrin â throseddwyr ar hap allai gael eu tynnu i mewn i gamfanteisio ar blant yn rhywiol.

5.34 Mae Rheolaeth CEOP o'r NCA yn gweithio gyda'r diwydiant rhyngrwyd a sefydliadau anllywodraethol i atal unigolion rhag ceisio canfod a gweld delweddau anweddus o blant ar-lein. Nod y gwaith hwn yw cyfeirio darpar droseddwyr hefyd at gefnogaeth a chynghori i'w hatal rhag troseddu yn y dyfodol.

## iii. Datblygu technegau i atal pobl rhag parhau i ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol

5.35 Lle bynnag y gallwn, byddwn yn erlyn y rhai sy'n ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Ond pan na fyddwn yn gallu, byddwn yn ceisio atal ac amharu ar ymwneud â throseddau cyfundrefnol gydag ystod eang o ymyraethau sydd yn cyd-fynd ag ymchwiliadau troseddol, a phan fydd hynny'n addas, yn cynnig dewis arall effeithiol iddynt. Mae'r ymyraethau hyn yn berthnasol i ran Erlid y strategaeth hon (oherwydd eu bod yn amharu ar droseddau cyfundrefnol) a'r rhaglen Atal (gan y dylent hefyd ddarbwyllo pobl i beidio ail ymwneud â throsedd).

5.36 Mae ystod o ymyraethau eisoes yn cael eu defnyddio gan gynnwys: Gorchmynion Adrodd Ariannol; Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol; Gorchmynion Cyfyngu ar Deithio; Gorchmynion Datgymhwyso Cyfarwyddwyr; a Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Mae amodau trwydded yn rhan bwysig o'r pecyn offer yma: maent yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr sy'n gadael y carchar ar ôl y rhan o'u dedfryd yn y ddalfa i ddilyn rhai gofynion ar sail asesiad o achos i achos o risg.

5.37 Cynyddodd y defnydd o'r ymyraethau hyn dros y blynyddoedd diweddar, ond gall gorfodi'r gyfraith wneud mwy o ddefnydd ohonynt. Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r NCA, arweinwyr gorfodi'r gyfraith a'r Coleg Plismona i gefnogi swyddogion gorfodi'r gyfraith i geisio gwaharddebau a gorchmynion ategol i amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol.

5.38 Bydd ffurfiau newydd ar droseddau economaidd a seiber yn gofyn am ffurfiau newydd o ddulliau atal. Gall gweithgaredd i ddwyn dylanwad, fel llythyrau rhybuddio gan gyrff gorfodi'r gyfraith at unigolion y mae eu hymddygiad yn awgrymu y gallant fod yn ymwneud â gweithgaredd troseddol, fod yn effeithiol. Fe wnaeth prosiect Tradebrige Heddlu Dinas Llundain ddwyn cyrff gorfodi'r gyfraith a diwydiant at ei gilydd i dargedu grwpiau troseddol oedd yn ymwneud â dwyn digidol. Anfonodd Heddlu Dinas Llundain rybuddion 'stopio ac ymwrthod' at bobl oedd yn ceisio defnyddio gwefannau anghyfreithlon sy'n torri hawlfraint cerddoriaeth. Rydym yn awyddus i weld mwy o gynlluniau o'r math hwn. Bydd Uned Troseddau Seiber Cenedlaethol yr NCA yn cyhoeddi e-byst i rybuddio pobl sydd wedi cofrestru diddordeb mewn gwefan droseddol (e.e. gwefannau lle gellir prynu a gwerthu manylion cardiau credyd wedi eu dwyn).

5.39 Mae trefniadau yn bodoli'n barod trwy'r Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF) i safleoedd sy'n cynnwys delweddau anghyfreithlon i gael eu tynnu oddi ar y we neu eu hatal; mae 'tudalennau sblash' (negeseuon rhybuddio sy'n ymddangos yn lle'r gwefannau a ataliwyd) yn awr yn eu lle i gyflwyno neges gref i unrhyw un sy'n ceisio cael mynediad at un o'r tudalennau hyn. Mae rôl yr IWF yn cael ei ehangu, felly yn ogystal â derbyn adroddiadau am ddelweddau o gam-drin plant, fe fyddant hefyd yn medru mynd ati yn rhagweithiol i chwilio am y delweddau hyn.

## iv. Sefydlu fframwaith rheoli troseddwyr effeithiol i gefnogi gwaith ar Erlid ac Atal

5.40 Mae Rheoli gydol oes yn system i asesu'r bygythiad gan unigolyn sydd wedi bod yn ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol yn barhaus, cyn ac ar ôl unrhyw gollfarn. Mae rheoli gydol oes effeithiol yn dynodi ymyraethau sy'n addas ar gyfer pobl benodol ac a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar dorri nifer y troseddau a lleihau aildroseddu. Mae'n cynnwys, ond yn mynd yn llawer pellach na systemau eraill sy'n rheoli troseddwr ar ôl collfarn yn unig trwy gydol ei amodau trwydded[63]; gellir defnyddio rheoli gydol oes cyn ac ar ôl collfarn ac am gyhyd ag y bydd yr unigolyn yn cael ei ystyried yn fygythiad. Mae rheoli gydol oes felly yn fframwaith ar gyfer Erlid ac Atal.

5.41 Cyfrifoldeb y llu heddlu lleol, ROCU, neu Reolaeth yr NCA sy'n arwain ar yr unigolyn dan sylw yw rheoli gydol oes. Ym mhob achos bydd yr NCA yn asesu'r risg y mae unigolion neu grwpiau yn ei chreu. Bydd y dull cyffredinol yn cael ei gydlynu trwy Grŵp Bygythiad Carchardai a Rheoli Gydol Oes yr NCA, a bydd yr holl bartneriaid allweddol yn cael eu cynrychioli yno. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar wella rhannu gwybodaeth rhwng cyrff gorfodi'r gyfraith a'r partneriaid ehangach.



5.42 Bydd yn neilltuol o bwysig rheoli symudiad troseddwyr difrifol a chyfundrefnol trwy'r system cyfiawnder troseddol. Bydd yr Heddlu a'r NCA yn rhannu mwy o fanylion am bobl a gollfarnwyd o droseddau yn gysylltiedig â throseddau difrifol a chyfundrefnol gyda'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) a'r risg y maent yn ei chreu yn y carchar ac ar brawf a bydd yn gweithio gyda NOMS i reoli'r risg barhaus yn weithredol. Ar sail sgorio a chudd-wybodaeth yn y gorffennol, bydd cyrff gorfodi'r gyfraith yn dynodi'r targedau ddylai gael blaenoriaeth i'w monitro yn barhaus. Bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau yn cael sgôr risg a'u gosod yn nhrefn blaenoriaeth i sicrhau bod eu dychweliad i'r gymuned yn cael ei reoli, gyda'r heddlu a'r NCA yn gweithio'n glos gyda darparwyr gwasanaethau prawf a threfniadau Rheoli Troseddwyr Integredig[64] lleol, pan fydd hynny'n addas.

---

63 Mae'r Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaethol (MAPPA) a Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) yn gofyn i asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrff eraill sy'n ymdrin â throseddwyr weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i reoli troseddwyr. Am ragor o wybodaeth gweler http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/mappa/mappa-guidance-2012-part1.pdf

64 Mae Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) yn ddull lleihau troseddu ar sail partneriaeth sy'n anelu at gael yr effaith mwyaf trwy ymdrin â throseddwyr sy'n cyflawni'r nifer fwyaf o droseddau mewn ardal leol, neu y mae eu troseddu yn achosi mwyaf o niwed i'r gymuned leol.

# DIOGELU: Cynyddu'r diogelwch rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol

Bydd llwyddiant DIOGELU yn golygu:

- Ein bod yn lleihau'r graddau yr ydym yn agored i ddioddef troseddau difrifol a chyfundrefnol, ar draws y llywodraeth a'r sectorau preifat ac ymhlith y cyhoedd.

Ein hamcanion fydd:

i. Diogelu ein ffiniau rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol

ii. Diogelu llywodraeth genedlaethol a lleol rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol

iii. Gwella diogelwch amddiffyn yn y sector preifat trwy rannu cudd-wybodaeth am fygythiadau gan droseddau difrifol a chyfundrefnol

iv. Diogelu pobl sydd mewn risg o fynd yn ddioddefwyr troseddau difrifol a chyfundrefnol

v. Gwella ein systemau gwrthweithio llygredd

vi. Cryfhau systemau ar gyfer canfod pwy yw unigolion fel na fydd troseddwyr difrifol a chyfundrefnol yn cael cyfle i fanteisio ar ddata personol ffug neu wedi ei ddwyn

6.1 Diben yr elfennau Erlid ac Atal o'r strategaeth hon yw lleihau'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu o droseddau difrifol a chyfundrefnol. Diben Diogelu a Pharatoi yw lleihau pa mor agored ydym i niwed. Mae hyn yn gofyn am set o raglenni hollol wahanol ond cysylltiedig, llawer ohonynt yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan SOCA, yr heddlu a sefydliadau eraill.

6.2 Mae ein gwneud yn llai agored i niwed yn golygu cynyddu diogelwch i ddiogelu ar draws y stadau cyhoeddus. Ond mae hefyd yn golygu cynnig cymaint o gyngor ag y gallwn i'r sector preifat sy'n cael ei dargedu gan droseddau difrifol a chyfundrefnol, yn fwyaf arbennig trwy dwyll trwy gyfrwng cyfryngau seiber ac yn gynyddol, trwy droseddau seiber. Mae'r sector ariannol yn arbennig o bwysig. Rhaid i ni hefyd roi cyngor effeithiol i'r cyhoedd. Mae hyn o bwys pan fydd offer a thechnegau seiber (yn benodol yng nghyswllt ymdrechion i dwyllo) yn galluogi troseddwyr cyfundrefnol i gyrraedd nifer lawer mwy o bobl yn llawer cyflymach nag erioed o'r blaen.

6.3 Mae llygredd yn un o offer troseddau cyfundrefnol. Mae gan y Deyrnas Unedig record dda o ymdrin â'r her hon. Ond ni allwn fforddio bod yn hunanfodlon ac rydym wedi nodi gwaith penodol i ymdrin â llygredd yn y strategaeth hon (gweler 6.34-6.44).

6.4 Yn ôl arolwg a gynhaliwyd ar gyfer y Dangosydd Twyll Blynyddol (AFI) 2013 roedd 9% o oedolion y Deyrnas Unedig wedi dioddef lladrad hunaniaeth yn 2012[65]; mae

65 Yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol (2013) *Annual Fraud Indicator* www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/206552/nfa-annual-fraud-indicator-2013.pdf

troseddwyr cyfundrefnol yn arbennig yn defnyddio hunaniaethau wedi eu dwyn. Bydd diogelu hunaniaeth yn well yn ein gwneud yn llai agored i niwed ac yn ei gwneud yn anos troseddu.

## i. Diogelu ein ffiniau rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol



6.5 Mae gweithrediadau ar ffiniau yn gymhleth, yn cael llawer o sylw ac yn rhai lle mae'r risg yn uchel: mae dros 100 miliwn o bobl yn cyrraedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn trwy 139 o fynedfeydd; ac yn 2011 fe wnaeth staff Llu'r Ffiniau atafaelu 4 tunnell o gyffuriau dosbarth A, 455 miliwn o sigaréts a miloedd o arfau ymosodol. Yn flynyddol mae dros £570 biliwn o fasnach ryngwladol ar draws y ffiniau yn creu £34 biliwn o dollau a refeniw TAW.

6.6 Mewn man arall yn y strategaeth hon (gweler 4.19-4.23) rydym wedi nodi sut y mae strwythurau a chyfrifoldebau ar y ffiniau wedi newid, gyda ffurfio'r Rheolaeth Plismona Ffiniau yn yr NCA, a'r gyfarwyddiaeth Llu'r Ffin a Gorfodi Mewnfudo yn y Swyddfa Gartref.

6.7 Mae diogelwch ffiniau effeithiol yn dibynnu'n drwm ar ddata teithwyr a llwythi. Mae angen i ni wella'r modd yr ydym yn casglu data a'n gallu i'w ddadansoddi i adnabod teithwyr a chanfod nwyddau a all beri pryder yn effeithiol. Bydd Llu'r Ffiniau yn gweithio gyda chludwyr a phartneriaid masnachol eraill i gynyddu cynnwys, prydlondeb a chywirdeb gwybodaeth am deithwyr a nwyddau. Bydd Llu'r Ffiniau yn diweddaru ac yna yn disodli'r System Mynegai Rhybuddion, y gronfa ddata ganolog sy'n cynnwys manylion am droseddwyr cyfundrefnol nad ydym am eu gweld yn y wlad hon. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer staff Llu'r Ffiniau rheng flaen sy'n gweithredu ar y Mynegai Rhybuddion hefyd yn cael eu gwella. Bydd ymrwymiad y Llywodraeth i gyflwyno gwiriadau gadael hefyd yn cynyddu ein gallu i atal troseddwyr rhag croesi'r ffin.

6.8 Mae grwpiau o droseddwyr cyfundrefnol yn ceisio smyglo nwyddau anghyfreithlon a pheryglus fel cyffuriau ac arfau i'r wlad trwy lwythi mawr, gwasanaethau parsel cyflym a thrwy deithwyr, eu cerbydau a'u paciau. Bydd yr NCA a Llu'r Ffiniau yn gwella rhannu cudd-wybodaeth gyda'r diwydiant parseli cyflym, yn chwilio am gyfleoedd yn uwch i fyny i weithredu yn erbyn parseli cyn iddyn nhw gyrraedd y ffin, a chynnal mwy o weithrediadau ar sail cudd-wybodaeth yn erbyn parseli sy'n dod i mewn dros y ffin.

6.9 Rydym wedi dweud o'r blaen[66] bod angen i ni ddatblygu cydweithio mwy clos rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n ymdrin â gwrthderfysgaeth a throseddau cyfundrefnol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar y ffin lle maent yn aml yn ymdrin â phroblemau cyffredin. Fe welwyd cynnydd yn barod o ran rhannu gallu ac asesiadau.

## ii. Diogelu llywodraeth genedlaethol a lleol rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol

6.10 Rhai o'r targedau mwyaf deniadol o ran twyll yn erbyn y llywodraeth yw ein systemau treth a budd-daliadau cymhleth, yn arbennig Credyd Cynhwysol, a fydd yn cyfuno nifer o fudd-daliadau yn un taliad misol sengl i gyfrif

66 Llywodraeth EM (2010) *Securing Britain in an Age of Uncertainty: The Strategic Defence and Security Review* https://www.gov.uk/government/publications/the-strategic-defence-and-security-review-securing-britain-in-an-age-of-uncertainty

banc yr hawlydd, ar sail proses ymgeisio ar-lein. Mae twyllwyr hefyd yn ceisio herwgipio neu brynu hunaniaeth hawlwyr neu greu busnesau ffug i wneud hawliadau ad-dalu ffug am Dreth Incwm neu drethi eraill.

6.11 Sefydlodd HMRC unedau diogelwch seiber a throseddau seiber penodol. Mae'r Adran Busnes, Blaengaredd a Sgiliau (BIS) a Phencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ) yn gweithio i gytuno ar safonau sefydliadol newydd i lywodraeth ar gynnyrch a gwasanaethau diogelwch seiber.

6.12 Sefydlwyd Tasglu Twyll, Camgymeriad a Dyled y Llywodraeth yn 2011 i gynnig cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth ar gynlluniau trawslywodraethol i arbed arian y trethdalwyr trwy ymdrin â thwyll a chamgymeriadau a gwella'r modd y cesglir dyledion. Eisoes mae colledion sylweddol wedi cael eu hatal yn HMRC a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Yn fuan bydd y Tasglu yn cymryd cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Gwirio Gwrth Dwyll, a fydd yn dwyn at ei gilydd ddata am dwyll y gwyddys amdano o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat (gan gynnwys adrannau'r llywodraeth fel y DWP a HMRC a'r prif yswirwyr a banciau). Bydd y rhai sy'n cymryd rhan o'r sector preifat a chyhoeddus yn defnyddio'r gronfa ddata hon i wirio ymgeiswyr newydd am fudd-daliadau a gwasanaethau.

6.13 Bu Cynllun Twyll Cenedlaethol y Comisiwn Archwilio yn gyfrifol am ddynodi £1 biliwn o dwyll a chamgymeriadau ers iddo gychwyn ar ei waith yn 1996 trwy gyfateb setiau data o fewn a rhwng dros 1,300 o gyrff sector cyhoeddus a phreifat. Bydd y tasglu Twyll, Camgymeriadau a Dyled yn Swyddfa'r Cabinet yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Twyll Cenedlaethol ar adeg addas pan fydd y ddeddfwriaeth i ddileu'r Comisiwn Archwilio yn ei lle.

6.14 Mae caffael cyhoeddus hefyd mewn sefyllfa fregus oherwydd y cyfleoedd niferus i dwyllo (gosod prisiau, rigio bid, anfonebu dyblyg, dargyfeirio taliadau a darparu nwyddau o ansawdd is). Amcangyfrifodd y Cynllun Gwrth Dwyll 2013 bod £2.3 biliwn o dwyll yn cael ei weithredu yn erbyn caffael yn y sector cyhoeddus allan o gyfanswm blynyddol o £227 biliwn. Rydym yn arbennig o bryderus am droseddwyr cyfundrefnol yn cyflwyno tendrau am gontractau sector cyhoeddus, gan gynnwys trwy ddefnyddio cwmnïau i roi wyneb parchus ar eu gweithrediadau. Byddwn yn gweithredu cyfarwyddeb caffael cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd wedi ei moderneiddio trwy ddeddfwriaeth eilaidd ar wahân i sicrhau bod gwiriadau a rheolaeth addas yn y broses gaffael sector cyhoeddus i gau cwmnïau sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol allan.

6.15 Rydym am sicrhau bod cyrff perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu'r craffu ar sectorau 'mewn perygl' a bod proses brydlon ac effeithiol yn bodoli i rannu cudd-wybodaeth rhwng awdurdodau cyhoeddus, yr NCA a phlismona. Credwn y gall hon fod yn rôl newydd bwysig arall i'r byrddau partneriaethau troseddau cyfundrefnol lleol newydd, yr ydym wedi eu trafod dan Erlid ac Atal (gweler 4.17).

## iii. Gwella diogelwch amddiffyn yn y sector preifat trwy rannu cudd-wybodaeth a dadansoddiadau am fygythiadau gan droseddau difrifol a chyfundrefnol

6.16 Yn y broses ymgynghori sydd wedi bod yn sail i'r strategaeth hon, mae cynrychiolwyr o'r sector preifat wedi dangos yn glir ei bod yn bwysig i asiantaethau'r llywodraeth rannu cudd-wybodaeth a dadansoddiadau am fygythiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae hyn bwysicaf yng nghyswllt twyll, twyll y mae'r we yn ei hwyluso a throseddau seiber. Fe welwyd cynnydd ond rydym yn deall bod ar y sector preifat angen eglurder llwyr o ran yr hyn y gallan nhw ei ddisgwyl ac o ble.

6.17 Trwy ddefnyddio cudd-wybodaeth o nifer o ffynonellau, bydd yr NCA yn dynodi



grwpiau cyfundrefnol sy'n cyflawni troseddau economaidd, a phan fydd hynny'n addas, yn rhannu gwybodaeth gyda'r sector preifat er mwyn iddyn nhw fedru gweithredu. Bydd yr NCA yn gweithio yn uniongyrchol gyda'r sector preifat i gynghori sut y dylent ddiogelu eu systemau a'u prosesau rhag troseddau seiber a thwyll. Bydd data penodol ar ffugwyr hysbys yn cael ei rannu gyda'r sector preifat trwy'r Gwasanaeth Gwirio Gwrth Dwyll.


6.18 Ym Medi 2013, sefydlodd Heddlu Dinas Llundain uned newydd i ymdrin â lladrad ar-lein a ffurfiau eraill o droseddau eiddo deallusol, gyda chefnogaeth y Swyddfa Eiddo Deallusol. Bydd yr uned hon hefyd yn gweithio gyda'r sector preifat. Mae unedau tebyg eisoes yn eu lle ar gyfer twyll cardiau credyd a siec (yr Uned Troseddau Siec a Phlastig Ddynodedig[67], sy'n cynnwys swyddogion o Heddlu Metropolitan a Dinas Llundain, ac wedi'i ariannu'n llawn gan y diwydiant bancio), a thwyll yswiriant (yr Uned Gorfodi Twyll Yswiriant, sy'n cynnwys swyddfeydd Heddlu Dinas Llundain, ac wedi ei ariannu gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain).

6.19 Ers 2009 mae'r Awdurdod Twyll Cenedlaethol wedi datblygu Gweithredu Twyll fel yr un llwybr i'r sector preifat a'r cyhoedd i roi adroddiad am droseddau seiber ac ariannol. Mae Gweithredu Twyll yn trosglwyddo'r adroddiadau i'r Swyddfa Cudd-wybodaeth Twyll Genedlaethol (NFIB) i'w dadansoddi a'u dosbarthu i luoedd heddlu neu i'r NCA fel cudd-wybodaeth y gellir gweithredu arni. Rheolir NFIB gan Heddlu Dinas Llundain.

6.20 Rhaid i Gweithredu Twyll a'r NFIB wella integreiddio eu gallu i dderbyn a dadansoddi troseddau seiber ac ariannol y maent yn cael adroddiadau amdanynt, gan gynnwys cynnig mwy o adborth i'r sector preifat. Mae rhaglen ar y gweill i ymdrin â hyn. Pan fydd y twyll neu droseddau seiber y rhoddir adroddiad amdanynt yn dangos tystiolaeth o droseddau cyfundrefnol bydd yr NCA hefyd yn ymwneud â'r achos.

6.21 Dan reoliadau AML, mae'n ofynnol i'r sector a reoleiddir roi adroddiadau am drafodion ariannol amheus i SOCA i'w hymchwilio – fe roddir rhyw 200,000 o adroddiadau o'r fath bob blwyddyn. Maent yn cynrychioli ffynhonnell gyfoethog o gudd-wybodaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac ar gyfer y sector ehangach sy'n cael ei reoleiddio. Bydd yr NCA yn gwella'r dadansoddi ar yr adroddiadau hyn fel bod cudd-wybodaeth wedi ei thargedu'n well ac yn fwy penodol i sector yn cael ei rhoi i'r sector preifat ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill.

[67] Amcangyfrifodd yr Uned Troseddau Sieciau a Phlastig Ddynodedig (DCPCU) bod ei gwaith wedi atal £65m mewn colledion trwy dwyll yn ystod ei blwyddyn o gynllun peilot. http://www.financialfraudaction.org.uk/Police-The-dcpcu.asp




6.22 Gellir atal y rhan fwyaf o droseddau seiber trwy ddiogelwch da a chamau sicrhau gwybodaeth, ond rhaid i gamau diogelu rhag troseddau seiber gael eu cryfhau ym mhob sector ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn dibynnu hefyd ar rannu cudd-wybodaeth am fygythiadau seiber, cyngor hawdd ei gael ar ba gamau diogelu i’w cymryd a chydweithio clos rhwng y llywodraeth, y darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd, busnesau a’r cyhoedd.

6.23 Ym Medi 2012 cyhoeddodd BIS, y Ganolfan ar gyfer Diogelu Isadeiledd Cenedlaethol a GCHQ y Llyfryn Cyfarwyddyd Diogelwch Seiber i Fusnesau[68] (‘y Deg Cam’), sy’n cynnig rheoli risg a chyfarwyddyd technegol i fusnesau mwy. Yn Ebrill 2013, gan ddefnyddio’r ‘Deg Cam’, cyhoeddodd BIS y Cyfarwyddyd Diogelwch Seiber i Fusnesau Bach[69], ac yna yng Ngorffennaf 2013 lansiwyd Gwiriad Iechyd Seiber Lywodraethu, sy’n cael cefnogaeth o’r gymuned archwilio i

68 Yr Adran Busnes, Blaengaredd a Sgiliau (2012) www.gov.uk/government/publications/cyber-risk-management-a-board-level-responsibility.

69 Yr Adran Busnes, Blaengaredd a Sgiliau (2013) *Small Business Cyber Security Guidance* www.gov.uk/government/publications/cyber-security-what-small-businesses-need-to-know

helpu cwmnïau FTSE350 i ddynodi ac asesu pa mor fregus ydyn nhw.

6.24 Y Bartneriaeth Rhannu Gwybodaeth Diogelwch Seiber newydd (CISP), a lansiwyd ym Mawrth 2013, fydd y prif fforwm i'r llywodraeth hwyluso rhannu gwybodaeth gyfredol gyda'r sector preifat ar fygythiadau a gwendidau seiber. Rheolir CISP gan Swyddfa'r Cabinet a bydd yn dod yn rhan o Dîm Ymateb Argyfwng Cyfrifiadurol y Deyrnas Unedig (CERT-UK) yn 2014 (gweler 7.5). Mae hefyd yn gartref i Gell Ymasiad gan gynnwys dadansoddwyr o'r cymunedau diwydiant, gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth.

6.25 Mae GCHQ yn gweithio gyda diwydiant, y byd academaidd a sefydliadau eraill y llywodraeth ar brosiectau eraill cysylltiedig:

- y cynllun Sicrwydd Cynnyrch Masnachol (CPA) a lansiwyd i ardystio cynnyrch diogelwch seiber sydd ar gael yn fasnachol i'w defnyddio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Disgwylir i'r cynnyrch cyntaf ar ôl y peilot gael eu hardystio yn Hydref 2013 a bydd mwy yn dilyn yn 2014[70];
- Mae GCHQ yn ehangu ei allu i Sicrhau Ansawdd i gynnwys ystod eang o wasanaethau diogelwch/TGC a gwasanaethau seiber wedi eu teilwrio. Mae nifer o ddarparwyr ymateb i ddigwyddiadau seiber yn cael eu hardystio i gynnig gwasanaethau glanhau i sefydliadau sector preifat a chyhoeddus sydd wedi dioddef ymosodiad seiber. Rhagwelir y bydd rhagor o ehangu yn 2014 i gynnwys ardystio gwasanaethau monitro diogelwch seiber[71]; a
- mae cynllun Gweithiwr Proffesiynol Ardystiedig CESG (CCP) ar y llwybr cywir i ardystio dros 800 o weithwyr proffesiynol diogelwch seiber yn y sector preifat a'i gadwyn gyflenwi erbyn yn gynnar yn 2014. Mae mynediad i'r cynllun yn awr yn cael ei ymestyn i unrhyw weithiwr proffesiynol seiber ddiogelwch sy'n byw yn y Deyrnas Unedig er budd economi ehangach y Deyrnas Unedig. Bydd ardystio hyfforddiant diogelwch seiber a chyrsiau addysg uwch yn cychwyn yn 2014 fel rhan o'r ymgyrch tymor hir i adeiladu ar y proffesiwn diogelwch seiber[72].

## iv. Diogelu pobl sydd mewn risg o fynd yn ddioddefwyr troseddau difrifol a chyfundrefnol

6.26 Y cyhoedd sydd fwyaf tebygol o fod yn ddioddefwyr uniongyrchol i droseddau difrifol a chyfundrefnol trwy dwyll (boed ar-lein neu fel arall), troseddau seiber ac wynebu cynnwys anghyfreithlon neu sy'n peri tramgwydd ar-lein.

6.27 Tybir bod twyll yn erbyn y cyhoedd yn costio tua £9 biliwn y flwyddyn, gyda'r prif golledion a amcangyfrifir yn dod trwy dwyll marchnata eang iawn (£3.5 biliwn), twyll hunaniaeth (£3.3 biliwn), twyll tocynnau ar-lein (£1.5 biliwn) a thwyll eiddo preifat ar rent (£755 miliwn)[73].

6.28 Yn yr un modd â'r sector preifat, mae'r cyhoedd yn dibynnu ar Gweithredu Twyll ac NFIB i roi adroddiadau am dwyll a throseddau ariannol ar-lein, a rhoi gwybodaeth ar sut y mae ymchwiliad yn mynd ymlaen a pha lu heddlu sy'n arwain. Mae cynllun ar y gweill i Gweithredu Twyll (gweler 6.19) wella'r gwasanaeth hwn. Bydd Gweithredu Twyll a NFIB yn rhoi rhagor o wybodaeth ar eu gwefannau ar dueddiadau mewn twyll a

70 http://www.cesg.gov.uk/servicecatalogue/CPA/Pages/CPA.aspx

71 http://www.cesg.gov.uk/ServiceCatalogue/cir/Pages/Cyber-Incident-Response.aspx

72 Am wybodaeth am gynllun Gweithwyr Proffesiynol Ardystiedig CESG, gweler http://www.cesg.gov.uk/News/Pages/New-IA-Certification-pages.aspx

73 Yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol (2013) *Annual Fraud Indicator* www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/206552/nfa-annual-fraud-indicator-2013.pdf


thwyllwyr hysbys[74]; mae'r FCA[75] eisoes yn cyhoeddi manylion cwmnïau nad oes ganddynt ganiatâd i gynnig gwasanaethau ariannol.

6.29 Cynhaliodd y Swyddfa Gartref ddwy ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus bwysig, *'Get Safe Online'* a *'The Devil's in Your Details'*[76], a fwriadwyd i roi cyngor ar ddiogelu data personol a chorfforaethol. Bydd y Swyddfa Gartref yn lansio ymgyrch fawr bwysig yn 2013/14 i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fygythiadau ar-lein, gwella diogelwch, helpu i leihau colledion economaidd o droseddau seiber a chynyddu hyder mewn busnes ar-lein.

6.30 Yng nghyswllt bygythiadau seiber, mae darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r llywodraeth i gytuno pa wybodaeth fydd yn cael ei darparu i gwsmeriaid am fygythiadau seiber. Bydd hyn yn cynnwys deunyddiau briffio a chyngor ar atebion o ran diogelwch, dull o roi adroddiad ar ymosodiadau, lliniaru risg yn effeithiol a gweithdrefn hysbysu pan fyddant yn dod i wybod y gall cyfrifiadur neu gyfrif cwsmer fod dan ymosodiad.

### Diogelu plant ac atal delweddau o gam-drin plant

6.31 Mae CEOP wedi addysgu plant a phobl ifanc am eu hymddygiad ar-lein, yr 'ôl traed digidol' y maent yn eu gadael, a'r risgiau y maent yn eu hwynebu ar-lein. Datblygodd CEOP raglen addysgol benodol – dan yr enw *'ThinkuKnow'* – i ymdrin â'r materion hyn, sy'n cynnwys ffilmiau addysgol a chartwnau, pecynnau athrawon ac adnoddau ar-lein eraill i'w defnyddio gyda phlant 4-18 oed. Yn 2012/13, fe welodd dros 2.6 miliwn o blant y cynnyrch *'ThinkuKnow'* ac fe hyfforddwyd dros 800 o weithwyr proffesiynol yn y proffesiynau addysg, diogelu plant a gorfodi'r gyfraith gan CEOP i addysgu plant am ddiogelwch ar-lein. Rydym am ddatblygu'r rhaglen *'ThinkuKnow'* yr ydym yn ei hystyried yn fodel o'i bath.



6.32 Yn ddiweddarach eleni bydd Rheolaeth CEOP yr NCA yn lansio ffilm addysgol newydd '*Exploited*' sy'n addysgu pobl ifanc am berthynas lle bydd cam-fanteisio a bydd yn ail lansio'r wefan '*ThinkuKnow*' i rai yn eu harddegau. Bydd y Rheolaeth yn parhau i addysgu gweithwyr proffesiynol trwy'r rhaglen '*ThinkuKnow Ambassador*' ac mae'n datblygu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar ymchwilio i gam-drin plant ar-lein.

6.33 Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda SVACV (gweler 5.32) i hybu eu hymgyrch '*Say something if you see something*' sy'n rhoi deunyddiau'r ymgyrch fel posteri a thaflenni i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio rhywiol ar blant mewn sectorau penodol (er enghraifft, y sector gwestai) ymhlith y cyhoedd ac ymarferwyr.

## v. Gwella ein systemau gwrthweithio llygredd

6.34 Mae troseddwyr difrifol a chyfundrefnol yn defnyddio llwgrwobrwyo a llygredd i osgoi cael eu harestio a'u herlyn, i gyflawni troseddau ac, yn benodol, i wyngalchu'r elw ariannol. Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn amcangyfrif bod canran sylweddol o grwpiau troseddu cyfundrefnol yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â llwgrwobrwyo a llygredd.

74 http://www.cityoflondon.police.uk/CityPolice/Departments/ECD/NFIB/

75 http://www.fca.org.uk/

76 Cynhaliwyd gan yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol

6.35 Dengys asesiadau bygythiadau bod troseddwyr a grwpiau cyfundrefnol yn ceisio llunio perthynas lwgr mewn meysydd lle byddant yn gweld y risg neu'r cyfle mwyaf. Mae'r targedau yn cynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith, llywodraeth ac awdurdodau lleol, a'r sector preifat. Bydd troseddwyr cyfundrefnol yn targedu asiantaethau gorfodi'r gyfraith a ffiniau ac yn ceisio datblygu perthynas lwgr â'r llywodraeth ac awdurdodau lleol i gael mynediad at ddata, hwyluso hawliadau am fudd-daliadau a sicrhau contractau cyhoeddus. Targedir y sector preifat, y sector ariannol a reoleiddir yn arbennig, ar gyfer dibenion twyll, ac i wyngalchu enillion o droseddau.

6.36 Fe wnaeth Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ddiwygiadau mawr i'r gyfraith yn y maes hwn, gan greu troseddau am gynnig, rhoi addewid neu roi llwgrwobr, a gofyn, cytuno i dderbyn neu dderbyn llwgrwobr. Roedd hefyd yn cynnwys dwy drosedd am lwgrwobrwyo masnachol: llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor i gael neu i gadw busnes er mantais fasnachol, ac atebolrwydd corfforaethol am beidio ag atal llwgrwobrwyo ar ran sefydliad masnachol.

6.37 Awgrymodd ymchwil diweddar fod un o bob ugain o bobl yn y Deyrnas Unedig wedi talu llwgrwobr yn y deuddeg mis diwethaf[77]. Mae hon yn gyfradd uwch nag a gofnodwyd o'r blaen. Rhaid i'r ymateb i lwgrwobrwyo a llygredd gael eu gwella ar lefel polisi a lefel weithredol.

6.38 Ar hyn o bryd mae'r polisi ar lwgrwobrwyo a llygredd yn cael ei rannu ar draws San Steffan a, thra bod rhai darnau o waith da yn bodoli, nid oes un Adran yn gyfrifol amdanynt. Bydd y Swyddfa Gartref yn awr yn arwain wrth gydlynu'r holl bolisi llwgrwobrwyo a llygredd domestig, gan weithio gyda Swyddfa'r Cabinet a DFID i gysoni hyn â gwaith ar lygredd dramor. Mae'r modd hwn o ddyrannu cyfrifoldeb yn gyson â gwaith y Swyddfa Gartref yn ymdrin â llygredd yn yr heddlu ar y cyd â'r Coleg Plismona, Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC).

6.39 Mae'r rhwystrau sydd wedi atal rhannu cudd-wybodaeth yn gyson rhwng asiantaethau, natur dameidiog yr ymateb gweithredol a'r diffyg peirianwaith effeithiol i roi adroddiadau am amheuon o lwgrwobrwyo a llygredd oll wedi llesteirio'r frwydr yn erbyn llygredd.

6.40 Bydd yr NCA yn arwain ar asesu llwgrwobrwyo a llygredd gan droseddwyr cyfundrefnol ac yn cynhyrchu adroddiadau cyson ar y thema hon. Bydd yr NCA hefyd yn cefnogi ymchwiliadau i lygredd sy'n effeithio ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac eraill, carchardai er enghraifft, lle mae'r staff mewn mwy o risg o lygredd o ystyried eu hagosatrwydd at droseddwyr. Byddant yn gwneud hyn trwy gudd-wybodaeth, asesu bygythiadau a, phan fydd angen hynny, cefnogaeth weithredol.

6.41 Bydd y Rheolaeth Troseddau Economaidd (ECC) yn yr NCA yn goruchwylio ymateb asiantaethau gorfodi'r gyfraith i lygredd a llwgrwobrwyo yn fwy eang. Pan fydd troseddwyr cyfundrefnol dan sylw, gall yr NCA naill ai weithredu ei hun neu gydlynu asiantaethau eraill i sicrhau bod ymateb gweithredol cymesur yn cael ei drefnu. Bydd yr NCA yn gweithio yn glos gyda phartneriaid eraill sy'n gweithio ar orfodi'r gyfraith gan gynnwys:

- y Swyddfa Twyll Difrifol, sy'n parhau yn asiantaeth arweiniol ar gyfer ymchwilio i achosion mawr a chymhleth o lwgrwobrwyo a llygredd corfforaethol, a gorfodi'r Ddeddf Llwgrwobrwyo o ran llygredd dramor gan fusnesau Prydeinig;
- Heddlu Dinas Llundain, sy'n ymchwilio i achosion o lygredd a llwgrwobrwyo domestig a'r Uned Wrthlygredd, a ariennir gan DFID, sy'n ymchwilio i ddinasyddion a chwmnïau o'r Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â llygredd neu lwgrwobrwyo

77 Transparency International (2013) *The Global Corruption Barometer 2013* http://www.transparency.org/gcb2013



mewn gwledydd sy'n datblygu a ariannwyd gan y DFID; ac

- yr Uned Elw Llygredd yn y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, sy'n ymchwilio i unigolion sy'n wleidyddol amlwg ond yn llwgr (unigolion sydd wedi cael eu hymddiried â safle cyhoeddus amlwg neu sy'n berthynas agos i unigolyn o'r fath) sydd wedi gwyngalchu elw llygredd yn y Deyrnas Unedig.

6.42 Ar 12 Chwefror 2013, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref ystod o gamau i wella safonau ymddygiad proffesiynol mewn plismona, gan gynnwys y byddai'r IPCC yn cael yr offer addas i ymdrin â phob honiad difrifol a sensitif yn erbyn yr heddlu, ac y bydd y Coleg Plismona yn cyhoeddi Cod Ymarfer Uniondeb a sefydlu system gryfach o fetio swyddogion yr heddlu i'w defnyddio mewn penderfyniadau ar recriwtio a dyrchafu.

6.43 Rhaid i'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi adroddiad am lwgrwobrwyo a llygredd hefyd fod yn haws ac yn fwy hysbys. Mae polau piniwn yn awgrymu y byddai dros 92% o bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig yn rhoi adroddiad am lygredd petaent yn gwybod amdano ond mai dim ond 30% sy'n gwybod sut i wneud hynny[78]. Credwn fod manteision mawr o greu un peirianwaith i roi adroddiadau a byddwn yn archwilio'r ffordd orau o wneud hyn a chytuno ar ffordd ymlaen.

6.44 Mae angen i ni, nid yn unig dargedu troseddwyr difrifol a chyfundrefnol, ond hefyd gefnogi'r rhai sy'n ceisio ein helpu i adnabod ac amharu ar droseddu difrifol a chyfundrefnol. Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad o'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n rhoi adroddiad am weithgareddau y maent yn amau sy'n anghyfreithlon. Bydd BIS, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref yn ystyried y ddadl dros greu cymhelliant i chwythu'r chwiban, gan gynnwys darparu cymhelliant ariannol i gefnogi chwythu'r chwiban mewn achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn archwilio pa wersi y gellir eu tynnu o'r darpariaethau 'Qui Tam'[79] llwyddiannus yn yr Unol Daleithiau lle gall unigolion sy'n chwythu'r chwiban ac yn gweithio gydag erlynyddion ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith dderbyn cyfran o'r cosbau ariannol a godir yn erbyn cwmni sy'n euog o dwyll yn erbyn y llywodraeth.

78 Transparency International (2013) *Corruption In The UK: Part One – National Opinion Survey* www.transparency.org.uk/our-work/publications/91-corruption-in-the-uk--part-one---national-opinion-survey

79 Qui Tam yw'r disgrifiad arferol am y Ddeddf Honiadau Ffug yn yr Unol Daleithiau sy'n cael ei hystyried gan Lywodraeth yr UDA fel offeryn allweddol i frwydro yn erbyn twyll yn erbyn y llywodraeth ffederal. Mae'r Ddeddf Honiadau Ffug yn cynnwys darpariaethau 'qui tam' sy'n gadael i ddinasyddion preifat erlyn am iawndal, ar ran y llywodraeth, y cwmnïau a'r unigolion oedd yn twyllo'r llywodraeth.

**Prosiect yr Heddlu Metropolitan Amberhill** a sefydlwyd i gasglu a dadansoddi data ar ddogfennau hunaniaeth ffug a rhai gwirioneddol a gafwyd trwy dwyll a adferwyd trwy weithrediadau'r heddlu. Mae'r wybodaeth hon, sy'n cynnwys cronfa ddata o ryw 80,000 o hunaniaethau a dogfennau ffug, wedi cael ei rhannu gydag adrannau'r llywodraeth a sefydliadau eraill i'w helpu i ganfod ac atal troseddau. Amcangyfrifir ei fod wedi atal £3m o dwyll yn 2012[81].

Cyhoeddodd SOCA gyfres o **rybuddion i adrannau'r llywodraeth** a sefydliadau eraill yn cynnwys manylion 466 o basbortau gwirioneddol a gafwyd trwy dwyll. Roedd y pasbortau hyn yn cael eu defnyddio gan droseddwyr ac ymfudwyr anghyfreithlon i gael gwaith, cynnyrch a gwasanaethau ariannol, budd-daliadau, teithio a chyflawni amrywiaeth o droseddau. Trwy'r cynllun hwn llwyddodd nifer o fusnesau trwy'r Deyrnas Unedig i ddefnyddio'r wybodaeth i ddiogelu eu hunain rhag ymosodiad.

Fe wnaeth SOCA hefyd wneud cais am amodau newydd i'w hychwanegu at **Orchmynion Atal Troseddau Difrifol** i wahardd troseddwyr difrifol a chyfundrefnol rhag defnyddio neu fod yn berchen ar offer y gellid eu defnyddio i gynhyrchu neu i newid dogfennau hunaniaeth. Fe wnaethant hefyd lwyddo i'w hatal rhag meddiannu neu reoli dogfennau hunaniaeth trydydd parti.

## vi. Cryfhau systemau ar gyfer canfod pwy yw unigolion fel na fydd troseddwyr difrifol a chyfundrefnol yn cael cyfle i fanteisio ar ddata personol ffug neu wedi ei ddwyn

6.45 Troseddau hunaniaeth yw creu hunaniaeth ffug neu ddefnyddio hunaniaeth rhywun arall er mwyn cyflawni trosedd. Mae'n cynnwys defnyddio amrywiaeth o ddogfennau personol neu ddata heb ganiatâd gan gynnwys pasbortau, trwyddedau gyrru, rhifau yswiriant gwladol, tystysgrifau geni a chyfrifon banc. Darganfu dadansoddiad o dueddiadau twyll 2012 gan CIFAS, sefydliad sy'n caniatáu i'r aelodau rannu manylion am dwyll a amheuir, allan o bron i 250,000 o achosion o dwyll a gadarnhawyd, roedd twyll hunaniaeth yn cyfrif am bron i 50%[80].

6.46 Yn bennaf mae troseddau hunaniaeth yn galluogi troseddau eraill ac yn anaml iawn y bydd yn cael ei gyflawni er ei fwyn ei hun, er y gellir ei ddefnyddio i guddio gweithgareddau troseddol neu amheus a gyflawnir dan enw neu hunaniaeth arall.



80 Yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol (2013) *Annual Fraud Indicator* www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/206552/nfa-annual-fraud-indicator-2013.pdf

81 Adroddiad Chwarterol yr Heddlu Metropolitan ar Amberhill Chwef 2013 (heb ei gyhoeddi)

6.47 Rydym yn dymuno gwneud mwy yn y maes hwn. Byddwn yn cryfhau systemau i'w gwneud yn anos i guddio gorffennol troseddol trwy newid enw, a newid y gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi dogfennau i ddisodli rhai eraill (e.e. pasbortau neu drwyddedau gyrru). Byddwn yn amharu ar gynhyrchu hunaniaethau ffug ac yn rhannu gwybodaeth am hunaniaethau ffug yn fwy eang ac achosion pan fydd llu o ddogfennau wedi mynd ar goll yn honedig.

6.48 Mae'r Mesur Troseddau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlismona (a gyflwynwyd i'r Senedd ym Mai 2013) yn cynnwys pwerau sy'n caniatáu i swyddogion mewnfudo, tollau a heddlu i chwilio am ddogfennau teithio annilys, eu harchwilio a'u hatafaelu. Bydd y pwerau newydd hyn yn cyd-fynd â'r pwerau presennol i chwilio am ddogfennau teithio a'u hatafaelu.

6.49 Rydym am amharu ar allu troseddwyr i brynu offer argraffu a deunyddiau arbenigol er mwyn cynhyrchu hunaniaeth ffug a dogfennau eraill e.e. cardiau credyd. Rhoddwyd cyfarwyddyd ar sut y gall y sector preifat gynnal gwiriadau syml i sicrhau nad ydynt yn cyflenwi offer at ddefnydd troseddol yn ddiarwybod.

# PARATOI: Lleihau effaith troseddau difrifol a chyfundrefnol

Bydd llwyddiant PARATOI yn golygu:

- Bod digwyddiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol mawr yn cael eu dwyn i ganlyniad cyflym ac effeithiol
- Cymunedau, dioddefwyr a thystion y mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn effeithio arnynt yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen

Ein hamcanion fydd:

i. Sicrhau bod gennym y gallu angenrheidiol i ymateb i ddigwyddiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol

ii. Darparu cyfiawnder troseddol effeithiol a chefnogaeth arall i gymunedau, dioddefwyr a thystion y mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn effeithio arnynt

7.1 Nid oedd gennym raglen Paratoi o'r blaen ar gyfer troseddau difrifol a chyfundrefnol. Ond mae'r heddlu ac asiantaethau eraill yn awr wedi bod yn ymwneud â gwaith yn y maes hwn ac mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y cynnydd y maent wedi ei wneud. Mae Paratoi yn adlewyrchu'r realiti, faint bynnag y bydd ein hymateb wedi gwella, bydd troseddau difrifol a chyfundrefnol yn parhau i ddigwydd. Felly fe fydd dioddefwyr troseddau a bydd rhai cymunedau yn parhau i ddioddef oherwydd troseddau.

7.2 Mae angen i ni sicrhau ein bod yn barod petai digwyddiadau o droseddau difrifol neu gyfundrefnol mawr sydd ag oblygiadau cenedlaethol ac, er enghraifft, sy'n fygythiad i systemau ac isadeiledd cenedlaethol. Mae ymddangosiad cyflym iawn bygythiad seiber troseddau cyfundrefnol yn gwneud hyn yn holl bwysig. Mae angen i ni hefyd ymdrin ag effeithiau niweidiol troseddau difrifol a chyfundrefnol ar gymunedau a sicrhau bod trawsnewid y system cyfiawnder troseddol yn cefnogi pobl sy'n dystion neu'n ddioddefwyr.

## i. Sicrhau bod gennym y gallu angenrheidiol i ymateb i ddigwyddiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol

7.3 Gwnaed gwelliannau sylweddol wrth adeiladu gallu generig i ymateb i ystod eang o argyfyngau sifil[82] a dod drostynt. Mae gwaith ar y gweill hefyd i wella gallu'r gwasanaethau argyfwng i weithredu trwy'i gilydd: cychwynnodd hyn trwy edrych ar yr ymateb i ddigwyddiadau terfysgol ond mae cwmpas ehangach iddo erbyn hyn. Uwchlaw hyn, credwn fod angen rhoi mwy o bwyslais i ymdrin â'r heriau penodol y

82 Trwy Raglen Gallu Gwytnwch Cenedlaethol Swyddfa'r Cabinet, www.gov.uk/preparation-and-planning-for-emergencies-the-capabilities-programme

mae digwyddiadau o droseddau difrifol a chyfundrefnol mawr yn eu creu.

7.4 Fel arfer mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau troseddol yn hytrach nag un ymosodiad mawr ei effaith (fel sy'n wir gyda therfysgaeth). Ond mae rhai bygythiadau troseddol sy'n gofyn am ymateb cenedlaethol, gan gynnwys ymosodiadau atal gwasanaeth sylweddol neu dwyll seiber; digwyddiadau yn ymwneud ag arfau anghyfreithlon; mynediad cyffuriau all fod yn farwol neu wedi eu haddasu i'r farchnad yn y Deyrnas Unedig; ac ymosodiadau troseddol sy'n creu bygythiad i ddiogelwch bwyd, ynni a dŵr yn y Deyrnas Unedig.

7.5 Rydym yn rhoi pwyslais penodol ar baratoi yn effeithiol ar gyfer digwyddiad seiber sy'n ymwneud â throseddau o bwys. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith y gallu, y pwerau a'r cysylltiadau cywir â'r sector preifat i ymateb yn effeithiol, a bod peirianwaith cenedlaethol effeithiol yn ei le i ymateb yn gyflym i ddigwyddiad mawr. Ein blaenoriaethau yw i:

- adeiladu Tîm Ymateb i Argyfwng Cyfrifiadurol (CERT-UK) i wella'r ffordd y mae'r Deyrnas Unedig yn ymateb i ymosodiadau seiber o bwys. Bydd CERT-UK yn helpu diwydiant i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau seiber ac adfer gwasanaethau hanfodol. Bydd yn gweithio gyda sefydliadau tebyg mewn gwledydd eraill i alluogi gwell rhannu gwybodaeth ac ymateb rhyngwladol i ddigwyddiadau. Arweinir datblygiad CERT-UK gan Swyddfa'r Cabinet a bydd yn cael ei lansio yn gynnar yn 2014; a
- sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith allu effeithiol i ymateb trwy Uned Troseddau Seiber Cenedlaethol yr NCA, a fydd yn arwain yr ymateb gweithredol cenedlaethol i'r troseddau seiber mwyaf difrifol, a thrwy fuddsoddi mewn gallu plismona ehangach.

## Rhaglen Brofi ac Ymarfer Genedlaethol

7.6 Wrth ymgynghori ar y strategaeth hon, fe wnaethom ganfod cefnogaeth gref ymhlith yr heddlu ar gyfer cyflwyno rhaglen newydd i ymarfer a phrofi pa mor barod yw'r heddlu, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod bygythiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol yn parhau i esblygu, a bod y dirwedd plismona wedi newid gyda dyfodiad yr NCA (gyda'i fandad i rannu tasgau a chydlynu ymateb yr asiantaethau gorfodi'r gyfraith i droseddau difrifol a chyfundrefnol), cyflwyno comisiynwyr heddlu a throseddu a sefydlu Canolfan Gydlynu Genedlaethol yr Heddlu (NPoCC)[83].

7.7 Amcan y rhaglen newydd fydd profi ein gallu i ymateb ar y cyd i ystod o sefyllfaoedd a sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu. Bydd angen iddi brofi gallu a'r berthynas rhwng yr asiantaethau sy'n bartneriaid. Dylai'r ymarferion gael eu seilio ar dybiaethau cynllunio sy'n deillio o'r darlun cudd-wybodaeth diweddaraf sydd gan yr NCA am y bygythiad i'r Deyrnas Unedig o droseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd y rhaglen yn cynnwys, pan fydd hynny'n addas, cynrychiolwyr o'r sectorau preifat a gwirfoddol. Bydd y cynllunio ar gyfer y rhaglen hon yn cael ei gydlynu rhwng y Swyddfa Gartref, yr NCA a lluoedd yr heddlu a rhaid iddo adlewyrchu gofynion y lluoedd heddlu. Bydd CERT-UK yn arwain ar yr ymarferion a'r profi ar drefniadau rheoli digwyddiadau diwygiedig ar gyfer digwyddiad seiber o bwys.

83 Swyddogaethau NPoCC yw asesu gallu plismona cenedlaethol o ran y Gofynion Plismona Strategol a Chenedlaethol; cydlynu trefn o brofi ac ymarfer cyson i sicrhau bod asedau cenedlaethol yn gweithredu yn effeithiol mewn argyfwng; a negodi cymorth i'w gilydd rhwng lluoedd heddlu petai argyfwng. Am ragor o wybodaeth gweler http://www.acpo.police.uk/NationalPolicing/NPoCC/home.aspx

## ii. Darparu cyfiawnder troseddol effeithiol a chefnogaeth arall i gymunedau, dioddefwyr a thystion y mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn effeithio arnynt




7.8 Mae grwpiau troseddol cyfundrefnol yn cael effaith niweidiol yn lleol, yn arbennig yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a hefyd ymhlith cymunedau sy'n newydd i'r wlad hon. Mewn rhai ardaloedd lleol gall troseddwyr cyfundrefnol gael eu hystyried yn fodelau rôl. Gall grwpiau o droseddwyr cyfundrefnol (ar y cyd â gangiau stryd trefol weithiau) fygwth pobl er mwyn sicrhau eu tawelwch. Daw troseddau cyfundrefnol yn nodwedd sy'n cael ei derbyn yn yr amgylchedd a gallant barhau yn haws heb i neb amharu arnynt. Mae hon yn nodwedd o weithgaredd troseddol cyfundrefnol mewn nifer o wledydd eraill.

7.9 Rhaid i ni amharu ar ymdrechion gan grwpiau o droseddwyr cyfundrefnol i ddatblygu gafael ar gymunedau lleol iawn. Bydd ar y strategaeth hon a gweithgareddau asiantaethau gweithredol i'w chefnogi angen cefnogaeth gan y gymuned. Rhaid i gymunedau gael yr hyder i fod yn rhan o'n hymateb.

7.10 Mae nifer o gamau gweithredu yn y strategaeth hon a fwriadwyd i ymdrin â hyn, gan gynnwys yr amharu diflino (a gweladwy) ar droseddwyr difrifol a chyfundrefnol gan yr heddlu ac asiantaethau eraill; gweithredu mwy ymosodol a gweladwy i adfer asedau troseddwyr; partneriaethau troseddau cyfundrefnol lleol (a ddylai ymdrin ag effaith troseddau cyfundrefnol ar gymunedau lleol); ein dull Atal; a rhaglen o waith i gefnogi dioddefwyr a thystion yn well (gweler 7.12–7.20).




7.11 Mae hyder a ffydd y cyhoedd yn yr heddlu yn allweddol. Mae gan dimau plismona cymdogaeth ran bwysig i'w chwarae wrth dorri'r nifer o droseddau (gan gynnwys troseddau difrifol a chyfundrefnol) trwy adeiladu perthynas lawn ffydd, casglu cudd-wybodaeth gymunedol a datrys pryderon y gymuned. Bydd y Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona yn sicrhau bod troseddau cyfundrefnol yn cael eu hystyried yn briodol wrth ddatblygu arfer gorau ymlyniad cymunedol yr heddlu a phlismona cymdogaethau. Yn ychwanegol:

- byddwn yn disgwyl i'r heddlu a'r NCA sicrhau bod cynlluniau ymlyniad cymunedol a chyfathrebu yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer gweithrediadau gorfodi'r gyfraith yn erbyn troseddwyr difrifol a chyfundrefnol i roi gwybod i'r cyhoedd cyn, yn ystod ac ar ôl i weithgaredd ddigwydd;
- byddwn hefyd yn disgwyl i'r heddlu a'r NCA hybu defnyddio datganiadau effaith cymunedol a fydd yn rhoi cyfle i'r llysoedd, wrth ystyried dedfrydau,

ystyried effaith (gan gynnwys ofn a bygythiadau) y mae troseddau penodol wedi eu cael ar gymunedau; a

- bydd y Swyddfa Gartref yn sefydlu grŵp sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol (VCSE) newydd a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr NCA, elusennau a sefydliadau anllywodraethol eraill. Bydd y grŵp yn cydlynu rôl y sector VCSE yn yr ymateb i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd yn cynnig llwybr i sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau, dioddefwyr a thystion i gyfathrebu'r ddwy ffordd am faterion troseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd yn chwilio am gyfleoedd am ymgyrchoedd cyfathrebu ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth, ac yn cynnig fforwm ar gyfer rhoi adborth ar effaith y strategaeth hon ar lefel leol.

## Dioddefwyr a thystion



7.12 Mae gan ddioddefwyr a thystion pob math o droseddau gyfran bersonol yng nghanlyniadau'r system cyfiawnder troseddol. Ac mae'r system ei hun yn dibynnu ar gydweithrediad dioddefwyr a thystion os bydd troseddwyr yn cael eu dwyn ger bron eu gwell.

7.13 Cyhoeddodd y Llywodraeth yn Rhagfyr 2012 y bydd tystion a phobl fregus eraill y gall eu bywydau fod mewn perygl yn cael eu diogelu yn well trwy'r Deyrnas Unedig a chefnogaeth gan Wasanaeth Unigolion a Ddiogelir y Deyrnas Unedig newydd, i roi gwell cefnogaeth i'r rhai sy'n helpu i ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell. Bydd hyn yn cael ei gydlynu gan yr NCA, gan weithio gyda ROCUau. Defnyddiwyd statws unigolyn a ddiogelir ar draws ystod o droseddau gan gynnwys tystion a dioddefwyr trychineb Bae Morecambe, tystion i lofruddiaeth Rhys Jones a hefyd troseddau gynnau a gangiau[84].

7.14 Fe welwyd cynnydd yn barod o ran gwneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy ymatebol ac yn haws mynd trwyddi[85]. Mae problemau penodol y mae angen i ni ymdrin â nhw o ran dioddefwyr bregus iawn (er enghraifft, yng nghyd-destun masnachu mewn pobl a chamfanteisio rhywiol ar blant) a thystion i droseddau difrifol a chyfundrefnol.

### Dioddefwyr

7.15 Rydym eisoes wedi cymryd camau i wella'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr troseddau. Penodwyd Comisiynydd Dioddefwyr newydd (y Farwnes Newlove) ac mae model cymysg o gomisiynu cenedlaethol a lleol o ran gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn cael ei gyflwyno i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r hyn sydd o bwys yn lleol yn well. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi Cod Dioddefwyr statudol newydd yn fuan sy'n disgrifio'r math o gymorth y mae gan ddioddefwyr troseddau hawl i'w gael. Bydd hyn yn cynnwys: esboniad clir beth i'w ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol pan fydd pobl yn rhoi adroddiad am drosedd, gan gynnwys sut a phryd y maent yn cael gwybod am gynnydd yr ymchwiliad; gwell hawliau i ddioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol (gan gynnwys troseddau rhywiol, masnachu mewn pobl a throseddau treisgar),

84 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lansiwyd Rhagfyr 2013, www.gov.uk/government/news/uk-wide-protection-for-witnesses-as-new-national-scheme-launched

85 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) Papur Gwyn *Swift and Sure Justice* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/217328/swift-and-sure-justice.pdf ; ac ymgynghoriad *Getting it Right for Victims and Witnesses* https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013) *Transforming the CJS* https://www.gov.uk/government/publications/transforming-the-criminal-justice-system

dioddefwyr sy'n cael eu targedu yn barhaus a dioddefwyr bregus neu dan fygythiad; ac eglurder ar y gwasanaeth y bydd gan fusnesau o bob maint yr hawl i'w gael. Bydd y Cod, fydd ar gael i'r cyhoedd, yn nodi dyletswyddau amrywiol i'r heddlu, y CPS ac asiantaethau eraill yng Nghymru a Lloegr; bydd yr NCA yn addasu ei egwyddorion ac yn datblygu cyfarwyddyd a safonau addas.

7.16 Rydym wedi gwneud darpariaethau ychwanegol i ddiogelu dioddefwyr masnachu mewn pobl mewn achosion llys yng Nghymru a Lloegr, yn unol â'r camau sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau rhywiol[86]. Gall dioddefwyr roi tystiolaeth trwy ddolen fideo neu trwy dystiolaeth wedi ei recordio ymlaen llaw, o'r tu ôl i sgrin neu pan fydd y cyhoedd wedi eu hanfon o'r llys.

7.17 Byddwn yn gweithredu camau a amlinellir gan Grŵp Cenedlaethol SVACV[87]. Rydym eisoes yn cynllunio i gyflymu'r broses o gyflwyno camau arbennig gwell fel croesholi tystiolaeth wedi ei recordio ymlaen llaw. Byddwn hefyd yn adolygu ffyrdd o leihau straen croesholi i ddioddefwyr a thystion yn ystod achosion troseddol, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â diffynyddion lluosog. A byddwn yn archwilio ystod o gamau i wella argaeledd a mynediad at wasanaethau cefnogi ehangach i ddioddefwyr sy'n blant.

## Tystion

7.18 Gall tystion i droseddau a gyflawnwyd gan droseddwyr difrifol a chyfundrefnol ddioddef gweithredoedd treisgar gwirioneddol neu gael eu bygwth â nhw. Mae codi ofn fel hyn ar dystion yn amharu yn fawr ar ymchwilio yn effeithiol i droseddau difrifol a chyfundrefnol ac mae'n cael effaith niweidiol sylweddol ar hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Gwyddom fod troseddwyr cyfundrefnol wedi ceisio atal cyfiawnder trwy geisio cael dylanwad ar reithgorau.

7.19 Cyflwynodd y Llywodraeth y Siarter Tystion newydd[88] a Gwasanaeth Tystion sy'n gweithio'n glos gydag Unedau Gofal Tystion i gynnig yr isafswm o ran safonau o ran triniaeth, darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyn yr achos llys ac yn y llys. Gwnaed gwelliannau i sicrhau bod tystion bregus ac arbenigol sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys yn cael eu diogelu gan gynnwys Gwasanaeth Unigolion a Ddiogelir y Deyrnas Unedig newydd. Bydd hyn yn cysylltu â'r gwaith trosfwaol y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei symud ymlaen i wella gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion.

7.20 Yn 2011, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfarwyddyd cenedlaethol[89] i helpu'r heddlu i ddynodi tystion bregus a dan fygythiad a deall rhai o'r camau allweddol y gellir eu cynnig i gefnogi tystion o'r fath. Mae'n esbonio camau y gellir eu cymryd cyn i adroddiad gael ei roi ar drosedd, yn ystod yr ymchwiliad ac ar ôl yr achos. Hyd yn hyn bu'r gweithredu ar y cyfarwyddyd yn anghyson. Ochr yn ochr â'r camau newydd a nodir yma, bydd y Coleg Plismona yn datblygu dull cenedlaethol newydd ar gyfer rheoli a chefnogi'r holl ddioddefwyr a thystion bregus a dan fygythiad.

86 The Trafficking People for Exploitation Regulations 2013 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/554/body/made

87 Y Swyddfa Gartref (2013) *Sexual Violence Against Children and Vulnerable People National Group Progress Report and Action Plan* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/230443/Sexual_Violence_against_Children_and_Vulnerable_People.pdf

88 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) *Getting it right for victims and witnesses: the Government response* https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses

89 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011) *Vulnerable and Intimidated Witnesses: A Police Service Guide* http://www.justice.gov.uk/downloads/victims-and-witnesses/vulnerable-witnesses/vulnerable-intimidated-witnesses.pdf

# Atodiad A

## Atebolrwydd, llywodraethu a chyllid

I. Mae'r atodiad hwn yn nodi'r atebolrwydd, llywodraethu, rheoli perfformiad a chyllid ar gyfer y strategaeth hon.

### Atebolrwydd a llywodraethu

II. Y Cyngor Diogelwch Cenedlaethol (NSC), dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, fydd yn goruchwylio'r strategaeth hon ac yn derbyn adroddiadau ar ei chynnydd.

III. Mae gan yr Ysgrifennydd Cartref oruchwyliaeth uniongyrchol dros yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA). Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn parhau i gadeirio cyfarfod Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol Gweinidogol yn gyson. Gan y Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth (OSCT) yn y Swyddfa Gartref y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu gweithredu'r strategaeth a datblygu fframwaith perfformio effeithiol.

IV. Bydd asesu perfformiad yn seiliedig ar set o ddangosyddion yn cynnwys (ond nid yn unig) erlyniadau, gweithgaredd amharu arall, asedau a nwyddau a atafaelwyd, atgwympo a chael gwared ar droseddwyr sy'n ddinasyddion tramor.

V. Bydd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA Grwpiau Llywodraethu Strategol ar y prif fathau o droseddau sy'n ddarostyngedig i'r strategaeth hon. Diben y Grwpiau hyn yw monitro a chydlynu'r cyflawni gweithredol. Bydd gweithredu yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan holl adrannau'r llywodraeth a'u hasiantaethau, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r cyhoedd yn ehangach a'r sector preifat.

VI. Mae Prif Gwnstabliaid ardaloedd lluoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr yn atebol i'w comisiynwyr heddlu a throseddu etholedig. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Cartref gyhoeddi Gofyn Plismona Strategol (SPR) – y mae'n rhaid i brif gwnstabliaid a chomisiynwyr heddlu a throseddu ei ystyried – sy'n nodi'r bygythiadau cenedlaethol y mae'n rhaid i'r heddlu ymdrin â nhw a'r gallu sy'n ofynnol i ymdrin â nhw. Mae'r bygythiadau cenedlaethol hyn yn cynnwys troseddau cyfundrefnol a digwyddiadau seiber ar raddfa fawr[90]. Byddem yn disgwyl i gomisiynwyr heddlu a throseddu graffu ar berfformiad y lluoedd heddlu ar droseddau cyfundrefnol a hefyd y gefnogaeth a roddwyd i blismona lleol gan yr awdurdod lleol.

### Cyllid

VII. Fe wnaeth Adolygiad Gwariant 2013 osod y gyllideb ar gyfer pob adran yn y llywodraeth. Roedd yr adnoddau a ddyrannwyd i adrannau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn yr Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol.

VIII. Mae'r NCA yn Adran Anweinidogol a bydd yn derbyn cyllid yn uniongyrchol o Drysorlys EM. Bydd y gyllideb i'r NCA yn tua £450 miliwn y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys peth cyllid ychwanegol ar gyfer rhaglen gyfalaf yr NCA i gefnogi gallu TG a thechnolegol. Bydd y dyraniad dros y blynyddoedd nesaf yn cael ei bennu ynghyd ag adrannau eraill y llywodraeth ganolog yn y ffordd arferol.

---

90 Llywodraeth EM (2011) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/13/contents/enacted; a'r Gofyn Plismona Strategol www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/117445/strategic-policing-requirement.pdf

IX. Rhoddodd y Llywodraeth £650 miliwn, dros bedair blynedd, trwy'r Rhaglen Diogelwch Seiber Genedlaethol (NCSP) i gefnogi'r Strategaeth Ddiogelwch Seiber Genedlaethol, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2011. Mae cyllid NCSP yn cael ei wario i gynyddu gallu'r heddlu yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol ar droseddau seiber, gan gynnwys datblygu sgiliau seiber mewn plismona prif ffrwd. Cyhoeddwyd £210 miliwn ychwanegol o gyllid i'r NCSP ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 yn y Rownd Gwariant ym Mehefin 2013.

X. Mae'r Llywodraeth hefyd yn darparu cyllid i'r heddlu i ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Yn ychwanegol at y mwy na £8 biliwn y flwyddyn a roddir gan y llywodraeth ganolog i gefnogi plismona yng Nghymru a Lloegr, mae'r Swyddfa Gartref yn rhoi cyllid penodol i wella gallu allweddol yn Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol yr heddlu. Ar gyfer 2013-2014, mae'r Swyddfa Gartref yn buddsoddi £26 miliwn i ddatblygu'r unedau hyn ymhellach, cynnydd o £10 miliwn ar y buddsoddiad yn 2012-2013. Dyrannwyd y cyllid ychwanegol hwn o gyfran y Swyddfa Gartref o'r derbyniadau a gafwyd o atafaelu asedau troseddol.

# Atodiad B

## Rolau a chyfrifoldebau adrannol am ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol

*Mae'r atodiad hwn yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau adrannau ac asiantaethau ar neu mewn cysylltiad â throseddau difrifol a chyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr*

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA):** mae ei chyfrifoldebau yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri, ac mae'n cyfrannu cyllid i gefnogi'r Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol.

**Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA):** fydd yn datblygu a dwyn at ei gilydd gudd-wybodaeth ar bob math o droseddau cyfundrefnol, yn blaenoriaethu grwpiau o droseddau yn ôl y bygythiadau y maent yn eu creu ac, ar y cyd gyda'r heddlu, yna yn arwain, cydlynu a chefnogi ein hymateb gweithredol (gweler 4.2-4.9).

**Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA):** sy'n rheoleiddio'r sector ariannol a chynghorwyr ariannol, bydd yn mynd ati i erlyn, gan gynnwys am ddelio mewnol a cham-reoli'r farchnad. Ar droseddau cyfundrefnol, bydd yr FCA yn gweithio yn glos gyda'r NCA.

**Canolfan er Diogelu'r Isadeiledd Cenedlaethol (CPNI):** sy'n diogelu diogelwch cenedlaethol y Deyrnas Unedig trwy roi cyngor ar ddiogelwch i sefydliadau, gan gynnwys ar ddiogelwch seiber.

**Canolfan Fasnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig (UKHTC):** sy'n ganolfan amlasiantaethol, dan arweiniad yr NCA, sy'n cynnig un man canolog i ddatblygu arbenigedd a chydweithredu ar fasnachu mewn pobl.

**Cyllid a Thollau EM (HMRC):** awdurdod trethi a thollau'r Deyrnas Unedig, sy'n gyfrifol am ymdrin â thwyll ariannol, gyda phwerau sifil a throseddol i ymchwilio i droseddwyr cyfundrefnol. Mae ganddo rwydwaith ryngwladol o Swyddogion Cyswllt Troseddau Ariannol (FCLO).

**Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol (SIS):** sy'n casglu cudd-wybodaeth dramor i hybu ac amddiffyn diogelwch cenedlaethol a lles economaidd y Deyrnas Unedig.

**Gwasanaeth Diogelwch (MI5):** sy'n gyfrifol am ddiogelu diogelwch cenedlaethol y Deyrnas Unedig rhag bygythiadau gan gynnwys terfysgaeth a throseddau difrifol.

**Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS):** yn erlyn achosion troseddau difrifol a chyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr; hefyd yn arwain y Gwasanaeth Erlyn Twyll, fydd yn gweithio yn glos gyda Rheolaeth Troseddau Economaidd yr NCA.

**Gweithredu Twyll:** yr un man i roi adroddiad am dwyll a throseddau rhyngrwyd gyda chymhelliad ariannol.

**Heddlu:** bydd y rhan fwyaf o waith gweithredol yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol yn y wlad hon yn parhau i gael ei wneud gan luoedd heddlu ar lefel leol a gan Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol yr heddlu. Mae swyddogion arweiniol yn yr heddlu ar reng prif gwnstabl dros faterion troseddau, a throseddau difrifol a chyfundrefnol, sy'n cynnig arweiniad strategol cenedlaethol a chefnogaeth i luoedd yng Nghymru a Lloegr.

**Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ):** sy'n rhoi cefnogaeth cudd-wybodaeth a chyngor ar sicrhau gwybodaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

**Rhwydweithiau Cudd-wybodaeth Asiantaeth y Llywodraeth (GAIN):** sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth am fygythiadau troseddau cyfundrefnol rhwng y llywodraeth, cyrff gorfodi'r gyfraith ac mewn rhai enghreifftiau yn y sector preifat.

**Swyddfa'r Cabinet (CO):** yn cynnwys y Swyddfa Sicrhau Diogelwch a Gwybodaeth Seiber (OCSIA) sy'n gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Ddiogelwch Seiber Genedlaethol, yn cydlynu'r Rhaglen Diogelwch Seiber Genedlaethol ac yn gyfrifol am y Tîm Ymateb Argyfwng Cyfrifiadurol newydd (CERT). Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd yn cynnwys y tasglu Twyll, Camgymeriadau a Dyled a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Gwirio Rhag Twyll a'r Cynllun Twyll Cenedlaethol.

**Trysorlys EM (HMT):** sy'n gyfrifol am reoleiddio'r sectorau ariannol a bancio ac am sicrhau bod cosbau addas yn eu lle, gan gynnwys rhewi asedau.

**Y Gweinyddiaethau Datganoledig:** sy'n gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru am y swyddogaethau sydd wedi eu datganoli iddynt yn ôl eu setliadau datganoli gwahanol. Mae plismona a chyfiawnder wedi eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO):** sy'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth ddiplomataidd i'n blaenoriaethau troseddau difrifol a chyfundrefnol dramor.

**Y Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO):** y cydlynydd cenedlaethol ar droseddau eiddo deallusol (ffugio a dwyn). Ei Foth Cudd-wybodaeth sy'n cydlynu a chyfnewid cudd-wybodaeth droseddol rhwng asiantaethau eiddo deallusol a'r sector preifat yn y Deyrnas Unedig a thramor.

**Y Swyddfa Gartref (HO):** yn y Swyddfa Gartref y Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth (OSCT) sy'n gyfrifol am ddyfeisio a chydlynu'r strategaeth hon a goruchwylio'r NCA. Mae'r OSCT hefyd yn gartref i dîm ymlyniad y diwydiant diogelwch sy'n cefnogi gwaith ar wrthderfysgaeth a throseddau cyfundrefnol. Y Llu Ffiniau, Fisas a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig a Gorfodi Mewnfudo, ynghyd â Swyddfa Basbortau Ei Mawrhydi, yw colofn weithredol y Swyddfa Gartref. Byddant yn parhau i gynnal gweithrediadau yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol

**Y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO):** sy'n gyfrifol am leihau'r bygythiad oddi wrth dwyll a llygredd a hyrwyddo rheolaeth y gyfraith i ddiogelu ffydd yn systemau ariannol a sector busnes y Deyrnas Unedig. Dyma'r asiantaeth sy'n arwain ar ymchwilio i lygredd ac mae'n gyfrifol am weithredu i amharu ar droseddau economaidd trwy Drefniadau Erlyn Gohiriedig.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD):** sy'n cefnogi'r strategaeth hon trwy'r Strategaeth Ymlyniad Amddiffyn[91] trwy gynyddu gallu yn y gwledydd sy'n cael blaenoriaeth, a phan fydd hynny'n addas ac ar gael, defnyddio gallu i wahardd i sicrhau na fydd bygythiadau yn gallu cyrraedd y Deyrnas Unedig. Mae'r Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg

91 Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2013) Strategaeth Ymlyniad Amddiffyn Rhyngwladol www.gov.uk/government/publications/international-defence-engagement-strategy

Amddiffyn, cronfa fasnachu yn yr MOD ond yn gweithredu ar draws y Llywodraeth, hefyd yn cefnogi gwaith y Llywodraeth ar ddiogelwch seiber.

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ):** sy'n gweithio i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu, ac i roi system cyfiawnder troseddol fwy effeithiol, tryloyw ac ymatebol i ddioddefwyr a'r cyhoedd. Yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod gwasanaethau carchar a phrawf yn amharu ar weithgareddau troseddwyr difrifol a chyfundrefnol fel rhan o ddull o'u rheoli ar hyd eu hoes. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfarwyddyd i helpu cwmnïau i ddiogelu eu hunain rhag llygredd a llwgrwobrwyo yn 2012.

**Yr Adran Addysg (DfE):** sydd â diddordeb mewn gweithgareddau i atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol, naill ai fel dioddefwyr neu droseddwyr posibl.

**Yr Adran Busnes, Blaengaredd a Sgiliau (BIS):** mae'n cynnwys y Swyddfa Masnachu Teg sy'n gyfrifol am sicrhau bod defnyddwyr a diwydiant yn cael eu diogelu rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol, ac am hyrwyddo cynllunio ymlaen llaw mewn sectorau sydd mewn perygl oddi wrth dwyll, ymosodiadau seiber a llygredd. Mae Masnach a Diwydiant y Deyrnas Unedig (UKTI) yn BIS yn cynghori busnesau'r Deyrnas Unedig dramor ar ffyrdd i ddiogelu eu hunain rhag llygredd ac yn diogelu buddsoddiad o'r tu allan rhag llygredd a llwgrwobrwyo.

**Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG):** yn cydlynu gwaith gydag awdurdodau lleol ac eraill i helpu teuluoedd cythryblus yn Lloegr sy'n berthnasol i waith Atal yn y strategaeth hon.

**Yr Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID):** gall rhaglenni tramor gyfrannu at gyflawni'r strategaeth hon trwy leihau tlodi ac ymdrin â'r materion cymdeithasol ac economaidd gwaelodol (gan gynnwys llygredd), a chefnogi llywodraethu da a diogelwch, sefydlogrwydd economaidd a gwasanaethau cyflogaeth a mynediad at wasanaethau sylfaenol.

**Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS):** yr adran nawdd i'r Comisiwn Gamblo, corff cyhoeddus anadrannol sy'n rheoleiddio gamblo, betio a'r loteri ac mae'n gyfrifol am dynnu sylw asiantaethau gorfodi'r gyfraith at weithgaredd amheus.

**Yr Adran Drafnidiaeth (DfT):** y rheoleiddiwr diogelwch ar gyfer y sector trafnidiaeth ar draws y gwahanol ddulliau hedfan, morol, rheilffordd a (chludo) nwyddau peryglus. Bwriadwyd rheoliadau diogelwch y DfT i ddiogelu'r cyhoedd sy'n teithio, cyfleusterau teithio a'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant trafnidiaeth. Gall camau diogelwch a gymerir gan y DfT amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol.

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP):** sy'n arwain ar ymchwilio i droseddau difrifol a chyfundrefnol sy'n ymwneud â'r system fudd-daliadau a diogelu'r system wladwriaeth les rhag twyll.

**Yr Adran Iechyd (DH):** sy'n gyfrifol am bolisi yn ymwneud ag adfer o ddibyniaeth ar gyffuriau ac am gynllunio ymateb strategol i rai sialensiau yn y dyfodol o droseddau cyfundrefnol (e.e. cyffuriau newydd a gwahanol).

**Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC):** sy'n gyfrifol am frwydro yn erbyn twyll mewn marchnadoedd ynni, gan ddiogelu cynlluniau cymhelliant ynni'r Llywodraeth, annog cwmnïau ynni i roi adroddiad am weithgaredd amheus a diogelu isadeiledd ynni'r Deyrnas Unedig rhag ymosodiadau gan droseddwyr difrifol a chyfundrefnol.